Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 47/2026
DYDDIAD CYHOEDDI: 25/03/2026

# Sector gwasanaethau masnachadwy Cymru: astudiaeth aml-ddull

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-340-5

Sector gwasanaethau masnachadwy Cymru: astudiaeth aml-ddull

Awduron: Dom Oliver, Nick Miller, Hannah Rigley, Megan Byrne, Gabby Hopkins, Max Mucientes, Yasmin Pemberton / Miller Research (UK) Ltd.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Oliver, D; Miller, N; Rigley, H; Byrne, M; Hopkins, G; Mucientes, M; Pemberton, Y. (2026). Sector gwasanaethau masnachadwy Cymru: astudiaeth aml-ddull. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth rhif 47/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cyngor a Dadansoddi Economaidd

Polisi Economaidd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

polisieconomaidd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau ........ iv

Rhestr o ffigurau ........ iv

Geirfa vi

1. Cyflwyniad ........ 1
1.1. Cwmpas yr astudiaeth ........ 1
1.2. Lleoli'r astudiaeth ........ 1
1.3. Dull methodolegol ........ 2
2. Dull a methodoleg ........ 3
2.1. Cyflwyniad a sail resymegol ........ 3
2.2. Cwmpas a diffiniadau'r ymchwil ........ 3
2.3. Dull methodolegol ........ 4
2.4. Cyfyngiadau a rhybuddion ........ 8
2.5. Goblygiadau o ran dehongli ........ 10
2.6. Amgylchedd masnach byd-eang ........ 11
3. Cefndir y sector gwasanaethau ........ 13
3.1. Cyd-destun byd-eang ac Ewropeaidd ........ 13
3.2. Sector gwasanaethau'r Deyrnas Unedig: trosolwg ac is-sectorau allweddol ........ 14
3.3. Cyd-destun allforio lefel-uchel ........ 15
3.4. Amgylchedd polisi Cymru ........ 19
4. Trosolwg o sector gwasanaethau Cymru ........ 21
4.1. Graddfa a chyfansoddiad sector gwasanaethau Cymru ........ 21
4.2. Rôl prifysgolion a sgiliau ........ 22
4.3. Heriau a chyfleoedd ........ 22
5. Dadansoddiad o sector gwasanaethau Cymru ........ 24
5.1. Economi gwasanaethau Cymru: graddfa, cyfansoddiad a thueddiadau ........ 24
5.2. Y segment gwasanaethau masnachadwy: graddfa, cyfansoddiad a thueddiadau ........ 31
5.3. Dosbarthiad gofodol a mapio segment gwasanaethau masnachadwy Cymru ........ 32
5.4. Is-sectorau masnachadwy allweddol Cymru ........ 35
5.5. Cryfderau a manteision cystadleuol a ganfuwyd ........ 43
5.6. Gwendidau a rhwystrau rhag twf ........ 44
5.7. Heriau a risgiau ........ 45
5.8. Cyfleoedd a meysydd twf posibl ........ 47
5.9. Cymorth i fusnesau ac allforio yng Nghymru ........ 47
5.10. Cysondeb polisi ........ 48
5.11. Goblygiadau o ran polisi a'r camau nesaf i economi gwasanaethau Cymru ........ 48
5.12. Edrych ymlaen ........ 49
6. Modd 5 ........ 50
6.1. Diffiniad ac arwyddocâd Modd 5 ........ 50
6.2. Arwyddocâd o ran cystadleurwydd masnach a strategaeth ddiwydiannol ........ 51
6.3. Heriau wrth fesur a dosbarthu ........ 52
6.4. Pam fod cydnabod gwasanaethau cynwysedig yn bwysig i bolisi ........ 54

6.5. Gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu: cyfleoedd i ddarparwyr gwasanaethau domestig ..... 55
6.6. Dull o amcangyfrif Modd 5 yng Nghymru ..... 56
6.7. Amcangyfrif o gyfanswm gwasanaethau Modd 5 Cymru ..... 57
6.8. Goblygiadau i bolisi gwasanaeth Cymru ..... 63
7. Casgliadau ac argymhellion ..... 64
7.1. Casgliadau cyffredinol ..... 64
7.2. Argymhellion polisi ..... 65
7.3. Camau nesaf posibl ac ymchwil pellach ..... 67
7.4. Crynodeb i gloi ..... 70
8. Atodiadau ..... 72
8.1. Atodiad 1: Adolygu data – dull a chyfyngiadau ..... 72
8.2. Atodiad 2 – Rhestr o godau SIC y bernir eu bod yn y cwmpas fel gwasanaethau masnachadwy ..... 79

# Rhestr o dablau

Tabl 1: Is-sectorau a ddewiswyd. ....................................................... 5
Tabl 2: Is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol a ddewiswyd a gweithgareddau craidd yng Nghymru ....................................................... 35
Tabl 3: Niferoedd busnesau is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol a ddewiswyd, Cymru, 2024-2025 ....................................................... 37
Tabl 4: Amcangyfrifon Cyflogaeth ar gyfer Is-Sectorau Gwasanaethau Masnachadwy a Ddewiswyd, Cymru, 2023 ....................................................... 38
Tabl 5: Amcangyfrif Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol yng Nghymru, 2023 ....................................................... 39
Tabl 6: Allforion sector gwasanaethau, Cymru, 2019 ....................................................... 42
Tabl 7 Amcangyfrifon ar gyfer masnach gyfryngol fel cyfran o allbynnau'r sector gwasanaethau a'r prif sectorau gweithgynhyrchu a gyflenwyd, Cymru, 2019 ......... 60
Tabl 8: Rhestr codau SIC ....................................................... 79

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Allforion y DU o Nwyddau a Gwasanaethau; 2000-2024. 16
Ffigur 2: Allforion gwasanaethau o Gymru, 2016 a 2022. 18
Ffigur 3: Cyfran o swyddi gweithluoedd yn ôl diwydiant, Cymru, Rhagfyr 1996 i Ragfyr 2024 25
Ffigur 4: Cyfran o gyfanswm swyddi gweithluoedd y sector gwasanaethau, Cymru, Rhagfyr 2024 27
Ffigur 5: Cyfran o gyfraniad GVA tuag at gyfanswm y sector gwasanaethau, Cymru, 2023 29
Ffigur 6: Cyfran allforion o gyfanswm y sector gwasanaethau, Cymru, 2022 30
Ffigur 7: Dosbarthiad daearyddol o fusnesau sector gwasanaethau masnachadwy yng Nghymru, 2025 33
Ffigur 8: Mewnforion, allforion a mantol fasnach gwasanaethau allweddol, Cymru, 2022 40
Ffigur 9: Mewnforion, allforion a mantol fasnach ar gyfer y sector ariannol ac yswiriant yn ôl cyrchfan, 2022 41
Ffigur 10: Dadansoddiad Miller Research ac amcangyfrifon Borchert & Tamberi o allforion Modd 5 Cymru (dangosol), Cymru, £ miliwn, 2011-2020 58
Ffigur 11: Allforion Modd 5 yn ôl diwydiant (fel cyfran o gyfanswm allforion Modd 5) (dangosol), Cymru 2011/2015/2020 59

Ffigur 12: Cynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir wrth wneud cerbydau modur, y DU, 2023` 77

# Geirfa

**ASE**
Allforion Gwasanaethau Gwirioneddol (Actual Services Exports)
**BEIS**
Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
**CCR**
Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
**CPA**
Dosbarthiad Cynhyrchion yn ôl Gweithgaredd – Dosbarthiad yr UE o gynhyrchion cysylltiedig â NACE, gyda phob cynnyrch wedi ei glymu wrth un gweithgaredd NACE.
**EBITDA**
Enillion cyn llog, trethi, dibrisiant, ac amorteiddio (Earnings before interest, taxes, depreciation, and amortisation)
**ECIPE**
Canolfan Economi Wleidyddol Ryngwladol Ewrop (European Centre for International Political Economy)
**ESG**
Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol
**EU / UE**
Yr Undeb Ewropeaidd
**FTA**
Cytundebau Masnach Rydd
**GATS**
Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau
**GDP**
Cynnyrch Domestig Gros (Gross Domestic Product)
**GVA**
Gwerth Ychwanegol Gros (Gross Value Added)
**IDBR**
Cofrestr Busnes Rhyng-Adrannol (Inter-Departmental Business Register)
**ITIS**
Masnach Ryngwladol mewn Gwasanaethau
**NACE**
Nomenclature statistique des Activités économiques dans la Communauté Euorpéene – Dosbarthiad diwydiannol yr UE sy'n debyg yn fras i SIC 2007.
**Nesta**
National Endowment for Science, Technology and the Arts – asiantaeth arloesi sydd ar waith ledled y DU
**NQF**
Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
**OECD**
Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (Organisation for Economic Cooperation and Development)
**ONS**
Swyddfa Ystadegau Gwladol
**SIC 2007**
Dosbarthiad Diwydiannol Safonol – modd o ddosbarthu gweithgareddau diwydiannol a masnachol
**SME**
Busnes bach a chanolig

**TG**
Technoleg Gwybodaeth
**TiVA**
Masnach mewn Gwerth Ychwanegol (Trade in Value Added)
**TISMOS**
Masnach mewn Gwasanaethau yn ôl Modd Cyflenwi (Trade In Services by Mode Of Supply)
**WTO**
Sefydliad Masnach y Byd
**Y DU**
Y Deyrnas Unedig

# 1. Cyflwyniad

Mae sector gwasanaethau Cymru yn un o gonglfeini economi Cymru, sy’n cyfrif am gyfran sylweddol o gyflogaeth, gwerth ychwanegol gros (GVA), a mewnfuddsoddi. Eto, mae data a dadansoddiad cynhwysfawr o’r sector, yn enwedig ei ddimensiwn masnachadwy, yn parhau i fod yn gyfyngedig. Gan gydnabod yr angen i ddyfnhau ei sail dystiolaeth, ym mis Ionawr 2025, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Miller Research i gyflawni astudiaeth gynhwysfawr o’r sectorau gwasanaethau yng Nghymru.

Nod yr astudiaeth oedd ymchwilio i faint, cyflwr, cyfraniadau economaidd a heriau presennol y sector a’i ragolygon am dwf yn y dyfodol, gan gynnwys ystyriaeth o botensial a chyfleoedd allforio. Bydd y canfyddiadau’n arwain polisi Llywodraeth Cymru trwy ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer strategaethau i gefnogi twf economaidd y sector gwasanaethau a gwella ei gyfraniad i economi ehangach Cymru.

## 1.1. Cwmpas yr astudiaeth

Mae’r sector gwasanaethau yn cwmpasu gweithgareddau nad ydynt yn arwain ar gynhyrchu cynhyrchion ffisegol a chânt eu cyflawni’n aml mewn is-sectorau megis cyllid, addysg, gofal iechyd, lletygarwch, manwerthu, adloniant a gwasanaethau proffesiynol (gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol, ymgynghori i fusnesau, a thechnoleg gwybodaeth). I ddibenion yr astudiaeth, caiff y sector gwasanaethau ei ddiffinio fel gweithgareddau economaidd sy’n arwain at newid yn amodau unedau defnyddio neu sy’n hwyluso cyfnewid cynhyrchion neu asedau ariannol (Y Comisiwn Ewropeaidd (2023) International trade in services). Rhoddwyd pwyslais penodol ar wasanaethau masnachadwy, a gaiff eu diffinio fel y gwasanaethau hynny sydd â photensial i gael eu gwerthu a’u defnyddio y tu allan i’r rhanbarth lle cânt eu cynhyrchu (sef y rheini nad ydynt wedi eu clymu wrth leoliad penodol ar gyfer eu cyflawni).

## 1.2. Lleoli’r astudiaeth

Mae’r ymchwil hwn yn rhoi golwg gynhwysfawr o’r sector gwasanaethau a’i is-sectorau yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- cyfraniad economaidd: asesu maint, strwythur, a chyfraniad economaidd y sector gwasanaethau, gan gynnwys lefelau cyflogaeth, cyfansoddiad busnesau, a nodweddion gweithluoedd (ee tâl, sgiliau, oriau a weithir).
- golwg ar is-sectorau: canfod diwydiannau allweddol yn y sector, gan gynnwys y rheini sydd o’r pwysigrwydd economaidd mwyaf a’r potensial uchaf am dwf.
- rhagolygon twf: archwilio tueddiadau’r dyfodol, cyfleoedd, a meysydd lle gallai’r sector ehangu, yn enwedig o gymharu â marchnadoedd byd-eang.

- rhwystrau a heriau: deall y rhwystrau sy'n wynebu busnesau'r sector gwasanaethau yng Nghymru a chynnig ymatebion polisi posibl.
- ymyraethau Llywodraeth Cymru: archwilio rôl ymyraethau presennol Llywodraeth Cymru ac arbenigedd academaidd mewn galluogi datblygu sectorol.
- potensial allforio: asesu diwydiannau gwasanaethau masnachadwy Cymru ac adnabod cyfleoedd i ehangu i farchnadoedd rhyngwladol.

Elfen allweddol o'r astudiaeth oedd mapio ecosystem gwasanaethau Cymru, gan gynnwys prifysgolion a sefydliadau ymchwil sy'n cefnogi datblygiad diwydiannau. Mae'r ymchwil yn archwilio rôl gwasanaethau Modd 5, lle caiff mewnbynnau gwasanaethau (megis ymchwil, dylunio, neu feddalwedd) eu cynnwys mewn nwyddau a allforir. Gall gwasanaethau Modd 5 roi hwb sylweddol i werth allforion Cymru ond eto maent yn aml yn aros ynghudd o fewn data masnachol safonol. Trwy ganolbwyntio ar wasanaethau Modd 5, mae'r ymchwil yn amlygu cyfleoedd i finiogi ei manteision cystadleuol a chryfhau ei ecosystem gweithgynhyrchu-gwasanaethau.

## 1.3. Dull methodolegol

Er mwyn sicrhau sail o dystiolaeth gadarn ac ymarferol, defnyddiodd yr astudiaeth amrywiaeth o ddulliau, a oedd yn cyfuno:

- adolygiad o'r ymchwil a'r llenyddiaeth sydd ar gael eisoes ar fasnach gwasanaethau byd-eang ac ymyraethau polisi.
- dadansoddiad o ddata eilaidd i fesur cyfraniadau economaidd a chyfansoddiad sectorol. Y data eilaidd a ddefnyddiwyd oedd y diweddaraf ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
- cyd-drafod â rhanddeiliaid busnesau, llunwyr polisi a chynrychiolwyr diwydiant.
- dull o ddadansoddi'r sector sy'n triongli nifer o setiau data er mwyn ceisio cyflawni'r darlun cywiraf a mwyaf addas o'r sector gwasanaethau yng Nghymru.

Mae'r ymchwil hwn yn helpu i ddeall rôl gwasanaethau masnachadwy, ymdrin â chyfyngiadau data, manteisio ar y data sydd ar gael, a chynnal ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid. Nod hyn yw galluogi llunwyr polisi i gefnogi sector gwasanaethau masnachadwy Cymru yn well trwy ddeall blaenoriaethau, cyfleoedd, a heriau.

# 2. Dull a methodoleg

## 2.1. Cyflwyniad a sail resymegol

Nod yr astudiaeth hon oedd sefydlu sail dystiolaeth ar sector gwasanaethau masnachadwy Cymru – gwasanaethau y gellir eu gwerthu neu eu defnyddio y tu allan i'r rhanbarth lle cânt eu cynhyrchu. Yr amcan oedd deall yn well sut mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at gyflogaeth, gwerth ychwangol gros (GVA), ac allforion, yn ogystal ag archwilio heriau a chyfleoedd am dwf yn y dyfodol. Rhoddwyd pwyslais penodol ar y canlynol:

- proffilio strwythur, cyfansoddiad, a nodweddion gweithluoedd y sector.
- adnabod is-sectorau gwasanaethau allweddol a'u cyfraniadau economaidd.
- datgelu'r heriau allweddol sy'n wynebu busnesau'r sector gwasanaethau a chynnig ymatebion polisi posibl.
- archwilio cymariaethau byd-eang i amlygu tueddiadau a chyfleoedd newydd yn y dyfodol.
- deall ffenomenon gwasanaethau Modd 5 (gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys neu wedi eu pecynnu o fewn nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu) ac asesu sut y gallant wella cystadleurwydd Cymru.

Yn wyneb cymhlethdod a phrinder data ar allforion sector gwasanaethau ar y lefel is-genedlaethol, cyfunodd yr astudiaeth ymchwil desg, dadansoddiad cynhwysfawr o ddata (gan gynnwys cronfeydd data swyddogol a pherchnogol), ac ymchwil sylfaenol (gan gynnwys 55 o ymatebion i arolygon a 18 o gyfweliadau) i ddatblygu dealltwriaeth ymarferol ar gyfer polisi a chynllunio.

## 2.2. Cwmpas a diffiniadau'r ymchwil

Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar adnabod a deall y gyfran o sector gwasanaethau Cymru ac iddi'r potensial o fod yn fasnachadwy. Er bod rhai gwasanaethau (ee hyfforddi) na fyddai efallai'n fasnachadwy mewn lleoliad traddodiadol, mae'r cynnydd mewn dulliau cyflwyno digidol wedi pylu'r ffiniau hyn. Er enghraifft, mae seminarau wyneb yn wyneb yn dod yn fasnachadwy unwaith y'u symudir ar-lein a'u cynnig o bell i gleientiaid rhyngwladol. Roedd adnabod y gwahaniaethau cynnil hyn yn hanfodol ar gyfer diffinio cwmpas yr ymchwil yn gywir.

Er mwyn canfod pa wasanaethau y gellid eu dosbarthu fel rhai 'masnachadwy', mae'r astudiaeth yn cyfeirio at ddiffiniadau Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygu (UNCTAD), sy'n dosbarthu gwasanaethau yn ôl sut maent yn effeithio ar unedau defnyddio (ee atgyweirio, gofal iechyd, addysg), hwyluso cyfnewid cynhyrchion (ee trafnidiaeth a logisteg), neu'n hwyluso cyfnewid ariannol (ee bancio ac yswiriant)

(Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygu (UNCTAD) (1999) UNCTAD/ITE/IIT/11 (Cyf. II): Scope and Definition. UNCTAD Series on Issues in International Investment Agreements. Efrog Newydd a Genefa: y Cenhedloedd Unedig). Mae'r categorïau hyn yn cyfateb yn fras i fframwaith Gwasanaethau Estynedig Mantolau Taliadau (Extended Balance of Payments Services - EBOPS) yn 2010, sy'n grwpio gwasanaethau yn ddeuddeg o brif fathau, yn amrywio o wasanaethau ariannol a thelathrebu i weithgareddau personol a hamdden (Y Cenhedloedd Unedig (2010) Manual on Statistics of International Trade in Services 2010: Extended Balance of Payments Services Classification). Mae codau Dosbarthiad Diwydiannol Sylfaenol (SIC) 2007 yn helpu i adnabod diwydiannau neu is-ddiwydiannau unigol sy'n dangos nodweddion gwasanaethau masnachadwy.

Mae'r sampl a ddefnyddir ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys codau SIC gan mai'r rhain sy'n ffurfio'r fframwaith swyddogol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a chyrff llywodraeth eraill, gan sicrhau cysondeb a'r gallu i gymharu wrth ddadansoddi cofrestriadau busnes, trosiant, a data cyflogaeth. Mae'r dull hwn yn helpu i amlygu is-ddiwydiannau penodol gan gydymffurfio â safonau ystadegol cenedlaethol.

Rhoddir pwyslais penodol ar wasanaethau Modd 5, lle mae mewnbynnau gwasanaethau, megis dylunio, peirianneg, neu ymchwil a datblygu, wedi eu cynnwys o fewn nwyddau a allforir. Golyga hyn fod eu gwerth yn aml wedi ei 'guddio' o dan weithgareddau gweithgynhyrchu ac nad ydynt yn dod i'r amlwg mewn ystadegau masnachol safonol. Wrth archwilio data o Dŷ'r Cwmnïau, Beauhurst, a chronfa ddata Masnach mewn Gwerth Ychwanegol (Trade in Value Added – TiVA), nod yr astudiaeth oedd archwilio'r cyfraniadau mewnblanedig hyn a mesur eu harwyddocâd i allforion Cymru. Defnyddiodd yr ymchwil dablau Mewnbwn-Allbwn i archwilio sut mae gwasanaethau, boed nhw'n uniongyrchol fasnachadwy (ee ymgynghori) neu wedi eu cynnwys yn anuniongyrchol (ee Modd 5) yn cefnogi'r sector gweithgynhyrchu yn ehangach.

Yn y pen draw, mae'r astudiaeth yn archwilio hyd a lled gwasanaethau Cymru, gan geisio mesur parodrwydd ar gyfer allforio ac ymyraethau polisi neu fecanweithiau cymorth posibl a all wella cystadleurwydd y sector, yn ddomestig ac ar y llwyfan byd-eang.

## 2.3. Dull methodolegol

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull strwythuredig, ac iddo sawl cam, i ymchwilio maint a chyfansoddiad sector gwasanaethau Cymru a'i ragolygon am dwf yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau masnachadwy.

### 2.3.1. Adolygiad desg a mapio'r sector

Roedd y cam hwn yn cynnwys adolygiad trylwyr o lenyddiaeth academaidd, polisi a llwyd er mwyn gosod cyd-destun i dueddiadau byd-eang ac ar lefel y DU mewn gwasanaethau masnachadwy. Gan ddefnyddio codau SIC y DU, lluniodd yr astudiaeth restr fer o weithgareddau busnes gwasanaethau ac iddynt y potensial o fod yn fasnachadwy a chymhwysodd y rhain â data o Dŷ'r Cwmnïau a'r gronfa ddata masnachol Beauhurst, i ffurfio cronfa ddata o fusnesau sector gwasanaethau Cymru. Yn ystod y broses hon, mapiodd yr ymchwil elfennau ategol 'ecosystem', megis prifysgolion, sefydliadau ymchwil, a mentrau llywodraeth, sy'n gosod sail i arloesi yn y sector gwasanaethau.

Cytunwyd ar restr fer o fathau o fusnesau gwasanaethau a allai fod yn fasnachadwy yn ôl cod SIC mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Canfu dadansoddiad ac asesiad cychwynnol o'r busnesau hyn gyfres o is-sectorau i'w hastudio ymhellach. Dewiswyd y rhain gan gyfeirio at gyfres o feini prawf goddrychol gan gynnwys:

- cyfraniad economaidd: cyfran yr is-sector o gyflogaeth, trosiant, neu GVA yng Nghymru.
- potensial allforio: gallu'r is-sector i ddarparu gwasanaethau o bell neu ar draws ffiniau (ee gwasanaethau digidol neu broffesiynol).
- cydnawsedd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru: perthnasedd â strategaethau presennol Llywodraeth Cymru megis y Genhadaeth Economaidd neu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio.
- capasiti arloesi ac ymchwil a datblygu: y graddau y mae partneriaethau gyda phrifysgolion neu ganolfannau ymchwil ar gael i gynnig gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd.
- effaith economaidd a chymdeithasol: y gallu i greu swyddi medrus o ansawdd uchel neu gyfrannu at uwchsgilio/ailsgilio.

Dewiswyd yr is-sectorau a ddaeth i'r amlwg yn sgil hyn, a'u codau SIC perthnasol, ar gyfer astudio pellach trwy weithdy gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru. Gall y Rhaniadau SIC bras, 2-ddigid, hyn gynnwys amrywiaeth helaetho wasanaethau, gyda rhai ohonynt a allai fod yn fasnachadwy ac eraill ddim yn fasnachadwy.

**Tabl 1: Is-sectorau a ddewiswyd.**

| **Is-Sector** | **Cod SIC** |
|---|---|
| Ariannol ac Yswiriant | Is-adrannau 64, 65, 66 (K) |

| Is-Sector | Cod SIC |
|---|---|
| TG a Datblygu | Is-adrannau 62, 63 (J) |
| Cyfryngau Creadigol a Digidol | Is-adrannau 58, 59, 60 (J) |
| Cyfreithiol a Chyfrifyddu | Is-adran 69 (M) |
| Ymgynghori Ariannol / Pencadlys | Is-adran 70 (M) |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | Is-adran 71 (M) |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | Is-adran 72 (M) |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | Is-adran 73 (M) |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | Is-adran 74 (M) |

Ffynhonnell: Miller Research

Mae'n werth nodi bod rhai gweithgareddau sectorau gwasanaethau sylweddol sy'n rhychwantu amryw o sectorau, sy'n cael eu cyflawni gan busnesau â chodau gweithgynhyrchu, neu nas diffinnir yn ddigonol trwy godau SIC. Gallai enghreifftiau yn y fan hon gynnwys seibrddiogelwch, gwyddorau bywyd, roboteg neu weithgareddau 'blockchain'. Dewiswyd y rhain trwy ymchwil desg, cyfweliadau, a thrafodaethau gweithdy ac fe'u hymchwilwyd ar wahân, gan weithio trwy ddata fforymau diwydiant, prifysgolion a chwmnïau angor ar gyfer Cymru.

### 2.3.2. Casglu data sylfaenol

I ategu'r dadansoddiad eilaidd, defnyddiwyd amrywiaeth o dechnegau ymchwil sylfaenol:

- cyfweliadau cwmpasu: trwy 8 cyfweliad lled-strwythuredig gyda chyrff diwydiannol, cynrychiolwyr y sector, a llunwyr polisi cafwyd trosolwg o'r sector gwasanaethau a chymorth i'r sector gwasanaethau yng Nghymru. Dewisodd Llywodraeth Cymru ymatebwyr ar gyfer y cyfweliadau cwmpasu lled-strwythuredig gan roi manylion cyswllt i Miller Research.

- cyfweliadau â rhanddeiliaid: fe wnaeth 10 o gyfweliadau lled-strwythuredig pellach gyda chyrff diwydiannol, asiantaethau cymorth busnes, busnesau, a darparwyr ecosystem ychwanegu dyfnder ansoddol, gan ddatgelu heriau byd go-iawn yn ymwneud â chyllid, sgiliau, a chymorth.
- arolwg ar-lein: dosbarthwyd holiadur manwl i fusnesau sector gwasanaethau i gasglu data ar weithgareddau allforio, deinameg gweithluoedd, a rhwystrau canfyddedig, a derbyniwyd 55 o ymatebion. Dosbarthwyd yr arolwg i restr a dargedwyd o 4,658 o fusnerau gwasanaethau Cymru trwy SurveyMonkey a'i hyrwyddo trwy sianelau Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau partner. Mae hyn yn gyfwerth â chyfradd ymateb o 1.2%.

### 2.3.3. Dadansoddi a Chyfuno

Cafodd yr holl lifau data, yn rhai meintiol (canfyddiadau arolygon, ystadegau swyddogol, dadansoddiad o gronfa ddata'r sector gwasanaethau) ac ansoddol (cyfweliadau, gweithdy) eu dadansoddi a'u cydgrynhoi yn fframwaith dadansoddiadol. Roedd gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- mapio GIS: trwy ddefnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol, dangoswyd data busnesau yn ôl maint a chod SIC i ddatgelu patrymau gofodol, adnabod clystyrau rhanbarthol, ac amlygu bylchau posibl mewn darpariaeth gwasanaethau. Fe wnaeth y mapio hwn hwyluso dealltwriaeth o lle mae is-sectorau penodol yn ffynnu a helpu i ddangos ardaloedd sy'n gofyn am bolisi neu fuddsoddiad wedi'i dargedu.
- dadansoddi data ansoddol: gwnaed dadansoddiad thematig o'r holl gyfweliadau a'r ymatebion testun agored i'r arolwg, gyda chymorth offer amlygu data. Cydweithiodd amryw o ymchwilwyr i godio'r data, croesgyfeirio dehongliadau, a mireinio themâu trwy drafod ac aildrafod gyda'r nod o ganfod rhwystrau, galluogwyr, a safbwyntiau rhanddeiliaid nad oedd efallai wedi dod i'r amlwg o fesurau meintiol yn unig.
- sganio'r gorwel: er mwyn rhagamcanu sut y gallai sector gwasanaethau Cymru esblygu, archwiliodd y tîm dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol a byd-eang. Aseswyd ffactorau megis digideiddio, arloesi'n ymwneud â'r hinsawdd, a newidiadau mewn polisïau masnach er mwyn rhagweld eu heffaith debygol ar ddarparwyr gwasanaethau. Trwy adolygu ymchwil allanol, monitro llwyddiannau technolegol, ac ymgorffori barn rhanddeiliaid arbenigol, mae'r astudiaeth yn amlygu meysydd lle gall Cymru aros yn gystadleuol, mabwysiadu technolegau newydd, ac addasu i amodau marchnadoedd yn y dyfodol.
- dadansoddi data meintiol: defnyddiodd yr astudiaeth amryw o ffynonellau data, gan gynnwys ystadegau swyddogol (ee Tŷ'r Cwmnïau, ONS) a setiau data perchnogol (ee Beauhurst), i amcangyfrif maint, cyfansoddiad, a pherfformiad sector gwasanaethau Cymru. Ar ôl cydgrynhoi, glanhau, a

chroesgyfeirio cofnodion, defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol i ddatgelu patrymau mewn maint gweithluoedd, trosiant, a gweithgarwch allforio.

- adolygiad Modd 5: fe wnaeth yr astudiaeth asesu ehangder ac arwyddocâd gwasanaethau Modd 5 yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar wasanaethau sydd wedi eu cynnwys o fewn neu eu pecynnu law yn llaw â chynhyrchion wedi eu gweithgynhyrchu. Defnyddiwyd tablau Cyflenwi a Defnyddio, Mewnbwn-Allbwn a data arolygon eraill i amcangyfrif cyfraniadau Modd 5 i allforion. Cyfrifwyd hyn trwy ddeall lefel a natur pryniannau'r sector gwasanaethau gan y sector gweithgynhyrchu, a'r gyfran o'r rhain sydd wedi eu cynnwys mewn nwyddau wedi eu gweithgynhyrchu. Mae'r adolygiad yn amlygu lle gallai cymorth polisi neu gasglu rhagor o ddata optimeiddio gwerth y gwasanaethau hyn a dan-gydnabyddir.

## 2.4. Cyfyngiadau a rhybuddion

Er bod yr astudiaeth yn ceisio rhoi trosolwg drwyadl a chynhwysfawr o sector gwasanaethau Cymru, mae amryw o gyfyngiadau yn effeithio ar ddyfnder a chywirdeb y canfyddiadau. Rydym wedi amlinellu'r rhain isod.

### 2.4.1. Cwmpas ac ansawdd y data

Data ariannol rhannol: ar ôl cyfuno cofnodion Beauhurst a Thŷ'r Cwmnïau, roedd y set ddata derfynol yn cynnwys 73,544 o gofnodion. Fodd bynnag, nid oedd data trosiant ar gael ond ar gyfer 4.3% o'r cwmnïau hyn. Roedd y cwmpas cyfyngedig hwn o feysydd ariannol allweddol yn cyfyngu ar gadernid rhai dangosyddion economaidd.

Pencadlys yng Nghymru o gymharu â gweithredu yng Nghymru: mae'r ddwy set ddata yn ymwneud yn bennaf fusnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Efallai na fydd busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru neu sydd â swyddfeydd cangen yma ond â'u pencadlys yn rhywle arall, yn ymddangos yn y setiau data, a gall hyd fod â'r potensial o lesteirio dealltwriaeth o wir raddau gweithgareddau gwasanaethau yng Nghymru.

### 2.4.2. Tybiaethau ynghylch codau SIC a gweithgareddau masnachadwy

Dosbarthu sectorau: roedd penderfynu pa fusnesau sy'n disgyn o fewn cylch gwaith 'gwasanaethau masnachadwy' yn gofyn am fapio oddi wrth godau SIC. Roedd y dull hwn yn dibynnu ar y dybiaeth fod codau SIC penodol yn cyfateb yn ddibynadwy â gweithgareddau a allai fod yn fasnachadwy. Mewn gwirionedd, gall busnesau ddefnyddio codau SIC nad ydynt yn adlewyrchu'n berffaith eu gweithgareddau busnes gwirioneddol, a gall rhai cwmnïau weithredu mewn sawl maes gwasanaeth o dan un dosbarthiad.

Cyfran anhysbys o fasnachadwyedd: er y gall diwydiant neu gwmni fod wedi ei ddosbarthu fel gwasanaeth ‘masnachadwy’ yn ôl cod SIC, gall y gyfran wirioneddol o’i wasanaethau a werthir y tu hwnt i’r ardal leol gyfagos – yn enwedig y tu hwnt i Gymru – amrywio’n sylweddol. O ganlyniad, mae’n dal yn anodd mesur yr union gyfran o weithgareddau pob cwmni, a gweithgareddau pob is-sector, sy’n wirioneddol fasnachadwy mewn ystyr rhyng-ranbarthol neu ryngwladol.

### 2.4.3. Gwasanaethau Modd 5 a gwasanaethau cynwysedig

Natur gudd gwasanaethau cynwysedig: ceisiodd yr astudiaeth amcangyfrif cyfraniadau Modd 5 (sef gwasanaethau wedi eu cynnwys mewn nwyddau a allforir) gan ddefnyddio Tablau Mewnbwn-Allbwn a Thablau Cyflenwad a Defnydd. Fodd bynnag, mae mesur union werth gwasanaeth o fewn nwydd wedi’i weithgynhyrchu a allforir yn fater cymhleth, gan mai anaml mae busnesau’n adrodd ar wahân am wasanaethau cynwysedig. Dylai’r ffigurau o ganlyniad gael eu darllen felly fel rhai dangosol yn hytrach na manwl gywir.

### 2.4.4. Ffiniau o ran amser a sector

Llinellau amser data: mae llawer o’r data (ee IDBR neu Dablau Mewnbwn-Allbwn swyddogol) yn agored i oedi cyn cyhoeddi. Er bod y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael wedi cael eu defnyddio pan ysgrifennir hyn, efallai nad ydynt yn dangos yn llawn y newidiadau diweddar yn y farchnad, yn enwedig mewn is-sectorau sy’n esblygu’n gyflym (ee gwasanaethau digidol) a sefyllfaoedd geo-wleidyddol sy’n esblygu’n gyflym. Yn gysylltiedig â hyn, er bod y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael pan ysgrifennwyd wedi eu defnyddio, mae’r oedi mewn amser rhwng drafftio a chyhoeddi yn golygu na fyddant efallai y ffigurau diweddaraf sydd ar gael erbyn y dyddiad cyhoeddi.

Cyfuno sectorau: mewn rhai achosion, megis gwasanaethau ariannol neu yswiriant, gellir cyfuno data yn agregau lefel-uchel, gan guddio gwahaniaethau cynnig is-sectorau unigol.

### 2.4.5. Eithrio rhai mathau o fusnesau

Y sector di-elw a’r sector cyhoeddus: efallai fod rhai sefydliadau di-elw neu sefydliadau sector cyhoeddus sy’n darparu gwasanaethau heb gael eu dangos yn llawn yn y dadansoddiad hwn os nad ydynt yn cofrestru fel busnesau gyda data trosiant.

Busnesau bach a dan-adroddir: gall micro fusnesau (yn enwedig unig fasnachwyr) gael eu colli os nad oes ganddynt ond y mymryn lleiaf o rwymedigaethau adrodd neu’n gweithredu heb statws cwmni cyfyngedig.

### 2.4.6. Ystyriaethau wrth ymgynghori â rhanddeiliaid

Fel gydag unrhyw astudiaeth polisi aml-ddull, dylid ystyried rhai cyfyngiadau wrth ddehongli'r canfyddiadau. Yn gyntaf, o safbwynt cyd-drafod ansoddol, nod yr ymchwil oedd cynnal 25 o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda busnesau, cyrff diwydiant, cynrychiolwyr sector, llunwyr polisi, asiantaethau cymorth busnes, a darparwyr ecosystemau ar draws yr is-sectorau gwasnaethau y cytunwyd arnynt. Cwblhawyd cyfanswm o 18 o gyfweliadau (gan gynnwys 8 o gyfweliadau cwmpasu a 10 o ymgyngoriadau â sectorau penodol). Er bod y dystiolaeth a gasglwyd yn gyfoethog o safbwynt thematig, roedd y cyd-drafod yn gyfyngedig mewn rhai is-sectorau. Dywedodd amryw o fusnesau nad oeddent ar gael yn ystod y ffenest gwaith maes oherwydd gofynion gwaith, yn enwedig y rheini a oedd yn ymateb i'r gyfundrefn tariffau sy'n esblygu yn yr Unol Daleithiau. Mewn achosion eraill, ni atebodd rhanddeiliaid er gwaeth sawl ymgais ddilynol. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn negyddu gwerth dangosol yr wybodaeth a gyflwynwyd, ond maent yn gofyn am gymryd gofal wrth ddehongli gwybodaeth gymharol ar draws rhanbarthau neu sectorau.

Cyflawnwyd arolwg ar-lein ategol er mwyn ehangu'r nifer oedd yn cymryd rhan a chael safbwyntiau ychwanegol. Hyrwyddwyd yr arolwg trwy sianelau Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau partner a derbyniwyd 55 o ymatebion. Er bod y graddau hyn o gymryd rhan yn gyson â chyfraddau ymateb nodweddiadol arolygon busnes-i-fusnes, mae'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd y canlyniadau. Yn unol â hyn, mae canfyddiadau'r arolwg wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf i ddibenion cyd-destunol a darluniadol, i gefnogi gwybodaeth ansoddol a thriongli patrymau a welwyd trwy gyfweliadau a dadansoddiad eilaidd.

## 2.5. Goblygiadau o ran dehongli

O'u cymryd gyda'i gilydd, er bod y canfyddiadau'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am sector gwasanaethau Cymru, yn enwedig ynghylch gweithgareddau masnachadwy posibl a chyfraniadau dangosol Modd 5, mae'r cyfyngiadau uchod yn golygu y dylid trin rhai ffigurau fel rhai darluniadol yn hytrach na diffiniadol.

Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, rydym wedi defnyddio'r ffynonellau data mwyaf diweddar a pherthnasol, sy'n cyflwyno ystodau o ddata lle mae gwahanol ffynonellau gwahanol yn cyflwyno amrywiaeth o ffigurau. Mae gwasanaethau cynwysedig yn dal yn anodd eu mesur yn fanwl gywir, a'r ffordd orau o ddarllen y ffigurau yw fel ystod linell sylfaen gredadwy sy'n seiliedig ar fethodolegau sydd ar gael yn hytrach na chyfansymiau sefydlog.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cymerasom amryw o gamau i wella cadernid. Lle bynnag roedd yn bosibl, fe wnaethom driongli rhwng ffynonellau lluosog o ddata, gan ddewis yr wybodaeth fwyaf perthnasol a chyfoes. Mewn achosion o ansicrwydd (ee cyflogaeth) rydym wedi darparu ystod o amcangyfrifon yn hytrach na gwerth pwynt er mwyn adlewyrchu ffiniau uchaf ac isaf posibl. Yn ein gwaith maes ansoddol, adolygwyd canfyddiadau o gyfweliadau â rhanddeiliaid a'u cymharu ag adolygiadau llenyddiaeth a dogfennau polisi.

Er hynny, oherwydd meintiau samplau a chyfyngiadau data, nid yw'r adroddiad yn honni cyffredinolrwydd drwy'r holl sectorau. Yn hytrach, mae'n cynnig trosolwg strategol wedi ei seilio ar dystiolaeth, gyda'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio i ganfod cyfleoedd am ymchwilio pellach a datblygu polisïau. Dylid gweld yr astudiaeth fel sylfaen ar gyfer deall deinameg sectorol, arwain penderfyniadau polisi, ac amlygu meysydd lle gall casglu data ac ymchwil pellach wella dealltwriaeth.

## 2.6. Amgylchedd masnach byd-eang

Rhwng misoedd Ionawr ac Ebrill 2025, daeth amgylchedd masnach byd-eang yn hynod anwadal yn dilyn gosod tariffau ysgubol gan yr Unol Daleithiau, gyda chyfraddau cyfartalog yn codi o 2.5% i 27%. Fe wnaeth y mesurau hyn, a'r camau a ysgogwyd ganddynt i daro'n ôl, greu ansicrwydd sylweddol, pylu hyder busnesau, a tharfu ar farchnadoedd byd-eang. Pryder penodol i Gymru oedd y cyhoeddiad o dariff gan yr Unol Daleithiau ar ffilmiau o'r tu allan i America, a allai achosi bygythiad i'r diwydiant ffilmiau a chyfryngau sy'n tyfu yng Nghaerdydd. Gyda chynyrchiadau'n gynyddol ddibynnol ar gydariannu, partneriaethau gyda'r Unol Daleithiau, a dosbarthu rhyngwladol, mae rhanddeiliaid y diwydiant a llunwyr polisi wedi rhybuddio bod y tariffau hyn â'r perygl o danseilio buddsoddiad yn seilwaith sgrin Cymru, gan leihau potensial allforio ac erydu cystadleurwydd Caerdydd fel lleoliad ar gyfer gwasanaethau creadigol gwerth uchel (Equity (2025) More US Production Can Help Whole Film Industry, Says Equity in Response to Tariffs; Hansard (2025) United States Film Tariff, Dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, 7 Mai 2025; Nation Cymru (2025) Trump's Tariffs on Non-US Movies Would Deal Knock-Out Blow to UK Film Industry; The Guardian (2025) UK Film Industry Horror at Possible Trump Tariffs, 9 Mai 2025).

I Gymru, mae'r amgylchedd masnachol byd-eang yn golygu heriau i gystadleurwydd y sector gwasanaethau. Yr Unol Daleithiau yw marchnad allforio ail fwyaf Cymru ar gyfer nwyddau ac mae'n bartner sylweddol ar gyfer masnach gwasanaethau (gwerth amcangyfrif o £3.2 biliwn yn 2022). Gallai unrhyw darfu ar fasnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau ddylanwadu'n anuniongyrchol ar ddarparwyr gwasanaethau Cymru, trwy leihau gweithgarwch cleientiaid yr Unol Daleithiau neu effeithiau o ganlyniad oddi wrth weithgynhyrchwyr Cymru yn wynebu rhwystrau newydd. Mae arweinwyr busnes yng Nghymru wedi lleisio pryderon bod gan dariffau y potensial o gael effaith sylweddol ar fusnesau, gan symbylu Llywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Gwybodaeth ac Ymateb i Dariffau. Effeithiwyd ar hyder busnesau, a dechreuodd cwmnïau ailasesu rhagamcanion twf, y graddau'r oeddent yn agored i risg, mewn rhai achosion yn gohirio penderfyniadau buddsoddi neu gyflogi (Llywodraeth Cymru (2025) Cytundeb Ffyniant Economaidd rhwng y DU a'r Unol Daleithiau; Chandak, A. and Shrivastava, S. (2025) Global trade war hits UK business sentiment, growth outlook: arolwg barn Reuters ).

Er mai nwyddau'r oedd y tariffau'n eu targedu i raddau helaeth, profodd sector gwasanaethau masnachadwy Cymru effeithiau anuniongyrchol trwy chwyddiant, amrywiadau yng ngwerth arian, a newidiadau mewn galw byd-eang. Roedd y sefyllfa yn

tanlinellu pwysigrwydd strategol gwasanaethau Modd 5, yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt gan dariffau nwyddau.

# 3. Cefndir y sector gwasanaethau

Mae'r adran hon yn amlinellu trosolwg o fasnach gwasanaethau rhyngwladol, gan gynnwys archwiliad o ystadegau ac ymchwil desg sy'n ymwneud â'r Deyrnas Unedig a Chymru.

## 3.1. Cyd-destun byd-eang ac Ewropeaidd

Mae'r sector gwasanaethau yn un o ysgogwyr pwysig gweithgarwch economaidd yn fyd-eang, gan gyfrannu'n sylweddol at gyflogaeth, cynnyrch domestig gros (GDP), a masnach. Yn yr Undeb Ewropeaidd (UE), mae gwasanaethau'n cyfrif am tua 73% o GDP, gan osod yr UE fel gweithredwr blaenllaw mewn masnach gwasanaethau byd-eang. Mae diwydiannau gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd yn amrywiol, gyda busnes, trafnidiaeth, telathrebu, a gwasanaethau cyfrifiadurol a gwybodaeth yn cynrychioli cyfrannau sylweddol o allforion gwasanaethau'r UE (European Services Forum (2025) Regions in Europe – 2025 Edition; European Services Forum (2024) EU international Trade Focus on Trade in Services – Trend per Services Sectors - From 2012 to 2023 - October 2024*)*.

### 3.1.1. Cynnydd mewn integreiddio gwasanaethau

Yn rhyngwladol, mae gwasanaethau a gweithgynhyrchu yn cydblethu fwyfwy â'i gilydd trwy broses a elwir yn 'servicification', lle mae cwmnïau'n integreiddio gwasanaethau fel mewnbynnau yn y prosesau cynhyrchu, cynnwys gwasanaethau o fewn cynhyrchion, neu gynnig gwasanaethau'r sefyll ar ben eu hunain (Kommerskollegium (2016) The Servicification of EU Manufacturing Building Competitiveness in the Internal Market). Mae'r newid hwn wedi cael ei yrru gan ffactorau megis argyfwng ariannol 2008, pwyslais cynyddol ar gynhyrchiant, integreiddo cadwyni gwerth byd-eang, a chynnydd mewn digideiddio (Copenhagen Economics (2018) Making EU Trade in Services Work for All).

Mae gan allforion gweithgynhyrchu'r UE gyfran uwch o werth ychwanegol gwasanaethau na'r rheini o'r Unol Daleithiau a Japan, gan beri bod gwasanaethau'n symbylydd allweddol o gystadleurwydd allforion. Mae mewnbynnau gwasanaethau yn hanfodol yn holl aelod wladwriaethau'r UE, ac mae swyddi gweithgynyrchu yn troi fwyfwy o amgylch gwasanaethau. Mae'r cydgyfeirio hwn yn golygu bod gweithgynhyrchwyr yn bwndelu cynigion gwasanaethau gwerth-uchel fwyfwy gyda'u cynhyrchion, gan greu cyfleoedd newydd am swyddi sgiliau uwch, gwell cystadleurwydd allforio, a'r angen am fodelau busnes diwygiedig a pholisïau sy'n cydnabod a chefnogi'r cynnwys cynyddol o wasanaethau yn yr hyn a oedd unwaith yn weithgareddau gweithgynhyrchu yn unig.

## 3.2. Sector gwasanaethau'r Deyrnas Unedig: trosolwg ac is-sectorau allweddol

Y DU yw'r allforwr gwasanaethau ail fwyaf yn y byd ac mae gwasanaethau â goruchafiaeth ar gynnyrch economaidd, gan gyfrif am tua 80% o GVA a 83% o gyflogaeth yn y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2025 (Llyfrgell Ty'r Cyffredin (2025) Service industries: Economic indicators). Fodd bynnag, mae gwahaniaethau rhanbarthol yn parhau, gyda Llundain a de-ddwyrain Lloegr â chyfran anghymesur o gyflogaeth a gwerth. Mae sector gwasanaethau'r DU yn rhychwantu amrywiaeth o ddiwydiannau, gyda gwasanaethau ariannol y mwyaf sylweddol, yn cyflogi 2.3 miliwn o bobl yn 2020 (7% o weithlu'r DU) ac yn gwneud y DU yn un o ganolfannau ariannol mwyaf y byd (Stansbury, A. et al. (2023) Tackling the UK's regional economic inequality: binding constraints and avenues for policy intervention; The CityUK (2020) Key Facts about UK-based financial and related professional services; UK Trade Policy Observatory (202) Links between Services and Manufacturing Trade in the UK: Mode 5 and Beyond).

Er mai Llundain yw canolfan ariannol ail fwyaf y byd, mae dau draean o gyflogaeth gwasanaethau ariannol y DU wedi'i leoli y tu allan i'r brifddinas, gan greu cyfleoedd a gwella cystadleuaeth i rannau eraill o'r DU megis Cymru (OCO Global (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness*)*. Law yn llaw â gwasanaethau ariannol, mae gwasanaethau busnes a phroffesiynol, gan gynnwys rhai cyfreithiol, cyfrifyddu ac ymgynghori, yn sectorau allforio allweddol (Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (2018) Services Transformed: Growth Opportunities for the UK Service Economy, A report by the UK Government Chief Scientific Adviser). Mae diwydiannau creadigol a digidol, gan gynnwys cyfryngau, TG, a gwasanaethau meddalwedd, ymhlith y rhai sy'n tyfu gyflymaf, tra bod trafnidiaeth, logisteg, a thwristiaeth yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi, yn enwedig mewn amryw o ranbarthau Lloegr a'r gwledydd datganoledig (Deloitte (2013) Tourism: Jbs and Economy. The economic contribution of the tourism economy in the UK; Fazio, G., Jones, J., Maioli, S. and Simandjuntak, D. (2024) UK Trade in a Global Creative Economy: Creative PEC State of the Nations). Mae mewnbynnau seiliedig ar wasanaethau, megis peirianneg, ymchwil a datblygu, a chymorth ôl-werthu hefyd yn allweddol i ddiwydiannau gweithgynhyrchu gwerth uchel y DU, gan gynnwys cerbydau modur, aerofod, a'r diwydiant fferyllol (OCO Global (2023) UK financial services sector employment and competitiveness).

Mae ymchwil ledled y DU yn amlygu bwlch cynhyrchiant mawr rhwng busnesau gwasanaethau blaenllaw a'r rheini sy'n llusgo ar ôl, ac mae mynd i'r afael â'r bwlch hwn trwy gymorth wedi'i dargedu, megis gwella arferion rheoli, mabwysiadu digidol, ac uwchsgilio â'r potensial i gynhyrchu enillion economaidd sylweddol (Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (2018) Services Transformed: Growth Opportunities for the UK Service Economy).

Mae sector gwasanaethau'r DU yn ffynnu ar amrywiaeth helaeth o ddiwydiannau, o wasanaethau ariannol i feysydd creadigol a digidol, er bod gwahaniaethau rhanbarthol

sylweddol yn parhau. Mae'r adran ganlynol yn archwilio sut mae datblygiadau diweddar, yn enwedig gadael yr Undeb Ewropeaidd a Covid-19, wedi dylanwadu ar y tirwedd hwn.

### 3.2.1. Newidiadau diweddar: Gadael yr UE a Covid-19

Mae sector gwasanaethau'r DU wedi wynebu dau ddigwyddiad sydd wedi tarfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf:


- Gadael yr UE: mae ymadawiad y DU o Farchnad Sengl yr UE wedi cynyddu cystadleuaeth mewn gwasanaethau ariannol, wrth i ganolfannau ariannol yr UE geisio denu buddsoddiad oddi wrth Llundain. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nghyfran y DU o Fuddsoddiad Tramor Uniongyrchol sy'n ymwneud â gwasanaethau ariannol (FDI) (Reuters (2024) Brexit and UK financial services competition).
- Covid-19: yn 2020, roedd 82.1% o allforion gwasanaethau'r DU yn cael eu darparu o bell, i fyny o 65.2% yn 2019, gan ddangos troi cyflym at fodelau busnes digidol. Ar yr un pryd, tyfodd mewnforion gwasanaethau o bell o 54.9% i 71.8% (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) Masnach y DU mewn gwasanaethau yn ôl modd cyflenwi).

Mae hyn yn amlygu'r angen am ymyraethau polisi ymaddasol sy'n cefnogi trawsnewid digidol, denu buddsoddiad, a helpu busnesau i addasu mewn tirwedd ar ôl gadael yr UE ac wedi'r pandemig.

## 3.3. Cyd-destun allforio lefel-uchel

Ochr yn ochr â chefndir sy'n esblygu o ran cyflyrau masnachu, tariffau, a thrawsnewid digidol, mae'n bwysig deall y tirwedd allforio ehangach y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu ynddo. Mae allforion yn hanfodol i'r DU gan gyfrif am amcangyfrif o 32% o gynnyrch domestig gros (Webb, D. (2024) Economic update: Services exports outpace goods). Mae hyn yn arbennig o wir am Gymru, lle'r amcangyfrifwyd allforion nwyddau a gwasanaethau ar 37.1% o gynnyrch domestig gros; sy'n uwch nag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Wood, A (2024) Exports crucial to boosting Welsh economy. Business Live).

**Ffigur 1: Allforion y DU o Nwyddau a Gwasanaethau; 2000-2024.**




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart yn dangos allforion y Deyrnas Unedig o nwyddau a gwasanaethau dros y cyfnod 2000-2024. Mae allforion gwasanaethau wedi tyfu'n gyflymach nag allforion nwyddau, gyda chyfanswm eu gwerth yn uwch na chyfanswm gwerth allforion nwyddau yn 2021, 2023 a 2024.
Ffynhonnell: ONS, Masnach Ryngwladol mewn nwyddau a gwasanaethau

Fel y dangosir yn Ffigur 1, mae allforion gwasanaethau wedi dod yn fwyfwy pwysig, gan dyfu ar raddfa gyflymach nag allforion nwyddau dros y 25 mlynedd ddiwethaf ac wedi eu goddiweddyd mewn cyfanswm gwerth ers 2023. Yn wahanol i fasnach y DU mewn nwyddau, mae allforion gwasanaethau yn elwa o warged masnach net o fwy na £150 biliwn; gan gyfrannu'r hyn sydd gyfwerth â 5.7% o GDP i fantolen taliadau'r DU.

Fodd bynnag roedd gwahaniaeth rhanbarthol sylweddol yn rôl allforion y sector gwasanaethau. Yn ôl yr ONS, yn 2023, roedd allforion gwasanaethau Cymru'n cyfrif am 33% o allforion yn ôl gwerth o gymharu â 84% ar gyfer Llundain (sy'n eithriad), 59% ar gyfer de-ddwyrain Lloegr, a 53% ar gyfer Swydd Efrog a'r Humber (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach ryngwladol yng ngwledydd, rhanbarthau a dinasoedd y DU: 2023). Fel y dangoswyd yn Ffigur 2, awgryma data'r ONS fod gan Gymru gyfran uwch o fusnesau'n allforio gwasanaethau fel rhan o weithgareddau gweithgynhyrchu na rhanbarthau eraill y DU, gyda 17% o'r holl allforion (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) Allforion rhyngwladol gwasanaethau o ardaloedd is-wladol y DU: 2023).


Mae hyn yn gyson â'r ffaith fod Cymru'n cynhyrchu 15.4% o'i allbwn cenedlaethol o weithgynhyrchu o gymharu â chyfartaledd y DU o 9.4%. Yn ogystal, is-sector gweithgynhyrchu mwyaf Cymru yn ôl allbwn (2024) oedd Offer Trafnidiaeth, ac mae data EU27 2009 yn dangos mai gan y sector hwn oedd y gyfran uchaf o wasanaethau Modd 5 fel cyfran o gyfanswm allforion ar 40% (MAKE UK (2023) Regional Manufacturing Outlook 2023). Yng Nghymru, mae allforion gwasanaethau gweithgynhyrchu yn uwch na gwasanaethau ariannol.

Yn yr un modd, mae gan Gymru gyfran uwch o weithgynhyrchu o gymharu â holl allforion gwasanaethau'r sector (17%) na'r DU yn ei chyfanrwydd (6%) (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach is-wladol mewn gwasanaethau).

Dangosodd ystadegau gan yr ONS ar gyfer 2023 mai gan Brifddinas Ranbarth Caerdydd, ar lefel awdurdodau ar y cyd (Dinas-Ranbarth neu Awdurdod Cyfunol yn Lloegr), oedd y gyfran uchaf o'i allforion gwasanaethau yn codi o weithgynhyrchu yn unrhyw le yn y DU. Awgryma'r data fod 21% o'r allforion gwasanaethau o'r rhanbarth mewn gweithgynhyrchu, o gymharu â 6% ledled y DU yn gyffredinol (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach is-wladol mewn gwasanaethau).

Canfu adroddiad diweddar o'r Resolution Foundation fod, yn 2021, allforion gwasanaethau o Lundain yn dod i gyfanswm o £152.2 biliwn, cynnydd o 47% mewn pum mlynedd a bron i bymtheg gwaith gwerth allforion gwasanaethau o Fanceinion, y ddinas â'r gwerth ail uchaf o allforion gwasanaethau (Fry, E. and Barlow, W. X. (2023) Local roots of trade routes: The UK's regional services trade over time). Dywedwyd bod allforion gwasanaethau Caerdydd wedi disgyn dros yr un cyfnod, er bod data ONS yn awgrymu bod Cymru yn ei chyfanrwydd wedi tyfu ei hallforion sector gwasanaethau 7% rhwng 2016 a 2022 (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach y DU mewn gwasanaethau yn ôl diwydiant, gwlad a math o wasanaeth, allforion). Tyfodd allforion i'r UE dros y cyfnod hwnnw tra bod y rheini i weddill y byd wedi lleihau.

**Ffigur 2: Allforion gwasanaethau o Gymru, 2016 a 2022.**




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart yn dangos allforion gwasanaethau o Gymru yn 2016 a 2022, sy'n gwahaniaethu rhwng allforion i wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE. Yn gyffredinol mae allforion gwasanaethau i wledydd yr UE wedi cynyddu, tra bod allforion gwasanaethau i wledydd y tu allan i'r UE wedi lleihau ychydig.
Ffynhonnell: ONS (2024) Cyfres amser o gyfanswm gwerth masnach mewn gwasnaethau yn y DU yn ôl ardal ITL1

Dengys Ffigur 2 allforion gwasanaethau o Gymru yn 2016 a 2022, lle gwelwn gynnydd yn allforion i'r UE o 31.7%, a lleihad o 2.2% mewn allforion i'r tu allan i'r UE. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o 6.9% (Cyfres amser masnach is-wladol).[1]

Cyfyngedig yw'r data ar gyfer sectorau ond mae'n ymddangos mai'r hyn a welwn yw er bod twf sylweddol mewn gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a chynigion gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu, syrthiodd allforion mewn gweithgareddau ariannol ac yswiriant yn ystod y cyfnod.

O ran gwledydd cyrchfan, yr Unol Daleithiau (gan gynnwys Puerto Rico) oedd ar y brig, gan gyfrif am 24% o allforion sector gwasanaethau, ac yna Ffrainc (7%) a'r Almaen (6%).

[1] Dylid nodi bod yr ystadegau hyn yn cael eu labelu fel ystadegau swyddogion sy'n datblygu, ac felly dylid trin canlyniadau â gofal.

Nod Llywodraeth y DU yw elwa ar ei mantais gystadleol mewn gwasanaethau trwy Strategaeth Ddiwydiannol newydd y DU, lle mae pump o'r wyth sector blaenoriaeth yn seiliedig ar wasanaethau (Adran Busnes a Masnach (2024) Invest 2035: the UK's modern industrial strategy). Mae'r rhain yn cynnwys y diwydiannau creadigol, digidol a thechnolegau, gwasanaethau ariannol, gwasanaethau proffesiynol a busnes, a gwyddorau bywyd. Mae gwasanaethau'n elfen allweddol o Bolisi Masnach y DU hefyd, gyda'r llywodraeth yn ceisio lleihau a chael gwared ar rwystrau rhag masnach trawsffiniol mewn gwasanaethau trwy Gytundebau Masnach Rydd ac felly gwella mynediad i'r farchnad fyd-eang i ddarparwyr gwasanaethau'r DU.

Er bod Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn nodi sawl sector blaenoriaeth seiliedig ar wasanaethau, mae llunwyr polisi Cymreig wedi cyflwyno mesurau rhanbarth-benodol i sicrhau cydnawsedd ag amodau a dyheadau lleol. Mae dull seiliedig ar le, sy'n pwysleisio diwylliant lleol, denu doniau a seilwaith ddigidol o ansawdd uchel, wedi cael ei adnabod fel rhywbeth allweddol i dwf sector gwasanaethau yn rhanbarthol (Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (2018) Services Transformed: Growth Opportunities for the UK Service Economy). Gall dinasoedd a rhanbarthau Cymru adeiladu 'ecosystemau arloesi' mewn sectorau creadigol neu dechnoleg, gan eu galluogi i gadw gweithwyr medrus, meithrin entrepreneuriaeth, a denu rhagor o fuddsoddiad. Manylir ar fesurau polisi Cymreig isod.

## 3.4. Amgylchedd polisi Cymru

O fewn Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ei economi gwasanaethau ac yn gweithio i dyfu allforion mewn ffordd sy'n gydnaws â'i blaenoriaethau economaidd ehangach ar gyfer twf cynaliadwy a chynhwysol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cadarnhau'r dull hwn, gyda'r nodau Cymru Lewyrchus a Chymru sy'n Fwy Cyfartal yn gyrru ymdrechion i ddatblygu gweithlu medrus, cefnogi gwaith teg, a hyrwyddo cynhwysiant ariannol a digidol.

Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo Cymru fel lleoliad busnes, gwella cystadleurwydd rhyngwladol, darparu cymorth ariannol i fusnesau, a datblygu safleoedd a chyfleusterau. O dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae ganddynt hefyd bwerau eang i gymryd camau sy'n hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol, neu amgylcheddol Cymru.

Mae Cenhadaeth Economaidd Cymru yn darparu cymorth wedi'i dargedu i helpu busnesau Cymreig i ehangu i farchnadoedd rhyngwladol, sydd wedi cefnogi busnesau bach a chanolig Cymru i sicrhau dros £320 miliwn mewn cytundebau allweddol ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Genhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach (2023) yn atgyfnerthu buddsoddiad mewnol fel blaenoriaeth allweddol, gyda'r nod o ddenu swyddi gwerth uchel, sgiliau uchel, i gymunedau gwledig a difreintiedig yn enwedig. Ym mis Medi

2024, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru bwyslais ar swyddi gwyrdd a thwf, gan bwysleisio rôl gwasanaethau mewn helpu busnesau i wella effeithlonrwydd a rhyddhau eu potensial sero-net.

Mae Polisi Masnach: Dull Llywodraeth Cymru (2024) yn cysoni amcanion â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan eirioli polisïau masnach cynaliadwy, teg a chynhwysol mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU. Nod rhaglen cytundebau masnach rydd y DU yw rhoi cyfleoedd i wella amodau masnachu i allforwyr gwasanaethau Cymru, gan wella mynediad i'r farchnad a chyfleoedd buddsoddi.

# 4. Trosolwg o sector gwasanaethau Cymru

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o sector gwasanaethau Cymru ar sail ymchwil blaenorol. Mae'n amlinellu cyfraniad y sector i gyflogaeth a gweithgarwch economaidd, yn archwilio rôl prifysgolion ac yn nodi heriau a ganfuwyd mewn ymchwil blaenorol. Mae'r cyd-destun hwn yn arwain at ddadansoddiad mwy manwl o sector gwasanaethau Cymru, gwasanaethau masnachadwy, ac is-sectorau o ddiddordeb ym Mhennod 5.

## 4.1. Graddfa a chyfansoddiad sector gwasanaethau Cymru

Yn 2024, roedd y sector gwasanaethau yn cyfrif am 80.4% o gyflogaeth yng Nghymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth).

O fewn gwasanaethau, cyfrannodd gweithgareddau ariannol ac yswiriant £5.13 biliwn mewn GVA 2023, tua 6.3% o gyfanswm GVA Cymru (Stats Cymru: Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl diwydiant, 2023). Ym mis Rhagfyr 2024, roedd 41,000 o swyddi yn yr is-sector yng Nghymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol: Swyddi Gweithluoedd yn ôl Rhanbarth a Diwydiant). Mae amcangyfrifon ar gyfer y nifer o fusnesau yn amrywio'n sylweddol ar sail diffiniadau a ddefnyddir, gyda data o'r ONS yn awgrymu bod 1,190 o fusnesau gweithredol yn gweithredu o fewn y diwydiant arian ac yswiriant yng Nghymru yn 2023 (Stats Cymru).

Mae sector technoleg Cymru yn symbylydd allweddol arall o dwf economaidd, gan gyfrannu tua £8.5 biliwn yn flynyddol ac yn cyflogi 45,000 o bobl (UKTN (2024) Tech Report: Wales). Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae nifer y busnesau technoleg yng Nghymru wedi cynyddu 20%, gyda chymorth £157 miliwn mewn buddsoddiad menter cyfalaf a sicrhawyd yn 2023 (UKTN (2024) Tech Report: Wales).

O safbwynt allforio, cynhyrchodd gwasanaethau ariannol a phroffesiynol cysylltiedig £3.6 biliwn mewn allforion yn 2022, gan gyfrif am 1.9% o gyfanswm allforion diwydiannol y DU yn y sector. Roedd gwasanaethau ariannol yn unig yn cyfrif am 38% o holl allforion gwasanaethau Cymru, gyda 73% o'r rhain ar gyfer marchnadoedd y tu allan i'r UE. Fodd bynnag, wynebodd y sector gwasanaethau ariannol fymryn o ostyngiad rhwng 2017 a 2021, gydag allforion yn lleihau ar gyfradd flynyddol gyfartalog o 0.1% (TheCityUK (2023) Exporting from across Britain: Financial and related professional services 2023).

Mae Cymru'n parhau'n gystadleuol o safbwynt costau busnes, gyda'r costau llafur, eiddo a chyfleustodau isaf o unrhyw ranbarth o'r DU ar draws sawl sector (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness). Mae hefyd yn elwa o brif fuddsoddwyr cryf, amgylchedd busnes arloesol, a mentrau hyfforddi sgiliau o dan arweiniad diwydiant, gan ei gwneud yn lleoliad deniadol ar gyfer buddsoddiad tramor. Mae ardaloedd yn ne Cymru, yn enwedig Caerdydd ac Abertawe, ymysg y canolfannau ariannol

rhanbarthol mwyaf cystadleuol, gyda Chaerdydd yn gartref i un o glystyrau cyflogaeth yswiriant mwyaf y DU y tu allan i Lundain. Caiff y ddinas ei chydnabod fel lleoliad blaenllaw yn y DU ar gyfer canolfannau cyswllt cost-effeithiol ac o ansawdd uchel (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).

## 4.2. Rôl prifysgolion a sgiliau

Mae prifysgolion Cymru'n chwarae rhan allweddol mewn cynnal sector gwasanaethau cydnerth. Er gwaethaf cyfansymiau is o fyfyrwyr o gymharu â rhanbarthau eraill y DU, tua 130,000 yng Nghymru o gymharu â 260,000 yng Ngogledd-orllewin Lloegr a 170,000 yn Ne-orllewin Lloegr, caiff y diffyg hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan gysylltiadau cryf â dinasoedd gan gynnwys Birmingham, Bryste, Lerpwl a Manceinion, sydd â'u graddedigion yn aml yn ymuno â gweithlu Cymru (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).

Er bod Cymru'n disgyn islaw cyfartaledd y DU ar gyfer cymwysterau NQF Lefel 4 ôl uwchradd ac uwch, mae'n perfformio'n gymharol â rhanbarthau yng ngogledd a chanolbarth Lloegr ac yn rhagori ar y rhanbarthau hyn o safbwynt y nifer o oedolion mewn oedran gwaith sy'n dal y cymwysterau lefel uwch hyn. Mae prifysgolion Cymru yn cynnig rhaglenni hyfforddiant unswydd wedi eu teilwra ar gyfer anghenion cyflogwyr a buddsoddwyr, gydag enw da am gydweithio arbenigol rhwng ymchwil a diwydiant (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).

Mae amryw o brifysgolion yng Nghymru wedi sefydlu eu hunain fel canolfannau rhagoriaeth mewn gwasanaethau ariannol, seibrddiogelwch, a chyfrifiadura uwch. Er enghraifft, mae Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru ill dwy yn cynnig addysg arbenigol mewn cyllid, busnes a seibrddiogelwch, gyda chyfleusterau arloesol fel Ystafell Fasnachu a'r Ganolfan Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Mae cydweithrediadua gydag arweinwyr diwydiannol, megis Canolfan Ragoriaeth Ariannol De Cymru Admiral, a'r Academi Seibr Ddiogelwch Genedlaethol, yn sicrhau parodrwydd gweithluoedd. Yn ogystal, mae mentrau fel Uwchgyfrifiadura Cymru a'r Ffowndri Gyfrifiadurol ym Mhrifysgol Abertawe yn cefnogi'r economi ddigidol, tra bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn hyrwyddo ymchwil 'blockchain'. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi rôl Cymru mewn datblygiad technolegol ac economaidd, gan atgyfnerthu rôl ei phrifysgolion mewn llunio dyfodol y sector gwasanaethau (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).

## 4.3. Heriau a chyfleoedd

Mae sector gwasanaethau Cymru'n wynebu amryw o heriau a all lesteirio ei dwf a'i gystadleurwydd hirdymor:

- Cadw doniau: mae llawer o raddedigion medrus yn symud i rywle arall oherwydd cyfleoedd cyfyngedig am swyddi lleol a chysylltiadau trafnidiaeth a allai fod yn well (OCO (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).
- Cysylltedd digidol: yng nghanolbarth a gogledd Cymru yn benodol, mae seilwaith band eang gwael yn cyfyngu ar y potensial am weithio o bell a mentergarwch digidol (UKTN (2024) Tech Report: Wales).
- Gwahaniaethau mewn cynhyrchiant: mae'r 25% o fusnesau mwyaf effeithlon ym mhob is-sector yn rhagori ar y lleiaf effeithlon â ffactor o rhwng 2 a 5 (Henley, A. (2021) Wales' Productivity Challenge: Exploring the issues).
- Awtomatiaeth a thrawsnewid digidol: er bod y rhain yn cynnig llwybrau at greu swyddi gwerthuwch, gallant hefyd arwain at ddisodli gweithluoedd a diswyddiadau mewn rhai diwydiannau (Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (2018) Services Transformed: Growth Opportunities for the UK Service Economy).

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r sector gwasanaethau yn parhau i fod yn rhan allweddol o economi Cymru, gan gyfrannu'n sylweddol at gyflogaeth, gweithgarwch economaidd ac allforion (Cernat, L. (2024) What Mode of Supply Will Matter the Most for the Future of Services Trade?). Fodd bynnag, mae cyfyngiadau data yn parhau i guddio cwmpas llawn gwasanaethau masnachadwy a'u cyfraniad.

Mae tystiolaeth bresennol yn amlygu rôl gwasanaethau yn economi Cymru, ond hefyd yn datgelu bylchau o ran deall potensial llawn y sector. Mae'r bwlch hwn yn cymhlethu ymdrechion i gynllunio polisïau wedi eu targedu neu fesur yn fanwl dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

# 5. Dadansoddiad o sector gwasanaethau Cymru


Mae'r bennod hon yn cyflwyno proffil o'r sector gwasanaethau yng Nghymru, gan ddadansoddi ei raddfa, cyfraniad economaidd, a lleoliad strategol o fewn cyd-destun ehangach y DU. Gan ddefnyddio set ddata a wnaed yn unswydd o tua 73,544 o fusnesau, ynghyd â ffynonellau data swyddogol, a dealltwriaeth rhanddeiliaid, mae'n asesu strwythur, perfformiad, a dosbarthiad gofodol gwasanaethau ledled Cymru. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar naw is-sector blaenoriaeth y penderfynwyd arnynt wrth ymgynghori â Llywodraeth Cymru, gyda sylw penodol yn cael ei roi i wasanaethau masnachadwy – y rheini sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm o'r tu allan i Gymru. Mae'r bennod hon yn adeiladu ar bennod 4 i gyflwyno darlun manylach o dueddiadau economaidd, cyfraniad at werth ychwanegol gros, cynhyrchiant, capasiti masnach, dosbarthiad rhanbarthol, a chyfleoedd twf yn y dyfodol.  Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn rhoi sylfaen ar gyfer adnabod cryfderau, rhwystrau systemig, a meysydd ar gyfer ymyrraeth polisi i gefnogi economi wasanaethau gydnerth a rhanbarthol gytbwys.

Mae adrannau 5.1 i 5.4 yn defnyddio data eilaidd yn bennaf i fapio maint, graddfa a dosbarthiad daearyddol sector gwasanaethau Cymru, gan gynnwys is-sectorau masnachadwy allweddol, tra bod adrannau 5.5 i 5.11 yn trafod y cryfderau, gwendidau, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu'r sector, gan integreiddio'r canfyddiadau o'r ymchwil sylfaenol (ansoddol a meintiol) a gyflawnwyd fel rhan o'r prosiect hwn.

## 5.1. Economi gwasanaethau Cymru: graddfa, cyfansoddiad a thueddiadau

Gwasanaethau sydd â goruchafiaeth yn economi Cymru o ran cyflogaeth a chynnyrch.

**Ffigur 3: Cyfran o swyddi gweithluoedd yn ôl diwydiant, Cymru, Rhagfyr 1996 i Ragfyr 2024**




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart yn dangos y gyfran o swyddi gweithluoedd yn y sector gwasanaethau a'r sector cynhyrchion heblaw gwasanaethau yng Nghymru rhwng mis Rhagfyr 1996 a mis Rhagfyr 2024. Dros y cyfnod i gyd, mae'r sector gwasanaethau wedi cyfrif am fwyafrif swyddi'r gweithluoedd, gyda'i gyfran yn tueddu'n raddol ar i fyny dros amser.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Swyddi Gweithluoedd, 2025

Fel y dengys Ffigur 3, ym mis Rhagfyr 2024, roedd gwasanaethau'n cyfrif am tua 80.1% o gyfanswm swyddi yng Nghymru – i fyny o 70.5% ym mis Rhagfyr 1996 – gan adlewyrchu'r symudiad hirdymor o ddiwydiant i wasanaethau. Mae'r newid hwn wedi digwydd law yn llaw â gostyngiad graddol a chyson mewn swyddi heblaw swyddi gwasanaethau, a ddisgynnodd o 29.7% i 19.0% dros yr un cyfnod.

Mae rôl y sector gwasanaethau fel symbylydd twf economaidd yn amlwg yn ei gyfraniad at gynnyrch. Fe wnaeth gwasanaethau gynhyrchu 73% o Werth Ychwanegol Gros (GVA) yng Nghymru yn 2023 a chyfrannu 74% o dwf Cynnyrch Domestig Gros (GDP) rhwng 2011 a 2023 (heb gyfrif am effeithiau chwyddiant). Daeth y cyfraniadau mwyaf sylweddol at GVA yn 2023 o sectorau fel iechyd dynol a gwaith cymdeithasol, gweithgareddau eiddo diriaethol, gweinyddu cyhoeddus, a masnach cyfanwerthu a manwerthu – pob un ohonynt yn bileri sylfaenol o economi gwasanaethau Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion hyn yn cadarnhau rôl y sector gwasanaethau fel prif symbylydd cyflogaeth a chynnyrch economaidd Cymru. Fe wnaeth swyddi gweithluoedd yn y sector gwasanaethau yng Nghymru godi 37.9% rhwng misoedd Mawrth 1996 a Rhagfyr 2024, gyda chynnydd arbennig mewn gweithgareddau eiddo diriaethol (cynnydd o 150.0%), gwybodaeth a chyfathrebu (84.2%) a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (78.3%). Fodd bynnag, roedd twf swyddi cyffredinol a swyddi sector gwasanaethau yn arafach na chyfartaledd y DU dros y cyfnod. Yn y DU fel cyfanrwydd, tyfodd y sector 47.3%, tra mai'r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru oedd 37.9%. Sectorau a dyfodd ar raddfa gyflymach yng Nghymru nag yn y DU oedd cyllid ac yswiriant (41.4% o gymharu â 10.2%), trafnidiaeth a storio (56.8% o gymharu â 50.4%) a gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn a nawdd cymdeithasol gorfodol (36.3% o gymharu â 4.3%). Mae'r ddeuoliaeth strwythurol hon â goblygiadau ar gyfer datblygu gweithluoedd, polisi rhanbarthol, a chymorth i arloesi a masnach y sector gwasanaethau (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach Is-wladol mewn Gwasanaethau)

### 5.1.1. Tueddiadau cynhyrchiant ar draws sectorau

Fe wnaeth cynhyrchiant llafur mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru dyfu 146% rhwng 1998 a 2023 (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Gwerth Ychwanegol Gros (wedi'i gydbwyso) yn ôl diwydiant: pob rhanbarth ITL). Digwyddodd hyn er gwaethaf dirywiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gan ddangos bod cynnyrch wedi cynyddu trwy gynhyrchiant yn hytrach na gweithluoedd yn ehangu.

### 5.1.2. Tueddiadau cynhyrchiant ar draws is-sectorau gwasanaethau

O fewn y sector gwasanaethau ei hun, mae cynhyrchiant llafur yn amrywio'n helaeth.


Rhwng 1998 a 2023, cafwyd yr enillion mwyaf mewn gwasanaethau ariannol ac yswiriant a gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'r is-sectorau hyn yn cyfuno dwysedd cyfalaf â photensial allforio, gan eu gwneud yn asedau strategol ar gyfer twf. Er enghraifft, mae'r gwerth a ychwanegir fesul gweithiwr yng ngwasanaethau ariannol ac yswiriant Cymru bellach yn sefyll ar 92% o gyfartaledd y DU (i fyny o 81% yn 2010), gan arwyddo ennill cynhyrchiant sylweddol (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Gwerth Ychwanegol Gros (wedi'i gydbwyso) yn ôl diwydiant: pob rhanbarth ITL).

Fe wnaeth is-sectorau cyflogaeth-uchel eraill, gan gynnwys masnach gyfanwerthu a manwerthu, cymorth gweinyddol, a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol – ddangos twf cynhyrchiant mwy cyfyngedig. Mae'r sectorau hyn er hynny wedi amsugno cyfran sylweddol o weithlu Cymru, gan adlewyrchu eu pwysigrwydd strwythurol er gwaethaf y gwerth ychwanegol is a ychwanegwyd fesul gweithiwr.

### 5.1.3. Cyfraniad sector gwasanaethau Cymru at gyflogaeth

Mae cyflogaeth yn ddangosydd allweddol twf economaidd ac iechyd marchnad lafur. Gellir defnyddio data cyflogaeth i ddadansoddi cynhyrchiant fesul sector a deall a yw newidiadau mewn lefelau cyflogaeth yn deillio o newidiadau strwythurol yn y sector.

**Ffigur 4: Cyfran o gyfanswm swyddi gweithluoedd y sector gwasanaethau, Cymru, Rhagfyr 2024**




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart yn dangos y gyfran o gyfanswm swyddi gweithluoedd yn y sector gwasanaethau yng Nghymru, fel roedd ym mis Rhagfyr 2024, fesul cyfres o is-sectorau. Gan gychwyn gyda'r uchaf, y rhain oedd iechyd dynol; masnach cyfanwerthu a manwerthu; addysg; gwasanaethau llety a bwyd, gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn; a gwasanaethau gweinyddu a chymorth.
Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o Swyddi Gweithluoedd yn ôl rhanbarth a diwydiant, 2025

Yn ôl set ddata'r ONS o Swyddi Gweithluoedd yn ôl Rhanbarth a Diwydiant, sy'n darparu amcangyfrifon chwarterol o swyddi fesul sector, sectorau gwasanaethau mwyaf Cymru ym mis Rhagfyr 2024, fel y dangosir yn Ffigur 4, yw iechyd dynol (20.9% o gyfanswm swyddi'r sector gwasanaethau), masnach cyfanwerthu a manwerthu (14.3%) ac addysg (10.8%). Mae sectorau gwasanaethau sydd â'r lleiaf o swyddi fel cyfran o'r cyfanswm (ac eithrio gweithgareddau gwasanaethau eraill a phobl a gyflogir gan gartrefi) yn cynnwys gweithgareddu eiddo diriaethol (1.7%), gwybodaeth a chyfathrebu (3.0%), gweithgareddau ariannol ac yswiriant (3.5%), a'r celfyddydau, adloniant a hamdden (3.5%). Mae'r dosbarthiad hwn yn debygol o adlewyrchu natur llafur-ddwys a galw eang am wasanaethau megis iechyd, manwerthu, ac addysg, sy'n sylfaenol i economïau lleol a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Mae amryw o ffynonellau o ddata cyflogaeth yng Nghymru. Archwiliodd y dadansoddiad amrywiaeth o gronfeydd data gan driongli ffynonellau lluosog i gefnogi darlun mwy dibynadwy o gyflogaeth sector gwasanaethau. Caiff manylion a chyfyngiadau gwahanol ffynonellau data eu trafod yn Atodiad 1.


### 5.1.4. Cyfraniad cynnyrch economaidd sector gwasanaethau Cymru

Mae cyfraniad sector gwasanaethau Cymru at Werth Ychwanegol Gros (GVA) yn rhoi dangosydd allweddol o'i bwysigrwydd economaidd. Mae GVA yn cynnig dealltwriaeth o berfformiad cymharol sectorau unigol.

Yn 2023, cynhyrchodd sector gwasanaethau Cymru amcangyfrif o £59.2 biliwn, gan gyfrif am tua 73% o gyfanswm GVA; islaw amcangyfrif y DU ar gyfer 2025 o 81% ond yn unol â chyfartaledd yr UE yn 2021 o 73.3% (yr holl ddata diweddaraf sydd ar gael) (Llywodraeth Cymru (2025) Trosolwg economaidd-gymdeithasol yng Nghymru: ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Gyllid Twf Lleol y DU yng Nghymru, Atodiad A; Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2025) Service industries: Economic Indicators; Eurostat (2021) Services represented 73.3% of EU's total GVA).

Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol mewn cynnyrch, gydag adroddiad bod cyfraniad absoliwt gwasanaethau i GVA Cymru wedi tyfu 44% ers 1998. Mae'r duedd hon yn tanlinellu cynnydd hirdymor y sector a'i oruchafiaeth gynyddol yn economi Cymru.

**Ffigur 5: Cyfran o gyfraniad GVA tuag at gyfanswm y sector gwasanaethau, Cymru, 2023**




Disgrifiad o Ffigur 5: Siart yn dangos y gyfran o gyfanswm GVA y sector gwasanaethau yng Nghymru, fel roedd yn 2023, yn ôl cyfres o is-sectorau. Gan gychwyn gyda'r uchaf, y rhain oedd iechyd dynol; gweithgareddau eiddo diriaethol; rhentu; masnach cyfanwerthu a manwerthu; gweinyddu cyhoeddus; iechyd dynol addysg; a chyllid ac yswiriant. Ffynhonnell: ONS (2025), mesurau cyfeintiau cadwynog ITL1 a'r DU mewn gwerth ariannol 2023


Fel y dangoswyd yn Ffigur 5, ymysg is-sectorau gwasanaethau, roedd iechyd dynol a gweithgareddau eiddo diriaethol yn cyfrif am tua 16% yr un o gyfanswm GVA y sector gwasanaethau yn 2023, gan eu gwneud y cyfraniadau mwyaf at werth ychwanegol o fewn economi gwasanaethau Cymru. Mae sectorau sylweddol eraill yn cynnwys masnach cyfanwerthu a manwerthu a gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn (y naill a'r llall yn cyfrannu tua 12%), addysg (9%), a gweithgareddau ariannol ac yswiriant (9%).

### 5.1.5. Cyfraniad masnach sector gwasanaethau Cymru

Mae allforion sectorau gwasanaethau wedi tyfu mewn pwysigrwydd cymharol o fewn economi Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2022, roedd allforion sector gwasanaethau yn cyfrif am 29.7% o gyfanswm allforion Cymru, a oedd yn werth cyfanswm o £9.4 biliwn (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) Dadansodddiad o Fasnach Is-wladol).

Ymysg y prif gyfranwyr, gweithgareddau ariannol ac yswiriant a gofnododd y gwerth allforio uchaf, a amcangyfrifwyd yn £3.6 biliwn yn 2022. Mae is-sectorau allforio allweddol yn cynnwys trafnidiaeth a storio (£1.8 biliwn), masnach cyfanwerthu a manwerthu (£718 miliwn yn 2019), a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (£565 miliwn yn 2022).

**Ffigur 6: Cyfran allforion o gyfanswm y sector gwasanaethau, Cymru, 2022**




Disgrifiad o Ffigur 6: Siart yn dangos y gyfran o gyfanswm allforion sector gwasanaethau Cymru, fel roedd yn 2022, yn ôl cyfres o is-sectorau. Gan gychwyn gyda'r uchaf, y rhain oedd cyllid ac yswiriant; trafnidiaeth, storio, gweithgareddau gwasanaethau llety a bwyd; masnachau cyfanwerthu a moduron; diwydiannau gwasanaethau eraill; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gwybodaeth a chyfathrebu; a manwerthu.
Ffynhonnell: ONS gwerth masnach mewn gwasanaethau, 2022

Darlunir dosbarthiad allforion gwasanaethau yn ôl is-sector yn Ffigur 6. Gweithgareddau ariannol ac yswiriant oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm allforion gwasanaethau, gan gyfrannu 38%, yna trafnidiaeth a storio (19%), cyfanwerthu a masnach moduron (17%), gweithgynhyrchu (16%), a gwasanaethau eraill (16%).

### 5.1.6. Cystadleurwydd rhyngwladol Cymru

Mae'r sector gwasanaethau yn dal i fod yn rhan strategol bwysig o economi Cymru ac mae'n cyfrannu'n ystyrlon at dirwedd gwasanaethau ehangach y DU, yn enwedig mewn meysydd fel gwasanaethau proffesiynol, technoleg ariannol, ac addysg uwch (Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth (2018) Services Transformed: Growth Opportunities for the UK Service Economy, Adroddiad gan Brif Ymgynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU). Gall y cryfderau hyn, ynghyd â mentrau wedi eu targedu gan Lywodraeth Cymru i hybu capasiti allforio a buddsoddiad rhyngwladol, osod sylfaen ar gyfer twf mewn gweithgareddau gwasanaethau gwerth uchel.

Fodd bynnag, caiff cystadleurwydd rhyngwladol ei gyfyngu gan gynhyrchiant is na chyfartaledd y DU, graddfa gyfyngedig mewn rhai is-sectorau a heriau seilwaith (M. Jones (2025) Wales' Productivity Challenge: A Focus on the Future). Bydd cryfhau cysylltedd digidol, datblygu sgiliau, a chydweithio rhyngwladol yn allweddol i gryfhau cystadleurwydd rhyngwladol.

Er bod cynnyrch wedi tyfu, mae cyfran Cymru o GVA gwasanaethau'r DU wedi gostwng o 3.21% yn 2011 i 3.00% yn 2023, sy'n adlewyrchu twf cymharol arafach o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Ni ellir esbonio'r gostyngiad hwn gan dwf poblogaeth; mae poblogaeth Cymru wedi tyfu'n gymharol unol â gwledydd eraill y DU (ONS (2025) Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon: canol 2024). Yn lle hynny, mae'n adlewyrchu cyfradd arafach o dwf economaidd mewn gwasanaethau o gymharu â rhanbarthau eraill, gan awgrymu cyfle a gollir i gipio cyfran fwy o economi gwasanaethau gynyddol y DU. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i gynyddu gweithgareddau gwasanaethau cynhyrchiant uchel sy'n canolbwyntio ar allforio a mynd i'r afael â chyfyngiadau strwythurol er mwyn gwella safle Cymru o fewn economi gwasanaethau y DU.

## 5.2. Y segment gwasanaethau masnachadwy: graddfa, cyfansoddiad a thueddiadau

Mae'r adran hon yn asesu presenoldeb a chyfraniad economaidd gweithgareddau gwasanaethau masnachadwy, a gaiff eu diffinio fel gwasanaethau y gellir eu gwerthu a'u defnyddio y tu allan i'r rhanbarth lle cânt eu cynhyrchu. Mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi mapio 176 o godau SIC pedwar-digid y barnwyd bod ganddynt botensial clir ar gyfer marchnad allanol. Mae rhestr lawn o godau SIC y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru fel rhai â photensial i fod yn fasnachadwy wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.


Cyfansoddodd yr ymchwil gronfa ddata berchnogol o fusnesau sector gwasanaethau masnachadwy Cymru sy'n cyfateb i'r codau SIC ar y rhestr fer. Mae'r gronfa ddata yn

cynnwys 73,544 o gofnodion busnesau unigol, a gafwyd gan Dŷ'r Cwmnïau a darparwr data trydydd parti, Beauhurst.

## 5.3. Dosbarthiad gofodol a mapio segment gwasanaethau masnachadwy Cymru

Fe wnaeth yr astudiaeth fapio busnesau sydd o fewn y gyfres o godau SIC gwasanaethau a allai fod yn fasnachadwy (Adodiad 2). Mae'r map a ddeilliodd o hyn yn rhoi cipolwg gofodol o lle mae capasiti gwasanaethau a allai fod yn fasnachol wedi'i leoli, yn hytrach na chyfrif holl-gynhwysfawr o'r holl fusnesau.

**Ffigur 7: Dosbarthiad daearyddol o fusnesau sector gwasanaethau masnachadwy yng Nghymru, 2025**




**Allwedd**

Data Lleoliad

Ffiniau Awdurdodau Lleol

A – Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota
B – Mwyngloddio a Chwarela
C – Gweithgynhyrchu
D – Cyflenwi trydan, nwy, stêm a thymherwyr awyr
E – Gweithgareddau cyflenwi dŵr, carthffosiaeth, rheoli ac adfer gwastraff
F – Adeiladu
G – Masnachu trwy gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur
H – Cludo a Storio
J – Gwybodaeth a Chyfathrebu
K – Gweithgareddau ariannol ac yswiriant
M – Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol
N – Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cynorthwyol
P – Addysg

Disgrifiad o Ffigur 7: Siart yn dangos dosbarthiad daearyddol busnesau sectorau gwasanaethau masnachadwy yng Nghymru, fel roedd yn 2025, gyda chlystyrau dwys yn ne-ddwyrain, de-orllewin a gogledd Cymru.

Ffynhonnell: Miller Research

Mae'r gwaith mapio, a ddangosir yn Ffigur 7, yn cadarnhau coridor de-ddwyreiniol amlwg o weithgarwch gwasanaethau yn ymestyn o Gaerdydd a Chasnewydd tua'r gorllewin tuag at Abertawe. Mae Caerdydd yn cyfrif am tua un o bob pump o'r holl fusnesau gwasanaethau a gafodd eu mapio, gyda chlwstwr arbennig o ddwys yng nghanol Caerdydd a chrynodiadau eilaidd ar hyd coridor yr M4 ac yn ardalo fusnes canol dinas Casnewydd. Abertawe a'r ardal sy'n ei hamgylchynu sy'n ffurfio cyfuniad ail fwyaf, a angorir gan ganolfannau technoleg a chreadigol y ddinas a'r ardal arloesi o dan arweiniad y brifysgol.

Yn y gogledd, mae'r map yn dangos mannau o weithgarwch dwys yn y Rhyl, Treffynnon a Wrecsam. Mae Wrecsam yn elwa o agosrwydd at gadarnle gweithgarwch gwybodaeth Swydd Gaer, tra bod y Rhyl a Threffynnon yn diwallu galw dros ben o Gaer ar ardal economaidd ehangach glannau Mersi a Dyfrdwy. Mae nodau amlwg yn ymddangos yn Sir Fôn, gan adlewyrchu arbenigeddau Prifysgol Bangor mewn gwyddor deunyddiau a pheirianneg, a gweithgarwch newydd ynni glân a pheirianneg morol y rhanbarth.

Mae'r canolbarth yn dangos dwysedd sylweddol is, gan adlewyrchu ei broffil anheddau mwy gwledig. Er hynny, mae busnesau a alluogir yn ddigidol mewn sectorau megis cyfryngau creadigol, ymgynghoriad arbenigol a chyfieithu proffesiynol yn amlwg o amgylch Aberystwyth, Machynlleth, a'r Drenewydd.

### 5.3.1. Dosbarthiad is-sectorau masnachadwy allweddol Cymru

Canfu'r ymchwil naw is-sector blaenoriaeth i'w hymchwilio a'u hastudio ymhellach. Roedd y sectorau hyn yn seiliedig ar eu potensial i allu allforio, eu cydnawsedd â chynlluniau strategol Llywodraeth Cymru (Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Arloesi, Cymru Greadigol, Sero Net), arloesi, a thystiolaeth o dwf swyddi neu GVA diweddar uwchlaw'r tueddiadau cyffredinol yn y sector gwasanaethau. Cytunwyd ar y rhestr derfynol o sectorau trwy weithdy gyda chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae dosbarthiad cymharol pob is-sector blaenoriaeth yn adlewyrchu patrwm cyffredinol y dosbarthiad daearyddol, gyda rhai tueddiadau rhanbarthol mewn sectorau penodol:

- Mae busnesau Ariannol ac Yswiriant, TG a Datblygiad, a Chyfreithiol a Chyfrifyddu wedi eu lleoli'n bennaf yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe.
- Mae busnesau Creadigol a Chyfryngau Digidol wedi eu crynhoi ym Mae Caerdydd, canol Abertawe ac arfordir Sir Ddinbych, gyda phresenoldeb lloeren yn Sir Benfro.
- Mae busnesau Pensaernïol, Peirianneg a Phrofi Technegol yn cydgyfeirio â choridorau adeiladu ac ynni, gan gynhyrchu grwpiau amlwg yng Nghaerdydd-Casnewydd, Bae Abertawe, Wrecsam, ac Aberdaugleddau.

- Mae endidau Gwyddonol Ymchwil a Datblygu wedi eu hangori wrth safleoedd Catapult a Phrifysgolion yng Nghaerdydd-Casnewydd, Abertawe, Aberystwyth, a Bangor.
- Mae gwasanaethau proffesiynol eraill (Eiddo deallusol, cyfieithu, ymgynghori amgylcheddol) yn dangos gwasgariad gwledig ehangach, yn enwedig yn y canolbarth ac ar hyd arfordir y gogledd.

## 5.4. Is-sectorau masnachadwy allweddol Cymru

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r is-sectorau allweddol yng Nghymru a ddewiswyd ar gyfer eu hastudio ymhellach, gan gynnwys eu dosbarthiadau codau SIC a'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â phob un. Datblygwyd y deipoleg hon trwy sganio'r gorwel, cyfweliadau ag arbenigwyr, a chanfyddiadau arolygon.

**Tabl 2: Is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol a ddewiswyd a gweithgareddau craidd yng Nghymru**

| Is-Sector | Cod SIC | Gweithgareddau Allweddol a ddewiswyd |
|---|---|---|
| Ariannol ac Yswiriant | Is-adrannau 64, 65, 66 (K) | Bancio, Technoleg Ariannol, Rheoli Asedau, Yswiriant, Cyllid Cynaliadwy. |
| TG a Datblygiad | Is-adrannau 61, 62, 63 (J) | Meddalwedd, Cwmwl, Deallusrwydd Artiffisial, Seibrddiogelwch, Gwasanaethau Data. |
| Cyfryngau Creadigol a Digidol | Is-adrannau 58, 59, 60 (J) | Ffilm/Teledu, Gemau, Animeiddio, Marchnata Digidol, Technoleg Trwytho. |
| Cyfreithiol a Chyfrifyddu | Is-adrannau 69 (M) | Cyfraith Gorfforaethol, Cydymffurfio, Archwilio, Treth, Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) Ymgynghorol, Technoleg Gyfreithiol. |
| Ymgynghoriaeth Rheoli / Pencadlys | Is-adrannau 70 (M) | Strategaeth, Trawsnewid Digidol, Cynaliadwyedd, Rheoli Newid. |

| Is-Sector | Cod SIC | Gweithgareddau Allweddol a ddewiswyd |
|---|---|---|
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | Is-adrannau 71 (M) | Dylunio, BIM, Ymgynghori ar Gynaliadwyedd, Ardystio. |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | Is-adrannau 72 (M) | Ymchwil ar Gontract, Biodechnoleg, Lled-ddargludyddion, Ymchwil a Datblygu Hinsawdd. |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | Is-adrannau 73 (M) | Ymgyrchoedd Creadigol, Marchnata Perfformiad, Deall Defnyddwyr. |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | Is-adrannau 74 (M) | Gwasanaethau Eiddo Deallusol, Cyfieithu, Ymgynghori Amgylcheddol, Milfeddygol, Safonau. |

Ffynhonnell: Miller Research

Gyda'i gilydd, mae'r is-sectorau hyn yn cyfrif am 30.0% o gyflogaeth gwasanaethau masnachadwy yng Nghymru a 13.1% o gyfanswm GVA Cymru yn 2023 (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Gwerth Ychwanegol Gros GVA). Mae'r cyfraniad hwn yn cyfateb i'r hyn a geir yng Ngogledd Iwerddon (13.1%), ond yn is na'r cyfraniadau yn yr Alban (18.4%) a Lloegr (24.1%). Mae'r gymhariaeth hon yn amlygu bwlch yng ngraddfa gymharol yr is-sectorau penodol hyn yng Nghymru o gymharu â gwledydd eraill y DU, yn enwedig o safbwynt eu cyfraniad at gynnyrch economaidd.

Gyda'i gilydd, mae'r is-sectorau hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o gyflogaeth, gwerth ychwanegol gros rhanbarthol, a gweithgarwch busnesau yng Nghymru. Mae rhai is-sectorau, megis cyllid a TG, yn cyfrannu i'r economi ers amser maith, tra bod eraill fel y parthau creadigol a chyfreithiol, yn profi twf cyflym ac yn dangos potensial uchel am fasnach ryngwladol a thwf a symbylir gan arloesi (Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) mesurau cyfaint cadwynog TL1 a'r DU yn 2022, gwerth ariannol, fesul miliwn o bunnau). Mae blaenoriaethu'r sectorau hyn yn gydnaws â strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol i Gymru, y Strategaeth Arloesi i Gymru, ymrwymiadau Sero Net, a mentrau o dan arweiniad Cymru Greadigol.

Mae Tabl 3 isod yn cyflwyno trosolwg o'r nifer swyddogol o fusnesau ar gyfer pobl un o'r is-sectorau yn ôl data IDBR o gymharu â'r nifer o gwmnïau a nodir yn ein set ddata berchnogol. Er bod yr IDBR yn dibynnu ar ddata Talu wrth Ennill a Threth ar Werth a gofrestrir gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (sef dim ond cwmnïau uwchlaw'r trothwy TAW

£90k neu sydd â chofnodion talu wrth ennill) mae ein set ddata berchnogol, a dynnwys o Dy'r Cwmnïau a Beauhurst, yn dangos ystod ehangach o gwmnïau gweithredol yng Nghymru (gan gynnwys unig fasnachwyr a micro-fusnesau bach a eithrir o TAW). O ganlyniad, mae'r cyfrif IDBR swyddogol yn tangyfrif, yn enwedig cwmnïau bach a rhai a ffurfiwyd yn ddiweddar.

**Tabl 3: Niferoedd busnesau is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol a ddewiswyd, Cymru, 2024-2025**

| **Is-Sector** | **Cod SIC** | **Niferoedd Busnesau IDBR** | **Niferoedd Busnesau Setiau Data Perchnogol** |
|---|---|---|---|
| Ariannol ac Yswiriant | Is-adrannau, 64, 65, 66 (K) | 1,675 | 4,517 |
| TG a Datblygiad | Is-adrannau 61, 62, 63 (J) | 2,960 | 5,803 |
| Cyfryngau Creadigol a Digidol | Is-adrannau 58, 59, 60 (J) | 1,230 | 2,711 |
| Cyfreithiol a Chyfrifyddu | Is-adrannau 69 (M) | 2,135 | 2,090[2] |
| Ymgynghoriaeth Rheoli / Pencadlys | Is-adrannau 70 (M) | 3,415 | 5,832 |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | Is-adrannau 71 (M) | 2,595 | 2,671 |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | Is-adrannau 72 (M) | 195 | 420 |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | Is-adrannau 73 (M) | 420 | 863 |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | Is-adrannau 74 (M) | 2,195 | 3,603 |

Ffynhonnell: Miller Research, Ar sail data IDBR, Tŷ'r Cwmnïau a Beauhurst

Mae ffigurau cyflogaeth mewn busnesau gwasanaethau masnachadwy Cymru yn ansicr oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau casglu data, trothwyau adrodd ac amseru. Does

[2] Rheswm posibl dros y nifer llai o gwmnïau Cyfreithiol a Chyfrifyddu yn y set ddata berchnogol, o gymharu â ffigurau IDBR, yw bod y cyfrif IDBR yn cynnwys cwmnïau nad yw eu pencadlys yng Nghymru. Nid yw'n eglur pam fod y patrwm hyn yn effeithio ar y sector Cyfreithiol a Chyfrifyddu yn unig.

dim un ffynhonnell unigol yn dal pob gweithiwr, yn enwedig mewn micro-fusnesau neu weithrediadau unig fasnachwyr, felly dylid trin unrhyw amcangyfrif fel ystod yn hytrach na nifer manwl gywir o bobl.

Mae Tabl 4 yn manylu ar ffigurau cyflogaeth ar gyfer is-sectorau gwasanaethau masnachadwy o ddiddordeb, sy'n deillio o BRES. Er bod BRES yn adrodd niferoedd gwirioneddol o weithwyr a gofrestrwyd ar gyfer Talu wrth Ennill ar lefel pedwar-digid SIC, dylid nodi ei fod yn hepgor unrhyw fusnes y mae ei unig weithwyr yn rai TAW yn unig neu islaw'r trothwy Talu Wrth Ennill, gan achosi tan-gynrychiolaeth o ficro-gwmnïau a gweithwyr llawrydd.

**Tabl 4: Amcangyfrifon Cyflogaeth ar gyfer Is-Sectorau Gwasanaethau Masnachadwy a Ddewiswyd, Cymru, 2023**

| Is-Sector | Cod SIC (dim ond codau SIC 4-digid masnachadwy o fewn is-adrannau) | Gweithwyr BRES (2023) |
|---|---|---|
| Ariannol ac Yswiriant | Is-adrannau 64, 65, 66 (K) | 32,000 |
| TG a Datblygiad | Is-adrannau 61, 62, 63 (J) | 24,000 |
| Cyfryngau Creadigol a Digidol | Is-adrannau 58, 59, 60 (J) | 6,000 |
| Cyfreithiol a Chyfrifyddu | Is-adrannau 69 (M) | 20,000 |
| Ymgynghoriaeth Rheoli / Pencadlys | Is-adrannau 70 (M) | 16,000 |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | Is-adrannau 71 (M) | 13,000 |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | Is-adrannau 72 (M) | 3,500 |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | Is-adrannau 73 (M) | 1,750 |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | Is-adrannau 74 (M) | 7,000 |

Ffynhonnell: BRES

Mae Tabl 5 isod yn cyflwyno trosolwg o'r amcangyfrifon o gyfraniadau GVA yr is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allwedol yng Nghymru. Roedd gwasanaethau Ariannol ac Yswiriant yn cyfrif am amcangyfrif o £5.1 biliwn neu 6.3% o gyfanswm GVA yn 2023. Dilynir hyn gan TG a Datblygiad (£1.93 biliwn), Cyfreithiol a Chyfrifyddu (£1.38 biliwn), a gwasanaethau Pensaernïol a Pheirianneg (£636 miliwn), gyda phob un yn cynrychioli cyfraniadau sylweddol gan sectorau gwybodaeth-ddwys. Mae is-sectorau eraill, gan gynnwys Cyfryngau Creadigol a Digidol, Ymgynghori Rheoli, ac Ymchwil a Datblygu Gwyddonol, yn llai mewn termau absoliwt, ond yn strategol bwysig o safbwynt arloesi, allforion, neu botensial o dwf yn y dyfodol. Er bod y ffigurau yn amrywio, maent gyda'i gilydd yn dangos economi wasanaethau sy'n amrywiol ac aml-haenog gyda rhai meysydd eisoes yn tyfu ac ehangach ac eraill ar gamau cynnar yn eu datblygiad ond yn dal gwerth hirdymor.


**Tabl 5: Amcangyfrif Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) is-sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol yng Nghymru, 2023**

| Is-Sector | Cod SIC | GVA (£ miliwn) | % o gyfanswm GVA Cymru |
|---|---|---|---|
| Ariannol ac Yswiriant | Is-adrannau 64, 65, 66 (K) | 5,129 | 6.3 |
| TG a Datblygiad | Is-adrannau 61, 62, 63 (J) | 1,930 | 2.4 |
| Cyfryngau Creadigol a Digidol | Is-adrannau 58, 59, 60 (J) | 446 | 0.5 |
| Cyfreithiol a Chyfrifyddu | Is-adrannau 69 (M) | 1,379 | 1.7 |
| Ymgynghoriaeth Rheoli / Pencadlys | Is-adrannau 70 (M) | 488 | 0.6 |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | Is-adrannau 71 (M) | 636 | 0.8 |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | Is-adrannau 72 (M) | 227 | 0.3 |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | Is-adrannau 73 (M) | 98 | 0.1 |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | Is-adrannau 74 (M) | 318 | 0.4 |

Ffynhonnell: Data Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol, ONS, 2023

Mae data o'r ONS yn rhoi gwybodaeth am fewnforion ac allforion gwasanaethau yn ôl sector bras ar gyfer Cymru ([Swyddfa Ystadegau Gwladol (2025) Masnach ryngwladol yng ngwledydd, rhanbarthau a dinasoedd y DU: 2022]()).


**Ffigur 8: Mewnforion, allforion a mantol fasnach gwasanaethau allweddol, Cymru, 2022**




Disgrifiad o Ffigur 8: Siart yn dangos mewnforion, allforion a mantol fasnach Cymru yn 2022 ar gyfer y sectorau cyllid ac yswiriant; gwybodaeth a chyfathrebu; diwydiannau gwasanaethau eraill; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; manwerthu; a thrafnidiaeth, storio, gwasanaethau llety a bwyd. Mae mantol fasnach bositif ym mhob un o'r sectorau, gyda'r mwyaf yn y sector cyllid ac yswiriant.
Ffynhonnell: Masnach ryngwladol yng ngwledydd, rhanbarthau a dinasoedd y DU, ONS: 2022 (Ac eithrio data ar gyfer trafnidiaeth a mewnforion gwasanaethau eraill o 2021)

Mae Ffigur 8 yn amlinellu'r wybodaeth hon. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod yr holl sectorau gwasanaethau masnachadwy allweddol yn cynhyrchu gwarged masnach, gyda gwasanaethau ariannol ac yswiriant yn darparu'r fasnach allforio fwyaf (£3,565 miliwn) a'r gwarged masnach mwyaf (£2,209 miliwn).

**Ffigur 9: Mewnforion, allforion a mantol fasnach ar gyfer y sector ariannol ac yswiriant yn ôl cyrchfan, 2022**




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart yn dangos mewnforion, allforion a mantol fasnach Cymru yn 2022 ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol ac yswiriant, wedi ei ddadansoddi yn ôl cyrchfan. Roedd gan Gymru fantolen wasanaethau bositif ar gyfer y sector hwn gyda gwledydd yr UE, gwledydd y tu allan i'r UE, yr Unol Daleithiau, Tsieina ac India.
Ffynhonnell: Masnach ryngwladol nwyddau a gwasanaethau yng ngwledydd, rhanbarthau a dinasoedd y DU, ONS: 2022

O ran cyrchfannau allforion gwasanaethau Cymru, mae'r ONS yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ar lefel sector. Mae Ffigur 9 yn dangos ffynonellau a chyrchfan mewnforion ac allforion mewn gwasanaethau ariannol ac yswiriant, fel enghraifft. Dangosir y 5 partner masnach mwyaf yn Ffigur 9.

Mae'r tablau Mewnbwn-Allbwn diwygiedig ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rhoi mwy o fanylder ar lifau masnach sectorau gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi bod y tablau yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am allforion sector gwasanaethau Cymru i rannau eraill o'r DU yn ogystal â gweddill y byd. Mae Tabl 6 isod yn nodi'r rhain ynghyd ag allforion i weddill y byd fel cyfran o gyfanswm cynnyrch y sector, gan roi mesur o gryfder allforio ym

mhob sector. Rhaglennu cyfrifiaduron, ymgynghori a gweithgareddau cysylltiedig a gweithgareddau ariannol ac yswiriant sydd â'r allforion uchaf i weddill y byd fel canran o gynhyrchion.

**Tabl 6: Allforion sector gwasanaethau, Cymru, 2019**

| Is-Sector | Is-adran | Cod SIC | Allforion i Weddill y DU £m | Allforion i Weddill y Byd £m | Allforion i Weddill y Byd fel % o Gynnyrch |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi | J | 58 | 11.3 | 3.6 | 3.5% |
| Ffilm a Theledu | J | 59, 60 | 148.4 | 118.2 | 11.1% |
| Telathrebu | J | 61 | 257.2 | 41.4 | 3.0% |
| Rhaglennu cyfrifiaduron, ymgynghori a gwasanaethau cysylltiedig | J | 62, 63 | 236.9 | 161.2 | 18.9% |
| Ariannol ac Yswiriant | K | 64, 65, 66 | 2794.0 | 941.6 | 18.7% |
| Cyfreithiol a chyfrifyddu, ymgynghori ar faterion rheoli / Pencadlys | M | 69,70 | 950.3 | 72.2 | 3.9% |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | M | 71 | 221.1 | 52.7 | 7.7% |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | M | 72 | 115.4 | 99.0 | 12.0% |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | M | 73 | 26.9 | 3.1 | 2.3% |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | M | 74 | 130.9 | 37.9 | 8.2% |

Ffynhonnell: Tablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru, 2025

Bydd yr adroddiad nawr yn troi at drafodaeth o'r cryfderau, gwendidau, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu sector gwasanaethau Cymru, gan integreiddio'r canfyddiadau o'r ymchwil sylfaenol (ansoddol a meintiol) a gyflawnwyd fel rhan o'r prosiect hwn.

## 5.5. Cryfderau a manteision cystadleuol a ganfuwyd

Un fantais gystadleuol sector gwasanaethau Cymru yw'r ffaith fod llawer o ddarparwyr gwasanaethau Cymru yn gweithredu mewn diwydiannau digidol megis technoleg ariannol, TG, seibrddiogelwch, a marchnata digidol (UKTN (2024) Tech Report: Wales). Mae'r sectorau hyn yn eu hanfod yn hynod o addas ar gyfer darparu'n drawsffiniol trwy ddulliau rhithiol, gan alluogi busnesau Cymru i ymwneud â marchnadoedd rhyngwladol heb gyfyngiadau daearyddol. Mae'r defnydd helaeth o blatfformau cwmwl, modelau meddalwedd fel gwasanaethau, ac offer digidol datblygedig eraill wedi gwella ymhellach allu'r sector i weithredu'n hyblyg ac effeithlon ar raddfa fyd-eang. Cefnogir hyn gan ganfyddiadau meintiol wrth ymgynghori â rhanddeiliaid, gyda 56.0% (n=28/50) o ymatebwyr yr arolwg yn nodi sgiliau digidol a TG fel elfen hanfodol i'w gweithrediadau busnes.

Mae bod â gweithlu medrus ac addysgiedig ar gael yn gryfder allweddol arall. Mae galluoedd ymchwil arbenigol o fewn prifysgolion Cymru gan gynnwys y Ganolfan Ymchwil Seibr Ddiogelwch (Prifysgol Caerdydd), y Ffowndri Gyfrifiadurol (Prifysgol Abertawe), a'r Academi Seibr Ddiogelwch Genedlaethol (Prifysgol De Cymru), bob un ohonynt yn gwneud cyfraniadau nodedig i berfformiad uchel cyfrifiadur a seibrddiogelwch, ac yn enghreifftiau o ddisgyblaethau sy'n hanfodol i dwf economi gwasanaethau.

Mae Cymru'n cynnig amgylchedd gweithredu cystadleuol, a nodweddir gan gostau busnes is o gymharu â rhannau eraill o'r DU, megis Llundain neu Gaeredin. Mae'r manteision costau hyn yn gwella cynaliadwyedd a chystadleurwydd busnesau Cymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig a busnesau newydd, sy'n aml yn rhan annatod o arloesi gwasanaethau. Gallai'r tirwedd masnachol cymharol fforddiadwy, o'i gyfuno â mynediad at ddoniau o ansawdd uchel, wneud Cymru'n sail ddeniadol i fusnesau seiliedig ar wasanaethau, yn enwedig y rhein sy'n mabwysiadu modelau heibrid neu hyblyg. Mae costau llafur, eiddo a chyfleustodau rhwng 6-8% is nag yn rhanbarthau cyfagos De-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae data costau hefyd yn cefnogi strategaeth o ddenu cwmnïau sydd wedi eu lleoli yn Llundain i ehangu, gan yr adroddir gan yr OCO fod costau Cymru yn hanner y rheini yn Llundain ar draws sawl sector (OCO Global (2022) Welsh Financial Services Offer: Capabilities, assets and competitiveness).

Mae Cymru'n elwa ar fod wedi'i integreiddio o fewn fframwaith cyfreithiol a rheoliadol ehangach y DU, gan wella ei hygrededd rhyngwladol. Gall darparwyr gwasanaethau Cymru fanteisio ar yr ymddiriedaeth a'r gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â safonau proffesiynol y DU – yn enwedig mewn meysydd fel gwasanaethau cyfreithiol, cydymffurfio ariannol ac ymgynghori amgylcheddol – lle mae glynu at arferion rheoleiddio cadarn yn hanfodol ar gyfer trafodion trawsffiniol. Roedd adborth gan randdeiliaid yn tanlinellu gwerth yr enw da hwn wrth adeiladu ymddiriedaeth gyda phartneriaid rhyngwladol.

Mae polisi cyhoeddus cefnogol a strwythurau sefydliadol yn atgyfnerthu ymhellach gryfderau'r sector gwasanaethau. Mae mentrau strategol, megis y Strategaeth Ddigidol i Gymru a'r Strategaeth Arloesi i Gymru, ynghyd ag ymyraethau wedi eu targedu gan sefydliadau megis Cymru Greadigol, yn rhoi seilwaith hanfodol, cydgysylltu, a chyfeiriad twf. Mae rhaglenni cydweithredol sy'n cysylltu academia â diwydiant, a buddsoddiad parhaus mewn ymchwil a seilwaith ddigidol, wedi creu ecosystem sy'n galluogi arloesi gwasanaethau a gweithgarwch byd-eang. Fodd bynnag, bydd manteisio ar y cyfleoedd hyn yn gofyn nid yn unig am fuddsoddi parhaus ond hefyd am gysondeb mwy effeithiol rhwng dyheadau polisi a realiti gweithredol busnesau seiliedig ar wasanaethau.

## 5.6. Gwendidau a rhwystrau rhag twf

Gwendid cyffredin ar draws sector gwasanaethau Cymru yw graddfa gyfyngedig a natur dameidiog y busnesau sy'n sail iddo, gyda cyflogaeth busnesau mawr yn cyfrif am 37.7% o gyflogaeth yng Nghymru o gymharu â 39.7% yn y DU fel cyfanrwydd. Yn ogystal, mae busnesau bach, canolig a micro yng Nghymru yn gyfrifol am gyfran fwy o gyflogaeth yng Nghymru o gymharu â chyfartaleddau'r DU (Llywodraeth Cymru (2023) Dadansoddiad o faint y busnesau). Dangosodd cyd-drafod ansoddol â rhanddeiliaid y gallai hyn gyfyngu ar allu busnesau i geisio contractau mwy, ehangu'n rhyngwladol, neu adeiladu'r capasiti gweithredu sydd ei angen i wasanaethau cleientiaid byd-eang. Yn ogystal, dangosodd y cyd-drafod ansoddol fod busnesau o'r fath yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau trafodiadol, sy'n cyfyngu ar eu gallu i symud i fyny'r gadwyn werth at wasanaethau ymgynghori neu arbenigol mwy allforadwy. Mae hyn yn cyfyngu ar weledededd a'r gallu i fanteisio ar farchnadoedd byd-eang, a llesteirio gallu Cymru i sefydlu màs critigol sy'n cymharu â chanolfannau gwasanaethau megis Llundain neu Gaeredin.

Er bod Cymru'n cynhyrchu llif cyson o raddedigion o ansawdd uchel, mae pryderon ynghylch y gallu i gadw doniau – yn enwedig yn y sectorau cyfreithiol, cyfrifyddu, pensaernïaeth a dylunio. Roedd rhai rhanddeiliaid yn adrodd am effeithiau parhaus o golli pobl alluog, gyda doniau'n llifo i rannau eraill o'r DU, er gwaethaf rhai gwelliannau rhanbarthol. O'r busnesau y buom yn siarad â nhw, mae llawer yn wynebu heriau wrth ddenu a chadw gweithwyr proffesiynol mewn swyddi uwch, yn enwedig y rheini â phrofiad masnachol rhyngwladol. Dengys data'r arolwg fod 48.0% (n=24/50) o ymatebwyr yn nodi sgiliau rheolwyr neu arweinwyr fel pryder allweddol, ac roedd 44.0% (n=22/50) yn crybwyll diffyg llafur medrus fel rhwystr rhag twf. Mae'r graddau cyfyngedig mae hyfforddiant rheoli ar gael ac yn hygyrch wedi cael ei ddadlau fel her i gynhyrchiant Cymru (CMI (2021) Delivering Success for Wales). Roedd rhai rhanddeiliaid yn amlygu anawsterau hefyd wrth gael ymgeiswyr gyda sgiliau technegol a thrin cleientiaid ac yn nodi bod cystadlu gyda chyflogau Llundain yn dal i fod yn anfantais strwythurol. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch cyfyngiadau fisa, newidiadau mewn rheoliadau cyflogaeth ar ôl ymadael â'r UE, a diffyg cyfatebiaeth rhwng darpariaeth addysg uwch a'r sgiliau sydd eu hangen mewn ymchwil a datblygu a gwaith ymgynghori.

Mae rhai rhanddeiliaid yn tynnu sylw at ddiffyg parodrwydd a gwybodaeth fasnachol am allforio fel rhwystr pellach i dwf yn sector gwasanaethau Cymru. Er bod rhai rhanddeiliaid TG, seibr a chreadigol a gyfwelwyd yn adrodd eu bod yn tueddu i ymdrin ag allforio fel estyniad naturiol o weithrediadau digidol, fe wnaeth cyd-drafod ansoddol â rhanddeiliaid amlygu ymhellach ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cymorth sydd ar gael, ac anawsterau parhaus mewn cael cyngor arbenigol ar fasnach pan oedd arnynt eisiau cynyddu eu gwybodaeth. Mae newidiadau ar ôl ymadael â'r UE hefyd wedi creu problemau penodol: dywedodd un rhanddeiliad fod colli hawliau trosglwyddo gwasanaethau wedi llesteirio cwmnïau rhag cynnig gwasanaethau cyfreithiol, ariannol, neu archwilio o fewn yr UE, tra bod un arall yn nodi diffyg cydnabyddiaeth gyffredin i gymwysterau proffesiynol yn achosi rhwystrau mewn sectorau a reoleiddir. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw bellach y gall cost a chymhlethdod allforio gwasanaethau, yn wyneb datblygiadau technolegol cyflym a rheoliadau rhyngwladol cyfnewidiol, ei gwneud yn fwy anodd i fusnesau llai ddal i fyny a'u bod yn llai tebygol o barhau neu i geisio allforio.

Roedd pryderon ynghylch gwybodaeth o'r farchnad ac effeithiolrwydd cymorth cyhoeddus yn thema barhaus yng nghanfyddiadau cyfweliadau a'r arolwg. Roedd rhai cyfweliadau ansoddol yn amlygu diffyg cymorth wedi ei deilwra, o dan arweiniad busnesau, gyda phryder bod ymyraethau Llywodraeth Cymru yn aml yn blaenoriaethu prosiectau mawr neu risg-isel, gan adael busnesau bach a chanolig yn teimlo'u bod wedi cael eu hanwybyddu. Adleisiwyd y pryderon hyn yn nata'r arolwg, gyda 74.0% (n=37/50) o'r ymatebwyr yn dweud nad oeddent wedi manteisio ar gymorth busnes Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda rhai yn dweud bod hyn yn rhannol oherwydd rhwystredigaeth ynghylch cymhlethdod gweinyddol ac arafwch cynlluniau grant.

Dylid ystyried daearyddiaeth hefyd wrth feddwl am y rhwystrau rhag twf yn sector gwasanaethau Cymru. Mae cysylltedd trafnidiaeth cyfyngedig rhwng gwahanol ranbarthau Cymru yn cyfyngu ar hyfywedd ehangu busnesau neu agor swyddfeydd mewn lleoedd eraill yng Nghymru. Yn y cyfweliadau ansoddol, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod tagfeydd trafnidiaeth, yn enwedig ar hyd coridor yr M4, yn effeithio ar y gallu i recriwtio staff a chyfarfod â chleientiaid, tra bod ardaloedd gwledig yn wynebu problem ddeublyg yn ymwneud â mynediad digidol a'r graddau mae doniau ar gael. Yn ogystal, roedd canfyddiad gan rai rhanddeiliaid bod arferion caffael yn ffafrio cwmnïau mwy, yn aml o'r tu allan i Gymru, ac felly cyfyngu ar gyfleoedd i ddarparwyr lleol llai i sicrhau contractau mawr neu arwain ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn olaf, roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi mai cyfyngedig yw'r dealltwriaeth ymysg cwmnïau llai a darparwyr gwasanaethau traddodiadol o sut i dyfu gwasanaethau digidol ar raddfa mwy i'w hallforio. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn nodi angen cyffredinol am gymorth adeiladu capasiti i bontio'r bwlch hwn at ddatblygu'n ddigon mawr yn ddigidol.

## 5.7. Heriau a risgiau

Mae pwysau costau yn dod yn gwaethgu fwyfwy, yn enwedig yn sgil y pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae codiadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol, cynnydd mewn trothwyau isafswm cyflog, a'r ymchwydd mewn costau ynni wedi creu straen ariannol i lawer o fusnesau bach a chanolig y sector gwasanaethu, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu o fewn ymylon elw tynn. Er bod 50.0% (n=22/44) o ymatebwyr yr arolwg yn dangos bod gwerthiannau allforio wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf, roedd 22.7% (n=10/44) yn adrodd gostyngiad, a 22.7% (n=10/44) yn adrodd cynnydd, gan amlygu amrywiaeth yn y graddau o fod yn agored i anwadalwch economaidd. Yn y sector cyfryngau creadigol, dywedodd un rhanddeiliad fod buddsoddi mewnol i gynhyrchion aruchel, er yn rhywbeth i'w groesawu, wedi cael effaith o greu chwyddiant, wrth yrru tâl i fyny i griwiau, lleoliadau, a chyflenwyr, gan greu heriau fforddiadwyedd o'r herwydd i gynhyrchwyr domestig llai.

Mae ansefydlogrwydd geo-wleidyddol a chynnydd mewn polisïau masnach gwarchodol yn cynrychioli risgiau allanol ehangach i ddarparwyr gwasanaethau Cymru.  Roedd rhanddeiliaid yn cyfeirio at effeithiau ansefydlogi penderfyniadau polisi tramor, megis cyhoeddiadau tariffau diweddar yr Unol Daleithiau a newid ysgogiadau treth i gynhyrchu cyfryngau rhyngwladol, fel ffactorau sy'n erydu'r gallu i ragweld y farchnad a chadw buddsoddiad strategol draw. Gall yr ansicrwydd byd-eang hwn, ar ben yr heriau strwythurol sy'n bod eisoes, leihau hyder a chadw cwmnïau llai draw rhag mynd ar drywydd ehangu rhyngwladol.

Mae newidiadau i bolisi mewnfudo'r DU wedi achosio risgiau gweithredu pellach, yn enwedig o ran symudedd rhyngwladol a recriwtio gweithluoedd. Fe wnaeth amryw o gwmnïau adrodd mewn cyfweliadau ansoddol adrodd am anawsterau wrth ddefnyddio staff dramor neu ddenu gweithwyr medrus o wledydd tramor, heriau sy'n arbennig o amlwg mewn sectorau rhyngwladol eu naws fel ymgynghori, gwasanaethau cyfreithiol, a chynhyrchu cyfryngol (OCO (2022) Welsh Financial Services; [Institute of Export and National Trade (2023) Global horizons Realising the services export potential of UK nations and regions]). Roedd rhanddeiliaid yn mynegi pryder ynghylch prosesau fisa a lleihau mynediad at lafur yr UE, a oedd o'r blaen wedi cefnogi gweithrediadau gwasanaethau allweddol.

Cafodd costau gweithredol, yn benodol llafur, ynni a seilwaith eu nodi gan randdeiliaid fel heriau parhaus i fusnesau llai. Er bod Cymru'n parhau i gynnig amgylchedd busnes cymharol ffafriol yn gyffredinol, gall y costau cynyddol hyn erydu cystadleurwydd i gwmnïau sydd heb fod ar raddfa ddigon mawr i'w hamsugno, yn enwedig y rheini mewn gwasanaethau traddodiadol neu ar gamau cynnar yn eu twf.

Yn olaf, amlygodd rhai busnesau bryderon ynghylch erydu hawliau 'pasport' trosglwyddo gwasanaethu yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Mae hyn wedi creu ansicrwydd i'r busnesau hynny mewn sectorau sydd angen cydnabyddiaeth reoliadol ar draws ffiniau, megis gwasanaethau ariannol a chyfreithiol. Er bod rhanddeiliaid yn pwysleisio bod cwmnïau

Cymru yn elwa ar hygrededd rheoliadol y DU, roeddent yn nodi hefyd y gall y cyfyngiadau hyn yn sgil gadael yr UE rwystro caffael cleientiaid rhyngwladol a chysondeb cydymffurfio.

## 5.8. Cyfleoedd a meysydd twf posibl

Mae Cymru wedi datblygu arbenigeddau cydnabyddedig mewn amryw o feysydd twf uchel, gwybodaeth-ddwys. Mewn technolegau ariannol, mae mentrau fel Technoleg Ariannol Cymru (Fintech Wales) wedi cefnogi twf clwstwr deinamig o gwmnïau sydd bellach ar flaen y gad mewn gwasanaethau ariannol digidol, gan gynnwys cyllid ac atebion deallusrwydd artiffisial mewnblanedig (UKTN (2024) Tech Report: Wales).

Mae cyfryngau creadigol a digidol yn parhau i gynnig potensial twf cryf, gyda Chymru’n sefydlu enw da nodedig iddi’i hun am gynhyrchu dramâu teledu o’r radd flaenaf (UKTN (2024) Tech Report: Wales). Mewn cyfweliadau ansoddol, roedd rhanddeiliaid yn amlygu meysydd ychwanegol o arloesi, yn enwedig mewn gemau, datblygu meddalwedd, a chynnwys trochol. Mae Caerdydd yn cael ei weld fwyfwy fel canolfan greadigol fyd-eang, a gadarnheir gan bartneriaethau academaidd a buddsoddi cyhoeddus (UKTN (2024) Tech Report: Wales). Fel mae rhai rhanddeiliaid wedi nodi, mae rôl strategol Cymru Greadigol, ynghyd â datblygu seilwaith unswydd ar gyfer cyfryngau, yn cryfhau rhagolygon hirdymor y sector.

Mae seibrddiogelwch yn faes arall o fantais gystadleuol, a gadarnheir gan arbenigedd academaidd gan sefydliadau fel Prifysgol De Cymru. Mae cwmnïau yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau mewn rheoli risg, cydymffurfio, a diogelwch digidol, sy’n feysydd o bwysigrwydd cynyddol ar draws marchnadoedd rhyngwladol (UKTN (2024) Tech Report: Wales).

Mewn ymchwil a datblygu, mae Cymru’n dangos gallu mewn gwyddorau bywyd, ynni adnewyddadwy, a deunyddiau uwch, gyda chefnogaeth sefydliadau fel Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe a’r Catapult Rhaglenni Lled-ddargludyddion Cyfansawdd. Cydnabyddir y sector pensaernïol a pheirianneg yng Nghymru am ei arbenigedd mewn dylunio cynaliadwy a seilwaith gwydn rhag newid hinsawdd. Mae cwmnïau Cymreig yn darparu gwasanaethau fwyfwy mewn adeiladu carbon-isel, peirianneg ddigidol, a chynllunio amgylcheddol, sy’n sgiliau gyda galw amdanynt mewn marchnadoedd datblygedig a rhai sy’n cychwyn dod i’r amlwg (UKTN (2024) Tech Report: Wales).

## 5.9. Cymorth i fusnesau ac allforio yng Nghymru

Mae amrywiaeth o fecanweithiau twf ar gael i fusnesau o bob maint yng Nghymru sy’n ceisio tyfu eu gweithgareddau allforio, cael mynediad i farchnadoedd newydd, a gwella eu cystadleurwydd. Mae’r rhain yn cynnwys cymorth ariannol, gwasanaethau ymgynghorol,

rhaglenni hyfforddi, a chyfleoedd rhwydweithio, a gaiff eu darparu trwy gymysgedd o fentrau Llywodraeth Cymru, cynlluniau ledled y DU a chymorth dan arweiniad y sector preifat.

Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn nodi dro ar ôl tro fod y darpariaethau presennol yn tueddu i ddarparu i fusnesau ar draws pob sector yn hytrach na chynnig cymorth wedi'i dargedu a'i deilwra'n benodol i gwmnïau'r sector gwasanaethau. Yn benodol, mae llawer o'r cymorth ariannol sydd ar gael, gan gynnwys grantiau a benthyciadau, wedi'i anelu at ddiwydiannau cyfalaf-ddwys, gyda rhai rhanddeiliaid yn nodi canfyddiad fod cwmnïau gweithgynhyrchu yn fuddiolwyr amlach na busnesau'n ymwneud â gwasanaethau.

## 5.10. Cysondeb polisi

Er bod sector gwasanaethau Cymru'n arddangos cryfderau sylweddol, mae gwireddu ei botensial llawn yn gofyn am gydgyfeirio cryfach rhwng nodau polisi cyffredinol a'r realiti gweithredol sy'n wynebu busnesau. Mae strategaethau Llywodraeth Cymru, fel y rheini ar gyfer Sero Net a Thrawsnewid Digidol, yn cydgyfeirio'n fras â'r ffordd mae'r sector yn mynd. Fodd bynnag, roedd cyd-drafod ansoddol â rhanddeiliaid yn amlygu bylchau parhaus wrth drosi'r uchelgeisiau hyn yn ganlyniadau ymarferol ar lefel cwmni.

Mae rhai busnesau'n cofleidio cynaliadwyedd gydag arddeliad, trwy fesurau fel offer pwer solar neu offerynnau adrodd ESG awtomatig, ond mae llawer o fusnesau bach a chanolig yn wynebu rhwystrau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys costau gweithredu uchel, mynediad cyfyng at gymorth wedi'i deilwra, a phrinder sgiliau perthnasol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi hefyd fod cynlluniau cyhoeddus presennol yn aml yn ffafrio busnesau mwy ac yn cael eu gweinyddu weithiau gan ymgynghorwyr y credir eu bod yn brin o brofiad uniongyrchol o fusnes, sy'n tanseilio eu perthnasedd masnachol a'r graddau y manteisir arnynt.

Yng nghyd-destun masnach, roedd llawer o randdeiliaid yn nodi ymhellach fod polisïau allforio Llywodraeth Cymru yn tueddu i ganolbwyntio'n anghymesur ar sectorau sy'n ymwneud â nwyddau. Mae heriau penodol i wasanaethau, megis y rheini sy'n ymwneud ag eiddo deallusol, rheoleiddio trawsffiniol, a lleoleiddio data, yn derbyn llai o bwyslais. Yn benodol, y farn oedd bod cymorth i wasanaethau Modd 5, sy'n gynyddol bwysig i broffil masnach Cymru, yn gyfyngedig neu'n absennol o fframweithiau cymorth prif ffrwd ar gyfer allforio.

## 5.11. Goblygiadau o ran polisi a'r camau nesaf i economi gwasanaethau Cymru

Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau bod sector gwasanaethau Cymru yn creu cynnyrch economaidd a chyflogaeth genedlaethol, a bod iddi'r potensial o symbylu cystadleurwydd

rhyngwladol Cymru. Mae'r sector yn elwa ar weithlu medrus, tirwedd masnachol cymharol fforddiadwy, fframwaith polisi cefnogol, a gwelededd rhyngwladol cynyddol mewn parthau gwerth uchel a gwybodaeth-ddwys. Fodd bynnag, roedd cyd-drafod ansoddol yn awgrymu cyfyngiadau strwythurol parhaus, gan gynnwys maint bach cwmnïau, capasiti rhanbarthol anwastad, seilwaith didigol anwastad, parodrwydd cyfyngedig ar gyfer allforio, a diffyg cyfatebiaeth sgiliau, yn parhau i gyfyngu ar allu'r sector i dyfu, arloesi, a chystadlu'n fyd-eang.

Un o'r goblygiadau posibl i bolisi yw y gallai, yn y dyfodol, symud y tu hwnt i gymorth sectorol eang ac yn lle hynny dargedu galluogwyr penodol o dwf gwasanaethau masnachadwy. Mae hyn yn cynnwys:

- datblygu cymorth allforio a buddsoddi penodol ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys canllawiau wedi eu teilwra ar gyfer masnach Modd 5,
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarth mewn cysylltedd digidol,
- gwella'r llif o sgiliau arwain, masnachol a digidol,
- cefnogi arloesi mewn busnesau bach a micro trwy fecanweithiau lleihau risg a mynediad at ymchwil a datblygu cymhwysol, a
- gwella gwelededd a manylder data i alluogi olrhain yn well berfformiad a thueddiadau datblygol y sector gwasanaethau.

## 5.12. Edrych ymlaen

Mae'r bennod nesaf yn archwilio un o ddimensiynau pwysicaf o fasnach y sector gwasanaethau, ond a dan-gydnabyddir: Gwasanaethau Modd 5 – lle caiff gwasanaethau eu cynnwys o fewn allforion nwyddau. Gan adeiladu ar y dadansoddiad strwythurol a gyflwynir yma, mae Pennod 6 yn archwilio sut mae gweithgareddau Modd 5 yn gallu helpu rhyddhau gwerth ychwanegol, ehangu presenoldeb masnach Cymru, a chryfhau cystadleurwydd byd-eang cwmnïau Cymreig ar draws parthau gwasanaethau a gweithgynhyrchu.

# 6. Modd 5

## 6.1. Diffiniad ac arwyddocâd Modd 5

Mae gwasanaethau Modd 5 yn cyfeirio at y cynnwys gwasanaethau sydd wedi ei ymgorffori mewn nwyddau a allforir, modd 'ychwanegol' o ddarparu gwasanaethau rhyngwladol y tu hwnt i bedwar modd traddodiadol y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach Gwasanaethau (GATS) (Llywodraeth Cymru (2022) Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol gyda busnesau a chyrff masnach). Yn ei hanfod, pan gaiff cynnyrch a weithgynhyrchir, mae unrhyw werth a ychwanegir gan wasanaethau, megis dylunio, peirianneg, ymchwil a datblygu, meddalwedd, brandio neu gymorth ôl-gwerthiant, yn gyfystyr â gwasanaeth Modd 5. Gelwir y rhain weithiau yn 'wasanaethau mewn blwch', gan eu bod yn cael eu darparu y tu mewn i'r cynnyrch ffisegol yn hytrach na gwasanaeth a allforir yn uniongyrchol (Cernat, L. (2024) The 'hidden giant': How official statistics underestimate the true scale of global services trade). Er enghraifft, gall peiriannau a allforir gynnwys meddalwedd a ymgorfforir neu gellir gwerthu car gyda diweddariadau digidol a chymorth cynnal a chadw (Llywodraeth Cymru (2022) Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol gyda busnesau a chyrff masnach). Mae hyn yn wahanol i allforion gwasanaethau traddodiadol (megis twristiaeth neu fancio a werthir yn uniongyrchol) gan fod gwasanaethau Modd 5 yn cael eu masnachu o dan reolau masnach nwyddau (WTO GATT) fel rhan o werth cynnyrch, yn hytrach nag o dan reolau masnach gwasanaethau uniongyrchol GATS (Borchert, I. and Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Yn gryno, mae Modd 5 yn cynnwys y mewnbynnau anniriaethol gwybodaeth-ddwys sydd wedi eu bwndelu gydag allforion nwyddau neu wedi eu hymgorffori ynddynt, ffenomenon cynyddol nas cyfrifir yn llawn amdanynt mewn categoreiddio masnach traddodiadol (Llywodraeth Cymru (2022) Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol gyda busnesau a chyrff masnach).

Wrth drafod hyn, mae'n ddefnyddio gwahaniaethu rhwng dau dueddiad cysylltiedig ond gwahanol o integreiddio gwasanaethau: a elwir yn Saesneg yn *servicification* a *servitisation*. Mae *servicification* yn cyfeirio at y defnydd cynyddol o wasanaethau fel mewnbynnau mewn gweithgynhyrchu – megis dylunio, ymchwil a datblygu, neu feddalwedd – sy'n gynwysedig yn y cynnyrch terfynol a allforir. Ar y llaw arall, mae *servitisation* yn disgrifio trawsnewid model busnes lle mae gweithgynhyrchwyr yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau wedi eu bwndelu, megis contractau cynnal a chadw, prydlesu, neu hyfforddiant, yn cael eu gwerthu'n aml law yn llaw neu ar ôl gwerth nwydd ffisegol. Er bod hyn *(servitisation)* yn bwysig i gystadleurwydd a chysylltiadau allforio, nid yw'r dadansoddiad presennol yn ceisio mesur yr agwedd hon yn uniongyrchol. Yn lle hynny, mae'n canolbwyntio'n llwyr ar yr elfen gwasanaethau cynwysedig sy'n cyfrannu at y gwerth a fesurir mewn allforion nwyddau trwy Fodd 5. Lle caiff gwasanaethau wedi eu bwndelu eu trafod yn hwyrach (ee yn Adran 6.5), fe'u hymlygir am eu perthnasedd strategol ond maent yn wahanol o safbwynt dadansoddol i amcangyfrifon Modd 5.

## 6.2. Arwyddocâd o ran cystadleurwydd masnach a strategaeth ddiwydiannol

Mae gwasanaethau Modd 5 wedi dod yn gynyddol arwyddocaol fel symbylwyr cystadleurwydd allforion a strategaeth ddiwydiannol fodern. Mewn economïau datblygedig, mae cwmnïau gweithgynhyrchu yn dibynnu'n drwm ar wasanaethau seiliedig ar wybodaeth, o beirianneg a dylunio uwch i farchnata a logisteg, i wahaniaethu cynhyrchion a chystadlu'n fyd-eang. Mae'r tueddiad hwn wedi cael ei ddisgrifio fel integreiddio mewn gweithgynhyrchu, sef bod mewnbynnau gwasanaethau yn ffurfio cyfran gynyddol o werth ychwanegol wrth weithgynhyrchu (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). I'r DU, mae tua chwarter o werth allforion gweithgynhyrchu yn cynnwys gwerth ychwanegol gwasanaethau domestig (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Yn 2017, roedd nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a allforiwyd o'r DU yn ymgorffori gwerth dros £70 biliwn o wasanaethau domestig (sy'n cymharu mewn graddfa â chyfanswm allforion uniongyrchol y DU o wasanaethau ariannol ac yswiriant) (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Mae gwerth cudd y gwasanaethau hyn wedi'i ledaenu ar draws holl ranbarthau'r DU: Llundain a De-ddwyrain Lloegr sy'n cyfrannu'r gyfran fwyaf, ond mae rhanbarthau eraill, gan gynnwys Cymru, bob un yn cyflenwi gwerth biliynau o bunnau mewn gwasanaethau sy'n gynwysedig yn eu hallforion nwyddau (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports).

Gall cydnabod gwerth allforion Modd 5 wella cystadleurwydd masnach. Dengys ymchwil fod cwmnïau a rhanbarth sy'n integreiddio mwy o wasanaethau i'w cynhyrchion yn tueddu i allforio'n fwy llwyddiannus (Borchert, I. and Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Mae gwasanaethau gwerth-uchel fel arloesi, dylunio, a galluoedd digidol yn gwella ansawdd nwyddau a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, gan alluogi allforwyr i hawlio'r prisiau uchaf a meddiannu marchnadoedd arbenigol byd-eang.

Ledled yr UE, mae gwasanaethau Modd 5 wedi cael eu cysylltu â chyfran sylweddol o swyddi a gefnogir gan allforion (Rueda-Cantuche, J. M., Cernat, L. a Sousa, N. (2017) Trade and Jobs in Europe: The Role of Mode 5 Services Exports). Mae strategaethau diwydiannol modern yn rhoi pwyslais cynyddol ar feithrin y mewnbynnau gwasanaethau hyn law yn llaw â gweithgynhyrchu traddodiadol. Mae canolbwyntio polisi ar Fodd 5 yn gydnaws â'r gwirionedd fod y ffin rhwn gweithgynhyrchu a gwasanaethau yn pylu mewn economïau modern. Yn aml, mae twf yn sgil allforion heddiw yn golygu manteisio ar arbenigedd gwasanaethau (er enghraifft, meddalwedd, addasu cynhyrchion yn unswydd, cefnogaeth ôl-werthiant) yn ogystal â medrusrwydd gweithgynhyrchu (Rueda-Cantuche, J. M., Cernat, L. a Sousa, N. (2017) Trade and Jobs in Europe: The Role of Mode 5 Services Exports). Gyda hyn mewn cof, mae rhai economegwyr yn dadlau bod gwasanaethau, gan gynnwys y rheini sy'n gynwysedig mewn nwyddau, yn dod y peiriant mwyaf deinamig sy'n gyrru twf masnach byd-eang yn yr 21ain ganrif (Cernat, L. (2024) The 'hidden giant': How official statistics underestimate the true scale of global services trade). I Gymru, gyda'i sectorau

gweithgynhyrchu gwerth-uchel, mae Modd 5 yn cynrychioli cyfle i gynyddu cystadleurwydd allforion trwy fanteisio ar gryfderau'r genedl mewn peirianneg, technoleg ddigidol, a gwasanaethau creadigol fel rhan o'i chynnig gweithgynhyrchu.

## 6.3. Heriau wrth fesur a dosbarthu

Er gwaethaf pwysigrwydd cynyddol, mae heriau sylweddol wrth fesur a dosbarthu gwasanaethau Lefel 5. Mae ystadegau a rheoliadau masnach traddodiadol wedi bod ar ei hôl hi wrth ddangos gwasanaethau sy'n gynwysedig mewn nwyddau. Mae data allforio swyddogol fel arfer yn dosbarthu car neu beiriant yn gyfan gwbl fel 'nwydd', er y gallai cyfran sylweddol o'i werth ddod o wasanaethau (megis dylunio a meddalwedd). Mae hyn yn arwain at dan-amcangyfrif masnach gwasanaethau a cham-ganfyddiad o'r economi; gallai llunwyr polisi weld gwarged/diffyg masnach nwyddau heb gydnabod y gwasanaethau cudd o'i fewn. Mae cronfa ddata TiVA Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ac OECD yn un offeryn sy'n datguddio'r diffygion cudd hyn, gan ddangos er enghraifft, bod tua 22-25% o werth allforion gweithgynhyrchu y DU yn deillio'n gyson o fewnbynnau gwasanaethau (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Fodd bynnag, nid yw ystadegau swyddogion a chofnodion tollau ar wahân yn dangos y cynnwys hwn.

Mae problemau dosbarthu yn codi hefyd mewn rheolau a threthiant masnach. Oherwydd nad yw gwasanaethau Modd 5 yn cael eu diffinio fel categori ar wahân o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd (gan ddisgyn o dan nwyddau mewn termau tollau), mae cwmnïau ac awdurdodau tollau yn wynebu amwysedd o ran sut i'w trin. Un pryder allweddol yw trethu dwbl neu anghysondeb wrth ddiffinio gwerth gwasanaethau cynwysedig. Pan fo nwyddau gyda chynnwys gwasanaethau uchel yn croesi ffin, mae tariffau mewnforio (a thollau cysylltiedig) yn berthnasol i werth llawn y cynnyrch, sy'n golygu trethu'r mewnbynnau gwasanaeth cynwysedig fel pe baent yn rhan o'r nwydd ffisegol. Er enghraifft, i rai mathau o offer diwydiannol sy'n cynnwys meddalwedd ac ymchwil a datblygu cynwysedig drud, bydd tariffau ad valorem ar yr offer yn amlwg yn trethu'r gwerth meddalwedd/ymchwil a datblygu hwnnw. Efallai na fyddai'r elfennau gwasanaethau hynny, pe baent wedi cael ei hallforio ar wahân (ee meddalwedd yn cael ei ddarparu ar-lein), wedi wynebu tariffau nwyddau. O'r herwydd, mae rhai yn dadlau y gall arferion tollau presennol gosbi busnesau yn anfwriadol am ychwanegu cynnig gwasanaethau arloesol, gan weithredu fel rhwystr anuniongyrchol rhag defnyddio a datblygu mewnbynnau gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu (OECD (2023) Interactions between goods and services in international trade: Implications for customs valuation and rules of origin). Mae hyn yn agwedd o'r her 'trethu dwbl': gall yr un gweithgaredd creu gwerth (gwasanaeth) gael ei drethu unwaith fel gwasanaeth (ee trwy drethiant domestig) ac yna wedyn fel rhan o werth diriaethol cynnyrch ar y ffin.

Y tu hwnt i dariffau, mae rheolau mesur gwerth a dosbarthu ar gyfer tollau yn ei chael yn anodd gyda bwndelau nwyddau-gwasanaethau. Ni chafodd rheoliadau masnach eu hysgrifennu'n wreiddiol gyda Modd 5 mewn golwg, felly mae amrywiad a disgresiwn yn y ffordd mae gwledydd yn eu gorfodi. Er enghraifft, os caiff cynnyrch ei werthu wedi ei

fwndelu gyda chontract gwasanaeth (ee peiriant a werthir law yn llaw â chytundeb cynnal-a-chadw/gwasanaethu 3 blynedd), rhaid i awdurdodau tollau benderfynu a yw gwerth y contract gwasanaeth hwnnw yn cael ei gynnwys yng ngwerth trethiannol y nwyddau. Mae canllawiau Sefydliad Masnach y Byd ar fesur gwerth ar gyfer tollau yn cynnig rhai egwyddorion, ond yn ymarferol maent yn gadael cryn dipyn o le ar gyfer eu dehongli (OECD (2023) Interactions between goods and services in international trade: Implications for customs valuation and rules of origin). Gall hyn arwain at ansicrwydd a thriniaeth anghyson rhwng marchnadoedd a'i gilydd, lle gallai cwmnïau ganfod bod gwerth eu gwasanaeth cynwysedig yn cael ei asesu'n gwahanol gan awdurdodau tollau gwahanol, gan gymhlethu prisio, a chydymffurfio. Mae penderfynu tarddiad gwasanaethau o fewn nwyddau yn her arall; mae rheolau tarddiad ar gyfer nwyddau yn anwybyddu cynnwys gwasanaethau, eto mewn rhai achosion gellir dadlau y dylai mewnbwn gwasanaeth gwerth uchel (megis gwaith dylunio a wnaed yn ddomestig) gyfrif tuag at fod cynnyrch wedi ei 'Wneud yng Nghymru/y DU'. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid yw rheolau tarddiad yn cyfrif yn glir ar gyfer hyn, a gallai ychwanegu y fath ddarpariaethau at gytundebau masnach fod yn rhy gymhleth (OECD (2023) Interactions between goods and services in international trade: Implications for customs valuation and rules of origin).

Mae rheolau masnach byd-eang yn parhau i ddosbarthu gwasanaethau Modd 5 fel 'nwyddau' yn bennaf, gan arwain at absenoldeb safon gyffredin ar gyfer adnabod neu fesur yr elfennau anniriaethol hyn sydd wedi eu bwndelu. Gall mentrau fel cronfa ddata TiVA Sefydliad Masnach y Byd-OECD helpu i ddarlunio'r gyfran o allforion nwyddau sy'n deillio o ddiwydiannau gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o weithdrefnau ystadegau a thollau swyddogol yn dal i beidio â dangos y cynnwys hwn ar wahân. Yn eu tro, nid oes gan lunwyr polisi olwg lawn o wir natur eu hallforion, a gall busnesau wynebu tariffau neu driniaeth reoliadol na allant eu rhagweld. Gall gwella'r ffordd o fesur helpu, gan fod yr OECD yn nodi bod llawer o drefniadau masnach nwyddau-gwasanaethau "nad ydynt yn cael eu dangos yn dda gan ystadegau masnach", gan ei gwneud yn anodd mesur eu graddfa a llunio rheolau addas i'r diben (OECD (2023) Interactions between goods and services in international trade: Implications for customs valuation and rules of origin). Awgryma adolygiad o'r llenyddiaeth hon fod bwlch mewn data yng Nghymru, lle canfu'r astudiaeth hon ymwybyddiaeth isel ymysg busnesau o gysyniad Modd 5 a graddau cyfyngedig o olrhain gwasanaethau sy'n gynwysedig mewn allforion (Llywodraeth Cymru (2022) Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol gyda busnesau a chyrff masnach). Mae adnabod gwerth amodol gwasanaethau Modd 5 – nas gwireddir eu gwerth ond pan gânt eu integreiddio â chynnyrch ffisegol a'i allforio law yn llaw ag ef – yn allweddol ar gyfer gwella mesuriadau economaidd a sicrhau rheolau masnach teg ac ystyrlon i ddiwydiannau gwybodaeth-ddwys. Heb well metrigau ac eglurder, mae gwledydd yn peryglu tanbrisio asedau allweddol a gosod rhwystrau yn anfwriadol ar y mewnbynnau sy'n ysgogi cystadleurwydd.

## 6.4. Pam fod cydnabod gwasanaethau cynwysedig yn bwysig i bolisi

Gall cydnabod a deall gwasanaethau Modd 5 sicrhau bod gwir ffynonellau gwerth mewn allforion yn cael eu cydnabod. Pan fo llunwyr polisi yn cydnabod bod cyfran sylweddol o allforion 'gweithgynhyrchu' Cymru yn cael eu hatgyfnerthu gan fewnbynnau gwasanaeth, megis datblygu meddalwedd, dylunio peirianegol, a gwasanaethau eraill, maent mewn gwell sefyllfa i gynllunio polisïau sy'n cefnogi a chryfhau'r sectorau galluogi hyn. Gall hyn ddylanwadu ar bolisi diwydiannol fel ei fod yn cefnogi'r gweithgareddau gwasanaethau hynny ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi, megis trwy fuddsoddiadau mewn addysg STEM neu seilwaith digidol, fel modd o hybu llwyddiant gweithgynhyrchu. Mae hefyd yn awgrymu y gallai ymdrechion i hyrwyddo masnach elwa o amlygu nid yn unig y cynnyrch terfynol ond hefyd yr arbenigedd cynwysedig mae Cymru'n ei gyfrannu, gan farchnata'n effeithiol y cynnwys gwybodaeth sydd mewn nwyddau.

Gall cydnabod Modd 5 helpu i gysoni polisi masnach â realiti modelau busnes modern. Mae llawer o gwmnïau gweithgynhyrchu bellach yn gweithredu ar sail cynhyrchion-gwasanaethau (gwerthu atebion integredig sy'n cynnwys cynnal a chadw, hyfforddiant, a diweddariadau digidol, yn hytrach na nwyddau diriaethol yn unig) (Baines, Tim & Lightfoot, Howard & Benedettini, Ornella & Kay, J.M.. (2009). The servitization of manufacturing: A review of literature and reflection on future challenges. Journal of Manufacturing Technology Management. 20. 547-567). Os yw cytundebau masnach a rhaglenni cymorth allforio yn canolbwyntio ar nwyddau diriaethol yn unig, efallai na fydd cwmnïau yn derbyn y cymorth na'r mynediad i farchnadoedd sydd arnynt ei angen ar gyfer elfen gwasanaeth eu cynnig. Trwy gyfrif am wasanaethau cynwysedig, gall llunwyr polisi drafod cytundebau masnach sy'n ymdrin â rheoliadau gwasanaethau cysylltiedig, atal problemau trethu dwbl, a sicrhau y gall cwmnïau allforio gwerth dramor. Er enghraifft, os yw gweithgynhyrchwr offer yng Nghymru yn allforio i gleient yn yr UE ac yn darparu technegwyr (gwasanaethau Modd 4) neu ddiweddariadau digidol (gwasanaethau Modd 1) fel rhan o gontract, mae angen i'r darpariaethau nwyddau a gwasanaethau yn y cytundeb masnach weithio gyda'i gilydd. Mae edrych o safbwynt Modd 5 yn annog polisi cydgysylltiedig o'r fath gan osgoi seilos rhwng trafodaethau masnach nwyddau a gwasanaethau (Llywodraeth Cymru (2021) Tystiolaeth Ysgrifenedig).

Yng nghyd-destun amgylchedd masnachu'r DU ar ôl gadael yr UE, mae cydgyfeirio o'r fath yn amserol. Awgryma tystiolaeth gynnar fod diffyg darpariaethau ar gyfer bwndeli nwyddau-gwasanaethau wedi arwain at oedi a chostau ychwanegol (ee deunyddiau hyfforddi a allforir o Gymru i'r UE yn cael eu dal ar y ffin fel 'nwyddau' er eu bod yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau) (Llywodraeth Cymru (2021) Tystiolaeth Ysgrifenedig). Gall integreiddio ystyriaethau Modd 5 helpu llywodraethau i gael gwared ar rwystrau cudd a chynllunio rheoliadau sy'n hwyluso mwy o fasnach ddi-dor yn y nwyddau-a-gwasanaethau cyfunol sy'n nodweddu nwyddau modern.

Yn ogystal, gall cydnabyddiaeth briodol o wasanaethau cynwysedig helpu i wella polisi treth a rheoleiddio domestig. Er enghraifft, os yw llunwyr polisi yn sylweddoli bod cyfran fawr o werth mewn nwyddau a allforir yn dod o wasanaethau ymchwil a datblygu neu feddalwedd, gallant ystyried cymorth i'r gweithgareddau hynny. Mae hefyd yn gosod sail o wybodaeth ar gyfer dewisiadau o ran mesur perfformiad economaidd, er enghraifft, gall cyfraniad sector gwasanaethau Cymru i allforion gael ei dan-amcangyfrif trwy ddefnyddio ystadegau confensiynol. Gallai cydnabod gwasanaethau Modd 5 fel rhan allweddol o'r tirwedd masnach gefnogi penderfyniadau mwy gwybodus a chymorth mwy effeithiol i dwf a arweinir gan allforion.

## 6.5. Gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu: cyfleoedd i ddarparwyr gwasanaethau domestig

Mae integreiddio gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu yn creu cyfleoedd newydd i ddiwydiannau gwasanaethau. Wrth i weithgynhyrchwyr gynnwys mwy o wasanaethau yn eu nwyddau, maent yn dibynnu ar rwydwaith eang o ddarparwyr gwasanaethau, o dechnoleg gwybodaeth a datblygwyr meddalwedd i labordai ymchwil, stiwdios dylunio, peirianwyr ymgynghorol, cwmnïau logisteg, cyfreithiol ac asiantaethau marchnata. Golyga hyn y gall hyd yn oed gwmnïau nad ydynt eu hunain yn allforio unrhyw nwyddau ddod yn allforwyr anuniongyrchol trwy gyflenwi gwasanaethau sydd yn y diwedd yn cael eu hymgorffori mewn cynhyrchion a allforir. Er enghraifft, mae cwmni technoleg yng Nghymru sy'n datblygu meddalwedd cynwysedig ar gyfer gweithgynhyrchwr electroneg lleol i bob pwrpas yn allforio'r meddalwedd hwnnw pan gaiff y ddyfais derfynol ei hallforio dramor, hyd yn oed os yw holl werthiannau'r cwmni technoleg ei hun yn ddomestig. Gall y ddeinameg hon agor marchnadoedd newydd i fusnesau gwasanaethau ac ysgogi creu swyddi mewn meysydd gwasanaeth sgiliau uchel sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu. Ledled rhanbarthau'r DU, dengys tystiolaeth fod defnyddio mwy o wasanaethau arbenigol yn cydgyfeirio'n agos â pherfformiad allforio gweithgynhyrchu cryfach, gan elwa'r ddau barti lle bo cwmnïau gwasanaethau yn caffael busnes ychwanegol a chwmnïau gweithgynhyrchu yn datblygu cystadleurwydd (Borchert, I. a Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports).

Mae cynnwys gwasanaethau mewn gweithgynhyrchu yn cynnig cyfle i Gymru arallgyfeirio ac ehangu ei sail ddiwydiannol. Mae gan Gymru syflaen gref o ddoniau peirianneg, prifysgolion, a diwydiannau creadigol (Llywodraeth Cymru (2021) Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru). Gall cefnogi'r rhai mewn cydweithrediad â gweithgynhyrchwyr helpu i sefydlu cynigion gwerth-uchel a hybu galw am arbenigedd gwasanaethau lleol (Reddy, P. K., Sasidharan, S., & Thangavelu, S. (2022). Does Servicification of Manufacturing Increase the GVC Activities of Firms? Case of India. WORLD ECONOMY. Cyhoeddiad ar-lein). Gall hefyd helpu busnesau bach a chanolig i ffurfio partneriaeth â darparwyr gwasanaethau i ychwanegu nodweddion a chymorth a fydd yn gwneud eu cynhyrchion yn fwy deniadol i gwsmeriaid tramor (Hansen, U. E., Nygaard, I., Morris, M., & Robbins, G. (2022). Servicification of Manufacturing in Global Value Chains: Upgrading of Local Suppliers of Embedded Services in the South African Market for Wind Turbines. Journal of Development

Studies, 58(4), 787-808). Gall clystyrau o ddiwydiannau sy'n annog darparwyr gweithgynhyrchu a gwasanaethau i gydweithio, megis canolfannau technoleg, helpu i godi'r gwerth a ychwanegir trwy gynhyrchu domestig, gwella gwytnwch (gan y gall cwmnïau gyda sawl llif refeniw o nwyddau a gwasanaethau addasu'n well i newidiadau yn y farchnad), a chreu swyddi sgiliau uwch.

Awgryma un prosiect ymchwil ar raddfa fach y gall cynnwys gwasanaethau gryfhau cysylltiadau mewn marchnadoedd rhyngwladol, gyda gweithgynhyrchwyr yn ystyried gwasnaethau ôl-werthiant (ee cynnal a chadw, hyfforddi defnyddwyr, rheoli darnau sbâr, diagnosteg o bell) fel elfen allweddol o ddatblygu bodlonrwydd a theyrngarwch cwsmeriaid (Llywodraeth Cymru (2022) Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol â busnesau a chyrff masnach). Mae'r un ymchwil yn amlygu bod, i rai busnesau Cymreig, darparu cefnogaeth barhaus ar ôl gwerthiant yn hanfodol er mwyn adeiladu ymddiriedaeth a sicrhau cadw cwsmeriaid. Awgryma hyn nad yw Modd 5 yn ymwneud â gwerth economaidd cudd yn unig, ond hefyd â gwerth strategol; gall alluogi perthynas hirdymor â chleientiaid a manteision o ran enw da. I'r darparwyr gwasanaethau hynny, gall olygu llifau sefydlog o waith sydd wedi'i glymu wrth y sail o gynhyrchion a osodwyd. Wrth i fwy o ddiwydiannau symud tuag at werthu 'canlyniadau' neu 'atebion' yn hytrach na chynhyrchion untro, mae cyfle i gwmnïau gwasanaethau Cymru (mewn sectorau megis digidol a chreadigol, technoleg, hyfforddi, ymgynghori, a chynnal a chadw) i ennill cyfleoedd newydd trwy integreiddio â chadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu.

## 6.6. Dull o amcangyfrif Modd 5 yng Nghymru

Mae ein dadansoddiad yn adeiladu ar y fethodoleg a amlinellir ym Mhapur Briffio Arsyllfa Polisi Masnach y DU gan Ingo Borchert a Nicolo Tamberi ym Mhrifysgol Sussex (Borchert, I. and Tameri, N. (2018) The Engagement of UK Regions in Mode 5 Services Exports). Mae'r papur briffio hwn yn amlygu rhan gynyddol mewnbynnau gwasanaethau yn allforion gweithgynhyrchu y DU, sef y broses a elwir yn *servicification*. Mae'n cadarnhau sut y caiff gwasanaethau domestig a thramor eu cynnwys mewn nwyddau a weithgynhyrchir a sut mae hyn yn cyfrannu at lwyddiant allforio ar draws rhanbarthau'r DU. Mae eu dull yn golygu amcangyfrif gwasanaethau sydd wedi'u hymgorffori mewn allforion gweithgynhyrchu gan ddefnyddio data masanch cenedlaethol gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, sy'n eu galluogi i olrhain llif y ddau fath o wasnaethau ar draws ffiniau. Yn unol â'u canfyddiadau, mae'r dadansoddiad hwn yn cydnabod hefyd fod allforion gwasanaethau wedi eu dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws rhanbarthu wrth eu hystyried yn eu ffurf ymgorfforedig yn hytrach nag allforion yn sefyll ar ben eu hunain. Mae'r dadansoddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod hyd at 2020, sef y flwyddyn ddiwethaf roedd data TiVA OECD/Sefydliad Masnach y Byd ar gael. Er bod data masnach mwy diweddar yn bod, data TiVA sy'n darparu'r sail fwyaf cyson ar gyfer amcangyfrif gwasanaethau cynwysedig, a gallai dadansoddiad yn y dyfodol ymestyn hyn wrth i dablau Mewnbwn-Allbwn wedi eu diweddaru gael eu cyhoeddi.

Mae cronfa ddata TiVA yn darparu tablau Mewnbwn-Allbwn ar raddfa ryngwladol sy'n olrhain gwerth a ychwanegir ar draws gwledydd a sectorau. Defnyddir data TiVA i fesur y

gyfran o wasanaethau sy'n gynwysedig yn allforion gweithgynhyrchu'r DU, gan wahaniaethu rhwng mewnbynnau domestig a thramor. Wrth adeiladu ar hyn, caiff cyfraniad Cymru ei wahanu trwy gymhwyso cyfran flynyddol Cymru o GVA o fewn pob is-sector gweithgynhyrchu perthnasol i'r amcangyfrifon cenedlaethol cyfatebol ar sail TiVA.


Mae ein dull o gyfrifo cyfraniadau gwasanaethau Modd 5 yn wahanol i bapur Sussex yn y ffordd hon, gan ei fod yn amcangyfrif cyfraniad rhanbarthol Cymru i allforion gweithgynhyrchu y DU. Yn lle dibynnu ar ddata masnach Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi i olrhain allforion rhanbarthol yn uniongyrchol, mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio dull seiliedig ar GVA. Mae'n cyfrifo cyfran Cymru o gyfanswm GVA y DU o fewn pob is-sector gweithgynhyrchu yn flynyddol ac yn cymhwyso'r cyfrannau hyn i amcangyfrif cyfraniad Cymru i allforion gwasanaethau cynwysedig. Mabwysiadwyd y dull hwn gyda'r nod o ganfod gwahaniaethau mwy diwydiant-benodol, gan gydnabod nad yw gwahaniaethau strwythurol mewn proffiliau gweithgynhyrchu rhanbarthol efallai'n cael eu hadlewyrchu'n llawn mewn data masnach cyfunol. Er bod dull Sussex yn rhoi golwg genedlaethol gynhwysfawr ar sail ystadegau masnach, mae'r dull seiliedig ar GVA yn cynnig darlun wedi'i ddadgyfuno fesul sector a all fod yn fwy cynrychioliadol o gyfansoddiad diwydiannol rhanbarthol a newid dros amser.

Fodd bynnag, mae gan y dull hwn gyfyngiadau. Mae dosrannu ar sail GVA yn tybio bod y gyfran o werth a ychwanegir ym mhob is-sector Cymreig yn cydgyfeirio'r gymesur â'r cynnwys gwasanaethau sydd wedi'i ymgorffori mewn nwyddau a allforir. Efallai na fydd hyn yn dangos amrywiadau mewn intregreiddio gwasanaethau ar lefel cwmni, dwysedd allforio rhanbarthol, nag gwahanol gymysgeddau o wasanaethau yn ôl cynnyrch. Er enghraifft, gallai rhai sectorau Cymreig arbenigo mewn cynhyrchion symiau uchel ond isel o ran gwasanaethau, gan arwain at or-amcangyfrif posibl. Ar y llaw arall, gallai allforwyr arbenigol gyda llawer o wasanaethau cynwysedig ond ychydig o bresenoldeb GVA gael eu gor-gynrychioli. O'r herwydd, dylid dehongli canlyniadau fel amcangyfrifon dangosol o weithgarwch gwasanaethau cynwysedig, yn hytrach na gwerthoedd manwl gywir allforion.

## 6.7. Amcangyfrif o gyfanswm gwasanaethau Modd 5 Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'n canfyddiadau a'n dadansoddiad o'n hamcangyfrif o gyfanswm gwasanaethau Modd 5 Cymru.

**Ffigur 10: Dadansoddiad Miller Research ac amcangyfrifon Borchert & Tamberi o allforion Modd 5 Cymru (dangosol), Cymru, £ miliwn, 2011-2020**





Disgrifiad o Ffigur 10: Siart yn dangos amcangyfrifon gan Miller Research a Borchert & Tamberi ar gyfer allforion Modd 5 o Gymru, dros y cyfnod 2011-2017 gan Borchert & Tamberi a 2011-2020 gan Miller Research. Mae'r ddwy set o ffigurau yn awgrymu cyfraniad cymharol sefydlog dros y cyfnodau perthnasol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o werth ychwanegol gros rhanbarthol (wedi'i gydbwyso) yn ôl diwydiant a chronfa ddata OECD-WTO TiVA, a Borchert a Tamberi (2018)

Mae Ffigur 10, sy'n cyflwyno amcangyfrif o gyfanswm gwasanaethau Modd 5 Cymru, yn datgelu cyfraniad cymharol sefydlog dros y cyfnod 2011 i 2020, gyda chyfanswm gwerthoedd yn amrywio o rhwng £4 biliwn a £4.8 biliwn yn flynyddol. Cyrchwyd y ffigurau hyn trwy gymhwyso cyfran flynyddol Cymru o GVA gweithgynhyrchu'r DU i amcangyfrifon OECD-WTO TiVA ar gyfer allforion gweithgynhyrchu y DU yn ôl rhanbarth cyrchfan. Digwyddodd y gwerth uchaf yn 2019 ar fymryn dros £4.8 biliwn, tra bod yr isaf yn 2011 ar fymryn dros £4 biliwn, gan adlewyrchu amrywiadau mewn cyfansymiau allforion a chyfran Cymru o gynnyrch gweithgynhyrchu. Mae'n werth nodi bod, er gwaethaf y tarfu economaidd byd-eang yn 2020, gan gynnwys y pandemig Covid-19 a chychwyn amodau masnachu newydd gyda'r UE, allforion Modd 5 Cymru wedi parhau'n wydn ar tua £4 biliwn. Mae hyn yn dangos rôl gyson i wasanaethau cynwysedig yn sector gweithgynhyrchu Cymru, sy'n tanlinellu ei integreiddio â chadwyni gwerth rhyngwladol.

**Ffigur 11: Allforion Modd 5 yn ôl diwydiant (fel cyfran o gyfanswm allforion Modd 5) (dangosol), Cymru 2011/2015/2020**




Disgrifiad o Ffigur 11: Siart yn dangos allforion Modd 5 Cymru fesul diwydiant, fel cyfran o gyfanswm allforion Modd 5, ar gyfer 2011, 2015 a 2020. Allforion Modd 5 sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu offer trafnidiaeth, ac wedyn y rheini sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu cemegion, oedd y cyfranwyr mwyaf i gyfanswm allforion Modd 5 ar gyfer 2011, 2015 a 2020.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Miller Research o werth ychwanegol gros rhanbarthol (wedi'i gydbwyso) yn ôl diwydiant a chronfa ddata OECD-WTO TiVA

Mae Ffigur 11, a ddeilliwyd trwy gymhwyso cyfran flynyddol Cymru o GVA gweithgynhyrchu'r DU i amcangyfrifon OECD-WTO TiVA, yn datgelu crynodiad amlwg o gyfran allforion Modd 5 Cymru o fewn ychydig o sectorau gweithgynhyrchu allweddol dros y cyfnod a ddadansoddwyd. Mae'n nodedig fod gweithgynhyrchu cerbydau modur, trelars ac offer trafnidiaeth eraill wedi cynrychioli'r gyfran uchaf yn gyson o gyfanswm allforion Modd 5, yn amrywio rhwng 29% a 35%. Mae'r oruchafiaeth hon yn adlewyrchu cryfder sector moduron a thrafnidiaeth Cymru wrth gyfrannu at allforion gwasanaethau cynwysedig.

Yn yr un modd, roedd y sector cynhyrchion cemegol a mwyn anfetalig yn cynnal cyfran sylweddol, gan amrywio rhwng 24% a 28% drwy gydol y ddegawd. Ar y llaw arall, roedd sectorau eraill fel tecstilau, pren a chynhyrchion papur, a dodrefn a gweithgynhyrchu amrywiol yn gwneud cyfraniad cyson fach o 1-2% yr un, gan danlinellu eu rôl gymharol gyfyngedig yng nghadwyn gwerth Modd 5 Cymru. Mae'r gwahaniaethau hyn yn amlygu natur grynodedig iawn proffil allforion Modd 5 Cymru, wrth ddibynnu ar ddiwydiannau cyfalaf-ddwys sydd wedi integreiddio'n fyd-eang.

Dros amser, mae cyfansoddiad cyfran allforion Modd 5 Cymru wedi dangos sefydlogrwydd cymharol mewn goruchafiaeth sectorol, gyda symudiadau bach sy'n adlewyrchu dylanwadau economaidd neu bolisi ehangach. O 2011 i 2020, roedd y sectorau cerbydau modur a chemegol gyda'i gilydd yn cyfrif am fwy na hanner holl allforion Modd 5 o Gymru,

gan ddarlunio dibyniaeth barhaus ar sectorau sy’n cyfuno nwyddau cymhleth â gwasanaethau sy’n ychwanegu gwerth uchel. Er bod rhai sectorau fel peiriannau ac offer a chyfrifiaduron a chynhyrchion electronig yn achlysurol yn nesáu neu’n codi uwchlaw 10%, roedd eu cyfrannau yn fwy anwadal, yn debygol o fod wedi eu dylanwadu gan ddeinameg masnach allanol, megis tarfiadau ar y gadwyn gyflenwi fyd-eang.

Yn gyffredinol, awgryma data fod arallgyfeirio mewn allforion Modd 5 yn dal i fod yn gyfyngedig, sydd â’r potensial o beri risg i wytnwch economaidd os bydd sectorau blaenllaw yn wynebu pwysau cystadleuol rhyngwladol neu newidiadau mewn rheoleiddio. Mae’r patrwm hwn yn cadarnhau pwysigrwydd strategol cefnogi arloesi ac integreiddio gwasanaethau ar draws ystod ehangach o ddiwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Gall tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru roi rhywfaint o eglurder ar gyfraniadau cymharol gwasanaethau masnachadwy allweddol i allforion Modd 5. Dengys Tabl 7 y gyfran o gyfanswm allbynnau a fasnechir i fusnesau eraill yng Nghymru (gwerthiannau cyfryngol) a’r prif sectorau gweithgynhyrchu a gefnogwyd. Mae hyn yn rhoi arwydd o swm a chynnwys gwasanaethau cynwysedig yn allbynnau’r prif sectorau gweithgynhyrchu, boed nhw’n cael eu gwerthu’n ddomestig neu ar gyfer allforio.

**Tabl 7 Amcangyfrifon ar gyfer masnach gyfryngol fel cyfran o allbynnau’r sector gwasanaethau a’r prif sectorau gweithgynhyrchu a gyflenwyd, Cymru, 2019**

| Is-Sector | Gwerthiannau Cyfryngol fel cyfran o allbwn | Prif Sectorau Gweithgynhyrchu a Gyflenwyd |
|---|---|---|
| Cyhoeddi | 26% | Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (1.2%)<br>Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco (1.0%) |
| Ffilm a Theledu | 24% | Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (0.3%)<br>Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco (0.3%) |
| Telathrebu | 37% | Gweithgynhyrchu dodrefn a gweithgynhyrchu arall; atgyweirio a gosod peiriannau a chyfarpar (1.1%)<br>Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (1.1%) |

| Is-Sector | Gwerthiannau Cyfryngol fel cyfran o allbwn | Prif Sectorau Gweithgynhyrchu a Gyflenwyd |
|---|---|---|
| Rhaglennu cyfrifiaduron, ymgynghori a gwasanaethau cysylltiedig | 43% | Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (4.4%)<br>Gweithgynhyrchu cyfarpar trydanol (4.0%) |
| Ariannol ac Yswiriant | 18% | Gweithgynhyrchu dodrefn a gweithgynhyrchu arall; atgyweirio a gosod peiriannau a chyfarpar (0.9%)<br>Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco (0.9%) |
| Cyfreithiol a chyfrifyddu, ymgynghori ar faterion rheoli / Pencadlys | 42% | Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (1.9%)<br>Gweithgynhyrchu metelau sylfaenol (1.6%) |
| Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg, profi technegol, dadansoddi | 37% | Gweithgynhyrchu cyfarpar trydanol (19%)<br>Gweithgynhyrchu cemegion, golosg a petrolewm puredig (2.7%) |
| Ymchwil a Datblygu Gwyddonol | 16% | Gweithgynhyrchu cynhyrchion fferyllol sylfaenol a chymysgeddau fferyllol (4.6%)<br>Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (2.7%) |
| Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad | 74% | Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco (1.5%)<br>Gweithgynhyrchu dodrefn a gweithgynhyrchu arall (0.9%) |
| Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol, technegol eraill | 29% | Gweithgynhyrchu cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth eraill (1.7%)<br>Gweithgynhyrchu cynhyrchion bwyd, diodydd a chynhyrchion tybaco (1.5%) |

Ffynhonnell: Tablau Mewnbwn-Allbwn Cymru, 2025

Mae amryw o wasanaethau masnachadwy yn gwerthu cyfran fawr o'u cynnyrch i fusnesau eraill yng Nghymru, yn fwyaf nodedig Hysbysebu ac Ymchwil i'r Farchnad (74%), a gwasanaethau gwybodaeth-ddwys fel rhaglennu cyfrifiaduron (43%), Cyfreithiol a chyfrifyddu/ymgynghori ar faterion rheoli (42%), Telathrebu (37%), a Pensaernïol a pheirianneg (37%). Gallai'r rhain ddangos potensial sylweddol am ychwanegu gwerth Modd 5. Mae cerbydau modur a chyfarpar trafnidiaeth yn angor trawsbynciol: mae'n ymddangos fel cleient pwysig i wasanaethau lluosog (cyhoeddi, ffilm/teledu, telathrebu, TG, cyfreithiol/ymgynghori, ymchwil a datblygu, a gwasanaethau proffesiynol eraill), sy'n awgrymu y gallai uwchraddio'r mewnbynnau gwasanaeth hyn gael sgil effeithiau anghymesur ar un o'r sylfeini gweithgynhyrchu sy'n ymwneud fwyaf ag allforio yng Nghymru. Mae pensaernïaeth a pheirianneg wedi'i gydgrynhoi'n anarferol mewn offer trydanol (19%), tra bod gan ymchwil a datblygu ei gysylliadau cryfaf â'r diwydiant fferyllol (4.6%), sy'n awgrymu ecosystemau gwasanaethau-gweithgynhyrchu y gellid eu meithrin ar gyfer sectorau penodol. Mae gweithgynhyrchu bwyd a diod yn gleient cyson amryw o wasanaethau (ee cyhoeddi, ffilm/teledu, ariannol/yswiriant, hysbysebu, gwasanaethau proffesiynol eraill), gan amlygu ehangder cynnwys gwasanaethau ymgorfforedig yn un o sectorau gweithgynhyrchu allweddol Cymru.

## 6.8. Goblygiadau i bolisi gwasanaeth Cymru

Mae gwasanaethau Modd 5 yn dechrau dylanwadu ar gyfansoddiad masnach a ffynonellau cystadleurwydd allforion (Cernat, L. (2024) What Mode of Supply Will Matter the Most for the Future of Services Trade?). I Gymru, maent yn creu cyfleoedd i ychwanegu gwerth at gryfderau gweithgynhyrchu presennol a symbylu galw am ddarparwyr gwasanaethau domestig.

Fodd bynnag, awgryma'r data fod arallgyfeirio mewn allforion Modd 5 yn parhau i fod yn gyfyngedig, gyda'r potensial o beri risg i wytnwch economaidd os bydd sectorau blaenllaw yn wynebu pwysau cystadleuol rhyngwladol neu newidiadau rheoliadol. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd strategol cefnogi arloesi ac integreiddio gwasanaethau ar draws amdrediad ehangach o ddiwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Yn ogystal, o dan reolau tollau presennol, caiff gwasanaethau cynwysedig eu trin fel rhan o'r nwydd diriaethol, gan wneud cwmnïau yn agored i drethu dwbl posibl ac ansicrwydd rheoliadol (OECD (2023) Interactions between goods and services in international trade: Implications for customs valuation and rules of origin). Mewn trafodaethau masnach yn y dyfodol, dylai Llywodraeth y DU gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, eirioli dros ddarpariaethau sy'n: rhwystro trethi tollau rhag cael eu gweithredu ar ddiweddariadau ôl-werthiant digidol yn unig; symleiddio gweithrefnau croesi ffiniau ar gyfer pecynnau nwyddau-a-gwasanaethau; a sicrhau bod mewnbynnau anniriaethol yn cael eu cydnabod yn addas wrth weithredu rheolau tarddiad. Gallai mynd i'r afael â'r materion hyn helpu i gefnogi cystadleurwydd Cymru mewn allforion a alluogir yn ddigidol ac sy'n ychwanegu gwerth.

Yn ogystal, mae polisi ar sail tystiolaeth yn gofyn am well data ar wasanaethau cynwysedig. Bydd adolygu Arolwg Masnach Cymru, cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar amcangyfrifon TiVA rhanbarthol, a mireinio tablau mewnbwn-allbwn yn dangos yn gliriach gyfraniadau Modd 5. Dylai gwelliannau ystadegol fanteisio, lle bo'n bosibl, ar fecanweithiau presennol i gasglu data er mwyn lleihau beichiau adrodd ychwanegol ar fusnesau.

Mae gan wasanaethau Modd 5 y potensial i wella gwerth a gwytnwch allforion Cymru, ond ni wireddir eu cyfraniad hyd nes bydd gwasanaethau cynwysedig yn cyfateb i alw'r farchnad ac yn cael eu cefnogi gan gynhyrchion cystadleuol. Gall fframwaith polisi galluogi – sy'n canolbwyntio ar gefnogi arloesi ac integreiddio gwasanaethau ar draws amrediad ehangach o ddiwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, darpariaethau masnach pragmataidd, a mesur yn well – helpu i alluogi cwmnïau Cymreig i fanteisio ar gyfleoedd Modd 5.

# 7. Casgliadau ac argymhellion

## 7.1. Casgliadau cyffredinol

Mae sector gwasanaethau masnachadwy Cymru yn chwarae rhan allweddol yn yr economi genedlaethol, gan gyfrannu dros 70% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros (GVA) a chyfrif am gyfran gynyddol o weithgarwch allforio. Wrth i farchnadoedd byd-eang esblygu a gwaith cynhyrchu droi fwyfwy at ddarparu gwasanaethau, bydd gallu Cymru i adeiladu ar ei chryfderau mewn diwydiannau gwasanaethau gwybodaeth-ddwys yn ffactor pwysig yn ei thaflwybr economaidd hirdymor.

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod Cymru'n gartref i nifer o is-sectorau gwasanaethau strategol pwysig (gan gynnwys gwasanaethau digidol, creadigol, ariannol a phroffesiynol) sy'n dangos cyfraniadau domestig cryf i GVA a chyflogaeth. Mae'r sectorau hyn yn elwa o weithlu a alluogwyd yn ddigidol, costau gweithredu is na rhai o ranbarthau eraill y DU, a strwythurau cymorth sy'n dod i'r amlwg.

Er gwaethaf potensial is-sectorau gwasanaethau gwerth-uchel Cymru, mae rhwystrau strwythurol yn parhau i lesteirio twf a rhyngwladoli. Gall heriau cadw doniau, heriau seilwaith y tu hwnt i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, a rhai adroddiadau am ddealltwriaeth gyfyngedig o fecanweithiau allforio gwasanaethau fod gyda'i gilydd yn cyfyngu ar raddfa ac effaith. Yn ogystal, teimlai llawer o randdeiliaid fod polisïau masnachol a diwydiannol presennol yn tueddu i flaenoriaethu sectorau seiliedig ar nwyddau, gan ddiystyru'r gwerth mewnol ac anniriaethol a gynhyrchir gan wasanaethau. Yn ogystal, parhau'n gyfyngedig mae arallgyfeirio yn allforion Modd 5 Cymru, a allai olygu risg i wytnwch economaidd os bydd sectorau blaenllaw yn wynebu pwysau cystadleuol rhyngwladol neu newidiadau rheoliadol.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu cyfle i roi mwy o bwyslais ar yr economi wasanaethau o fewn polisi economaidd. Mae Cymru'n gartref i amrywiaeth o is-sectorau gwasanaethau gwerth uchel, gan gynnwys gwasanaethau digidol a thechnoleg gwybodaeth, diwydiannau creadigol, gwasanaethau proffesiynol a chyfreithiol, technoleg ariannol a seibrddiogelwch. Caiff y sectorau hyn eu cefnogi gan weithlu digidol-alluog, agosrwydd at sefydliadau academaidd ac ymchwil, a chostau busnes cystadleuol. Mewn sawl maes, megis masnach Modd 5, allforion digidol, a chynhyrchu creadigol, mae gan Gymru arbenigeddau sy'n dod i'r amlwg a photensial i allforio. Fodd bynnag, er bod y cryfderau hyn yn amlwg, bydd gwireddu eu potensial llawn yn elwa o wella gwelededd data, mecanweithiau cymorth wedi eu targedu, ac amgylchedd polisi sy'n ymatebol i anghenion busnesau gwasanaethau modern.

Yn fyr, mae'r astudiaeth hon yn gwahodd llunwyr polisi i edrych o'r newydd ar sut a lle y caiff gwerth economaidd ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae'n awgrymu symud y tu hwnt i ffiniau traddodiadol sectorau at fabwysiadu agwedd fwy integredig sy'n cydnabod y rhyng-gysylltiadau rhwng gwasanaethau, gweithgynhyrchu, a digideiddio. Os yw Cymru am

ddiogelu ei heconomi ar gyfer y dyfodol, rhaid iddi lwyr gofleidio sylfeini cystadleurwydd yr 21ain ganrif yn ei sector gwasanaethau ac adlewyrchu hyn yn ei strategaeth economaidd hirdymor.

## 7.2. Argymhellion polisi

Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu arwyddocâd economaidd a photensial cudd sector gwasanaethau masnachadwy Cymru. Er bod y sector wedi dangos cryfderau, gan gynnwys arbenigo mewn meysydd gwerth-uchel fel technoleg ariannol, cyfryngau digidol, a seibrddiogelwch, mae heriau strwythurol parhaus ac amodau byd-eang sy'n esblygu yn gofyn am newid pwyslais polisi. Dylid ystyried y goblygiadau polisi canlynol wrth lunio polisi mwy ymatebol ac addas ar gyfer y dyfodol a fydd yn gallu maethu a chefnogi economi wasanaethau Cymru.

### 7.2.1. Data ac Ymchwil

#### 7.2.1.1. PR1: Cryfhau data a gwelededd

Gall llunwyr polisi elwa o weld yn gliriach sut mae gwasanaethau'n cyfrannu at economi Cymru, yn enwedig lle nad yw'r rhain yn cael eu datgelu'n uniongyrchol gan fetrigau allforio traddodiadol. Gallai Cymru elwa o archwilio ffyrdd o amlygu gwelededd llifau gwasanaethau cynwysedig a thrawsffiniol o fewn ffynonellau data presennol. Gallai hyn gynnwys adolygu Arolwg Masnach Cymru i asesu a allai mireinio graddol – megis ehangu'r rhestr ddosbarthu nwyddau/gwasanaethau – roi gwybodaeth fanylach heb gynyddu baich ymatebwyr.

### 7.2.2. Datblygu polisi

#### 7.2.2.1. PR2: Mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol rhag twf

Mae heriau parhaus, megis seilwaith digidol anwastad a chapasiti cyfyngedig o ran rheolwyr, yn awgrymu cyfleoedd am gymorth polisi a gaiff ei dargedu a'i gynnal. Er bod Cynllun Gweithredu Allforio Llywodraeth Cymru yn cynnwys mesurau i ehangu gwasanaethau ymgynghorol a rhaglenni cymorth i allforwyr newydd a rhai ac iddynt botensial uchel, gallai sylw a dargedir helpu i sicrhau bod cymorth parhaus yn syml, hyblyg ac wedi ei addasu ar gyfer realiti ymarferol busnesau'r sector gwasanaethau. Gallai ymestyn cyrhaeddiad ac ymatebolrwydd cynlluniau presennol, megis trwy glystyrau allforio, hyfforddiant wedi ei deilwra, a llwybrau mynediad symlach, helpu i leihau rhai o'r rhwystrau rhag twf rhyngwladol pellach.

#### 7.2.2.2. PR3: Ymgorffori Modd 5 mewn polisi masnachol a diwydiannol

Gallai mwy o gydnabyddiaeth i wasanaethau Modd 5 gefnogi polisi masnachol a diwydiannol. Mae hyn yn cynnwys trafod cytundebau masnach sy'n cyfrif am wasanaethau sydd wedi eu mewnblannu mewn nwyddau, rhwystro trethu dwbl, a chysoni rheolau tarddiad i adlewyrchu cyfraniadau anniriaethol. O safbwynt domestig, gallai strategaeth ddiwydiannol elwa o drin busnesau gwasanaethau fel galluogwyr posibl cystadleurwydd gweithgynhyrchu, cyllido mentrau ymchwil a datblygu ar y cyd, ac integreiddio gwasanaethau digidol, dylunio ac ymgynghori yn fapiau trywydd sectorol.

### 7.2.3. Cefnogi / datblygu busnesau

#### 7.2.3.1. PR4: Ailfeddwl y model cymorth allforio

Teimlai llawer o randdeiliaid fod y cymorth masnach presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar fodelau sydd â'u pwyslais ar nwyddau. Gellir rhoi mwy o bwyslais polisi ar fasnach o dan arweiniad gwasanaethau, gan gynnwys allforion Modd 5. Mae hyn yn rhoi cyfle i ehangu'r cymorth presennol trwy ddatblygu cymorth masnach sy'n rhoi sylw i wasanaethau, gan ymgorffori gwasanaethau ymgynghorol, canllawiau rheoleiddio, ac ôl-ofal wedi ei deilwra ar gyfer cwmnïau gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad at gyllid allforio, hwyluso masnach ddigidol, ac uwchsgilio mewn meysydd fel rheoli eiddo deallusol a chydymffurfio â safonau.

#### 7.2.3.2. PR5: Gwell cydgyfeirio rhwng polisïau a masnach

Awgryma adborth gan randdeiliaid fod lle i wella cydnawsedd rhwng cynllunio cymorth cyhoeddus a realiti ymarferol rhedeg busnes sector gwasanaethau yng Nghymru, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig. Roedd llawer o ymatebwyr, er yn cydnabod bod bwriad strategol cynlluniau Llywodraeth Cymru yn aml yn glir, yn pwysleisio y gall mecanweithiau cyflawni deimlo'n fiwrocrataidd a'u bod yn cydgyfeirio'n wael â llinellau amser masnachol. Er enghraifft, y canfyddiad gan rai oedd bod rhai rhaglenni grantiau ac ymgynghori yn gymhleth yn weinyddol, gyda phrosesau ymgeisio hirfaith, meini prawf aneglur ynghylch cymhwysedd, neu gymorth dilynol cyfyngedig. Gallai cymorth yn y dyfodol fod yn fwy effeithiol os caiff ei gyd-gynllunio gyda diwydiant, o dan arweiniad gweithwyr proffesiynol sydd ag arbenigedd masnachol, ac wedi ei lunio o amgylch llifau gwaith busnesau. Gallai elwa o osod pwyslais ar rwyddineb mynediad, eglurder diben, a phrydlondeb – gan sicrhau bod cymorth yn galluogi yn hytrach nag oedi ymatebolrwydd busnesau.

Mae'r argymhellion a amlinellir uchod yn gosod sylfaen strategol, ond mae angen camau ymarferol pellach ac ymdrechion i adeiladu tystiolaeth er mwyn sicrhau cynnydd cynaliadwy.

## 7.3. Camau nesaf posibl ac ymchwil pellach

Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon a symud ymlaen tuag at ecosystem fwy cefnogol ar gyfer sector gwasanaethau masnachadwy Cymru, argymhellir amryw o gamau nesaf ymarferol a chost-effeithiol.

### 7.3.1. Data ac ymchwil

#### 7.3.1.1. R1: Casglu data gwell am y sector gwasanaethau

Mae'n hanfodol gwella'r seilwaith data sy'n sail i'n dealltwriaeth o'r economi wasanaethau a mynd i'r afael â bylchau. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n brin o olwg gynhwysfawr o raddfa lawn a chyfraniad ei gwasanaethau, yn enwedig i'r mewnbynnau hynny sydd wedi eu cynnwys mewn nwyddau a allforir. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gallai Llywodraeth Cymru ystyried, fel rhan o adolygiadau methodolegol parhaus, a allai gwellianniau i Arolwg Masnach Cymru wella dealltwriaeth o wasanaethau masnachadwy. Er enghraifft, gallai profi gwybyddol ddangos a all busnesau roi mwy o fanylder ar allforion gwasanaethau o fewn y fframwaith presennol. Dylai unrhyw newidiadau gydbwyso'r angen am ddata cyfoethocach â'r flaenoriaeth o gadw hyd arolygon a chyfraddau ymateb.

#### 7.3.1.2. R2: Cyflawni astudiaethau manwl o sectorau penodol

Gallai amryw i is-sectorau ac iddynt botensial uchel a nodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys seibrddiogelwch, technoleg ariannol, a gwasanaethau dylunio, elwa o ddadansoddiad mwy manwl i ddeall beth yn benodol sy'n galluogi a chyfyngu eu twf. Gallai comisiynu astudiaethau byr, manwl sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol helpu i fireinio mecanweithiau cymorth, gosod sail ar gyfer hyrwyddo allforion wedi eu targedu, ac adnabod rhwystrau rhag mynediad i'r farchnad neu bryderon eiddo deallusol sy'n benodol i bob maes. Gallai astudiaethau trylwyr o'r fath ganolbwyntio ar ddeall galw byd-eang, prif brynwyr, a chystadleuwyr, gyda dadansoddiad o gadwyni gwerth yn dangos sut mae cwmnïau gwasanaethau Cymru yn mewnosod eu hunain mewn rhwydweithiau diwydiannol ehangach.

#### 7.3.1.3. R3: Dilyn ymchwil pellach i Fodd 5

Er ei arwyddocâd, mae Modd 5 yn parhau i fod yn anhysbys i raddau helaeth o ran perfformiad allforio. Argymhellir ymchwil a dadansoddiad pellach er mwyn:

- Mapio cysylltiadau allweddol rhwng gweithgynhyrchu a gwasanaethau yng Nghymru.

- Amcangyfrif gwerth gwasanaethau cynwysedig ar draws sectorau blaenoriaeth.
- Adnabod yr arferion gorau rhyngwladol ar gyfer cydnabod a hyrwyddo masnach Modd 5.

Er mwyn cau'r bwlch hwn mewn gwybodaeth, gallai Llywodraeth Cymru gyflawni ymarferiad mapio ac amcangyfrif cynhwysfawr. Bydd graffeg dadansoddi rhwydweithiau sy'n dangos y cant uchaf o blith prynwyr gweithgynhyrchu a'r cant uchaf o gyflenwyr gwasanaethau (yn nhrefn gwerth trafodion) yn amlygu clystyrau daearyddol a nodau allweddol. Dylai Cymru archwilio'r enghreifftiau gorau yn rhyngwladol ar gyfer cydnabod a hyrwyddo masnach Modd 5. Gallai cipolwg o bolisi byd-eang a fyddai'n cynnwys rhyddhad treth rhannol yr Almaen ar gyfer meddalwedd a fewnblennir, dosbarthiad tollau 'Gwasanaethau Gwerth Ychwanegol' Canada, gostyngiad trethi Japan ar beirianwaith sy'n dibynnu'n drwm ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, eithriadau ôl-werthiant digidol yng nghytundebau masnach rydd Singapôr, a 'Map Trywydd Symud at Wasanaethau' De Corea, roi gwybodaeth ddefnyddiol. Gall y canfyddiadau hyn helpu Cymru i eirioli dros ddarpariaethau cefnogol yn nhrafodaethau masnach y Deyrnas Unedig a chytundebau masnach rydd yn y dyfodol.

### 7.3.2. Datblygu polisi

#### 7.3.2.1. R4: Cryfhau integreiddio gwasanaethau mewn polisi diwydiannol

Gellir ymestyn strategaethau presennol Llywodraeth Cymru ynghylch arloesi, seilwaith digidol, a sero net i gynnwys mewn modd amlycach alluoedd y sector gwasanaethau. Er enghraifft, gallai adolygiadau o fapiau trywydd sectorau yn y dyfodol gynnwys ymgynghori, meddalwedd, a gwasanaethau creadigol fel galluogwyr trawsnewidiadau diwydiannol carbon isel. Gellid sefydlu gweithgor trawsadrannol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hymgorffori'n systematig mewn cynllunio diwydiannol seiliedig ar le.

### 7.3.3. Cefnogi/datblygu busnesau

#### 7.3.3.1. R5: Addasu strwythurau cymorth allforio sy'n bod eisoes

Yn hytrach na chreu sefydliadau neu gynlluniau cwbl newydd, gellir cyflawni gwelliannau i gymorth allforio gwasanaethau trwy fecanweithiau presennol, megis y Cynllun Gweithredu Allforio. Gallai'r rhain gynnwys hyfforddiant penodol i ymgynghorwyr masnach Busnes Cymri a Llywodraeth Cymru ar lwybrau allforio penodol i sectorau, llwybrau ymgeisio symlach i gwmnïau gwasanaethau, neu ddiweddariadau i ddeunyddiau marchnata i adlewyrchu cryfderau digidol a chreadigol Cymru yn well.

#### 7.3.3.2. R6: Treialu adnoddau parodrwydd allforio gwasanaethau

Cam isel o ran cost ond uchel o ran effaith fyddai datblygu a threialu ‘Pecyn Cymorth Parodrwydd Allforio Gwasanaethau’ i helpu busnesau bach a chanolig i hunan-asesu eu parodrwydd ar gyfer rhyngwladoli. Gallai’r adnodd rhyngweithiol hwn arwain busnesau bach a chanolig trwy pum dimensiwn allweddol, a ganfuwyd fel heriau yn yr ymchwil: gwybodaeth am y farchnad, parodrwydd rheoliadol, strategaeth eiddo deallusol, gallu gweithredol, a pharodrwydd ariannol. Wrth ei gwblhau, gall pob cwmni dderbyn ‘adroddiad bwlch’ personol yn amlinellu’r camau blaenoriaeth nesaf. Gellid integreiddio’r pecyn cymorth i raglenni cymorth Busnes Cymru neu drefnu ei fod ar gael trwy rwydweithiau clystyrau allforio.

## 7.4. Crynodeb i gloi

Mae’r adroddiad hwn yn awgrymu y gallai fframwaith polisi mwy bwriadol, seiliedig ar dystiolaeth, helpu i fynd i’r afael â’r cyfyngiadau sy’n wynebu sector gwasanaethau masnachadwy Cymru, trwy uwchraddio casglu data (R1), cyflawni astudiaethau sy’n manylu ar sectorau penodol (R2), dyfnhau ein dealltwriaeth o Fodd 5 (R3), cryfhau integreiddio gwasanaethau mewn polisi diwydiannol (R4), cryfhau strwythurau cymorth presennol (R5), a threialu pecyn cymorth parodrwydd allforio (R6), alluogi Cymru i adeiladu’r seilwaith sydd ei angen ar gyfer twf parhaus, cynaliadwy, sy’n edrych tuag allan.

Gallai argymhellion ar gasglu a dadansoddi data chwarae rhan allweddol mewn oes o anwadalwch byd-eang. Mae’r newidiadau cyflym ac anodd eu rhagfynegi mewn gwleidyddiaeth fyd-eang, yn enwedig ailymddangosiad polisïau masnach gwarchodol o dan arweiniad yr Unol Daleithiau, yn ei gwneud yn anhepgor cael darlun clir a chyfoes o sut mae gwasanaethau’n gyrru allforion sy’n sefyll ar eu traed eu hunain a gwerth mewnblanedig. Yn gynnar yn 2025 gwelwyd gweinyddiaeth yr Arlywydd Trump yn gosod tariffau ysgubol ar amrywiaeth o nwyddau a fewnforir, gan arwain at ansicrwydd helaeth. Er bod y tariffau hyn yn targedu cynhyrchion a weithgynhyrchir yn bennaf, roeddent yn cael effaith anuniongyrchol ar wasanaethau trwy gostau cadwyni cyflenwi uwch, lleihau galw byd-eang, ac amrywiadau mewn gwerth arian. I Gymru, lle mae’r Unol Daleithiau’n parhau i fod yn gyrchfan bwysig i allforion, i nwyddau a gwasanaethau, mae gwrthdroadau polisi o’r fath yn tanlinellu pwysigrwydd hyblygrwydd a mynediad at wybodaeth amserol i gwmnïau Cymreig. Mae’r canlyniadau ehangach o’r tensiynau masnach hyn, yn gostau benthyca uwch ac oedi mewn penderfyniadau buddsoddi, wedi lleihau hyder busnes yn y Deyrnas Unedig. Wrth i Gymru ystyried cryfhau ei sector gwasanaethau, rhaid iddi ddal i fod yn effro i’r posibilrwydd o fesurau dialgar neu newidiadau ar fyr rybudd i reoliadau.

Mae tensiynau geo-wleidyddol wedi aildanio’r angen am graffu ar wytnwch cadwyni cyflenwi. I sectorau allweddol megis seibrddiogelwch, technoleg ariannol, a gwyddorau bywyd, sy’n dibynnu’n drwm ar gydweithio trawsffiniol a llif rhydd data a doniau, mae ymadawiad y Deyrnas Unedig o fframweithiau rheoliadol Ewrop yn ychwanegu cymhlethdod. Bydd yn her allweddol helpu cwmnïau Cymreig i gydymffurfio â chyfundrefnau

preifatrwydd data yr Undeb Ewropeaidd a’r Unol Daleithiau, gan warchod rhag colli seilwaith ddigidol allweddol yn y dyfodol.

Mae teyrngarwch mewn masnach fyd-eang yn newid, gyda chytundebau masnach rydd yn cael eu haildrafod gyda llygad tuag at ddiwydiannau strategol cenedlaethol. Yn yr amgylchedd hwn, dylai Cymru fod â’r nod o eirioli, trwy drafodaethau masnach ar lefel y DU, dros ddarpariaethau sy’n gwarchod gwasanaethau cynwysedig rhag trethu dwbl neu dollau gormod a dyfnhau cysylltiadau â phartneriaid masnach allweddol gan sefydlu rhai newydd hefyd.

# 8. Atodiadau

## 8.1. Atodiad 1: Adolygu data – dull a chyfyngiadau

### 8.1.1. Adolygu data

Mae amrywiaeth helaeth o ddosbarthiadau busnesau ar gyfer ystyried masnach mewn nwyddau a gwasanaethau, yn seiliedig er enghraifft ar ofynion y wlad sy'n lletya, ystyried graddau'r prosesu, neu natur y prif weithgaredd busnes. Caiff rhai o'r rhain, yn ogystal â chronfeydd data perthnasol, eu hadolygu isod yng nghyd-destun sefydlu sampl o fusnesau ar gyfer yr ymchwil.

#### 8.1.1.1. UNCTAD

Mae'r diffiniad o gwmpas y prosiect a gynigiwyd ym manyleb wreiddiol yr ymchwil yn dilyn diffiniad UNCTAD (Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygu), sy'n rhannu gwasanaethau'n dri chategori o weithgarwch cynhyrchu:

- Y rheini sy'n newid amodau unedau defnyddio. Gellir disgrifio'r rhain fel gweithgareddau gwasanaethau sy'n newid cyflwr neu ddefnyddioldeb nwydd neu berson (yr uned ddefnyddio) heb drosglwyddo perchnogaeth cynnyrch ffisegol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
    - Gwasanaethau Atgyweirio a Chynnal a Chadw: Mae atgyweirio car yn newid ei gyflwr, gan ei wneud i weithio eto.
    - Gwasanaethau Gofal Iechyd: Mae darparu triniaeth feddygol yn newid statws iechyd claf.
    - Gwasanaethau Addysg: Mae addysgu'n darparu gwybodaeth, gan newid set sgiliau'r dysgwr.

- Y rheini sy'n hwyluso cyfnewid cynhyrchion. Mae'r rhain yn cyfeirio at wasanaethau sy'n helpu gwerthu, dosbarthu, neu drosglwyddo nwyddau rhwng partïon. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
    - Masnach Manwerthu a Chyfanwerthu: Mae archfarchnad yn hwyluso cyfnewid cynhyrchion bwyd rhwng cyflenwyr a defnyddwyr.
    - Trafnidiaeth a Logisteg: Mae gwasanaethau cludiant yn symud nwyddau oddi wrth gynhyrchwyr at ddefnyddwyr.
    - Marchnata a Hysbysebu: Hyrwyddo cynhyrchion i greu galw a chefnogi gwerthiannau.

- Y rheini sy'n hwyluso cyfnewid asedau ariannol. Mae'r gweithgareddau hyn yn ymwneud â gwasanaethau ariannol a chyfryngol sy'n helpu trosglwyddo arian, neu offerynnau ariannol rhwng dau barti neu fwy. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

  - Gwasanaethau Bancio: Mae banc yn hwyluso cyfnewid arian trwy brosesu taliadau neu reoli adneuon.
  - Broceriaeth Stoc: Mae cwmni broceriaeth yn galluogi prynu a gwerthu cyfranddaliadau ar ran cleientiaid.
  - Gwasanaethau Yswiriant: Darparu gwarchodaeth ar gyfer risg, gan hwyluso sefydlogrwydd ariannol y parti a gaiff ei yswirio.

#### 8.1.1.2. Dosbarthiad Estynedig Gwasanaethau Mantolau Taliadau (Extended Balance of Payments Services Classification – EBOPS)

Mae Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygu (UNCTAD) a Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn defnyddio set o gategorïau a gaiff eu diffinio yn y Llawlyfr Gweithredu Mantolau a Buddsoddiadau Rhyngwladol, y caiff ei fersiwn ddiweddaraf ei adnabod fel BPM6 (Y Gronfa Ariannol Ryngwladol IMF) (2009) Balance of Payments and International Investment Position Manual). Rhoddir y llawlyfr hwn at ei gilydd gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol fel pwynt cyfeirio ar gyfer cyfosod ystadegau mantolenni taliadau rhyngwladol ac mae'n defnyddio dosbarthiad sy'n cael ei adnabod fel EBOPS 2010, a gaiff ei rannu'n 12 categori fel a ganlyn:

- Gwasanaethau gweithgynhyrchu ar fewnbynnau ffisegol sy'n eiddo i eraill (megis prosesu, cydosod, labelu a phecynnu gan fusnesau nad oes ganddynt berchnogaeth o'r nwyddau).
- Gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio n.i.e.
- Trafnidiaeth
- Teithio
- Adeiladu
- Gwasanaethau yswiriant a phensiynau
- Gwasanaethau ariannol
- Taliadau am ddefnyddio eiddo deallusol n.i.e.
- Gwasanaethau telathrebu, cyfrifiadurol a gwybodaeth
- Gwasanaethau busnes eraill
- Gwasanaethau personol, diwylliannol a hamdden
- Nwyddau a gwasanaethau'r Llywodraeth n.i.e.

#### 8.1.1.3. SIC 2007

Yn y mwyafrif o achosion, mae EBOPS yn cyfateb i UK SIC2007, sef y dosbarthiad a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU a'r ONS ar gyfer casglu a threfnu amrywiaeth helaeth o ddata ystadegol ar yr economi a masnach. Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn cyflwyno rhestr o weithgareddau â chodau SIC y gellir eu hystyried fel gwasanaethau masnachadwy, ac awgrymir y bydd y rhain yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r rhestr EBOPS uchod, ac eithrio nwyddau a gwasanaethau'r Llywodraeth.

Mae'r rhestr yn hebgor gweithgynhyrchu nwyddau, a gwasanaethau na ellir eu masnachu, i'r graddau y gellir ddiffinio'r rhain. Mae'r broses ddewis yn gofyn am ryw radd o ddyfarnu, er enghraifft mewn masnach manwerthu – lle'r ydym wedi hepgor safleoedd manwerthu ffisegol, ond wedi cynnwys manwerthu ar-lein, gan mai dyma sydd â'r mwyaf o botensial ar gyfer masnach allforio.

#### 8.1.1.4. Masnach mewn Gwerth Ychwanegol (Trade in Value Added – TiVA)

Fe wnaeth Sefydliad Masnach y Byd a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ddatblygu cronfa ddata TiVA ar gyfer mynd y tu hwnt i fesurau masnach ryngwladol yn ôl gwerth i fesur y *gwerth a ychwanegwyd* gan wledydd wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae gan y dull hwn y fantais o osgoi cyfrif dwbl mewn data masnach, gan ei fod yn canolbwyntio ar *fasnach net* rhwng gwledydd. Ymysg y mesurau yn y gronfa ddata mae cynnwys gwasanaethau allforion gros yn ôl diwydiant allforio, yn ôl math o wasanaeth a math o werth a ychwanegwyd – sef mesur defnyddiol o fasnach Modd 5 byd-eang.

#### 8.1.1.5. Tablau Mewnbwn-Allbwn Rhyngwladol (Inter-Country Input-Output – ICIO)

Mae TiVA yn ei dro yn seiliedig ar yr ICIO, sef set o dablau sy'n rhestru masnach rhyng-sectorol o fewn gwlad a rhwng gwledydd, gan gynnwys mesur o ddefnyddio cyfryngol (sef y nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu ac, yn sgil hynny, wedi eu mewnblannu yn y cynnyrch terfynol). Mae'r tablau hyn, er yn ddefnyddiol, â chyfyngiadau yn yr ystyr mai'r lefel isaf o ddadgyfuno yw lefel y DU, sy'n golygu'r angen am rywfaint o fodelu ychwanegol i ganfod data perthnasol i Gymru.

#### 8.1.1.6. Tablau Mewnbwn-Allbwn y DU

Mae'r ONS yn cyhoeddi set o dablau dadansoddiadol Mewnbwn-Allbwn ar gyfer y DU, sy'n gyson â Llyfr Glas Cyfrifon Gwladol y DU a Llyfr Pinc Mantol Daliadau'r DU. Mae'r rhain yn

amcangyfrif gwerth cynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir i gynhyrchu cynhyrchion pellach a bodloni defnydd terfynol. Mae'r tablau diweddaraf yn ymwneud â 2022 ac yn cynnwys data ar gyfer allforion gwasanaethau fel rhan o ddefnydd terfynol.

#### 8.1.1.7. Tablau Cyflenwad a Defnydd a thablau Mewnbwn-Allbwn 2019 ar gyfer Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi tablau cyflenwi a defnyddio a thablau Mewnbwn-Allbwn ar gyfer Cymru, sy'n gweithredu ar draws 55 o sectorau (wedi eu cyfuno o 64), gan ddiweddaru set gynharach (2007) o dablau a gynhyrchwyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae tablau cyflenwi a defnyddio yn galluogi dealltwriaeth o lif nwyddau a gwasanaethau ar lefel cynnyrch rhwng diwydiannau a defnyddwyr olaf (gan gynnwys defnydd cyfryngol gan fusnesau, allforion a masnach o fewn y DU). Mae tablau Mewnbwn-Allbwn, fodd bynnag, yn cynnwys matrics sy'n dangos trafodion rhwng diwydiannau ar lefel diwydiant, er mwyn deall sut mae masnach rhyng-sectorol yn cyfrannu at gyfanswm allbwn economaidd.

### 8.1.2. Deall allforion gwasanaethau Modd 5

Caiff cytundebau masnach a masnach fyd-eang mewn gwasanaethau eu llywodraethu'n gyffredinol gan y Cytundeb Rhyngwladol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS), a oruchwylir gan Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Fodd bynnag, roedd gwybodaeth neu ystadegau hanesyddol gyfyngedig ar gael i ddisgrifio'r fasnach hon hyd nes, yn 2019 y cyfansoddwyd cronfa ddata Masnach mewn Gwasanaethau yn ôl Modd Cyflenwi (Trade in Services by Mode of Supply - TISMOS) am y tro cyntaf. Mae TISMOS yn cynnwys pedwar modd o allforion gwasanaethau uniongyrchol;


- Modd 1: Cyflenwi trawsffiniol – Mae'r modd hwn yn disgrifio masnach o un diriogaeth i'r llall. Yn aml, mae'n cynnwys masnach gwasanaethau digidol megis ymgynghori neu hyfforddi drwy'r rhyngrwyd, neu gall gynnwys trafnidiaeth ryngwladol (cludo nwyddau, trafnidiaeth awyr)
- Modd 2: Defnydd tramor – Mae'r modd hwn o gyflenwi yn cynnwys gwasanaethau a gyflenwir mewn un diriogaeth i ddefnyddwyr mewn un arall. Mae'n ymwneud yn bennaf â gweithgareddau twristiaeth ryngwladol, ond gallai gynnwys addysg uwch, er enghraifft.
- Modd 3: Presenoldeb Masnachol – O dan y modd hwn, mae cwmnïau yn sefydlu presenoldeb ffisegol dramor, megis swyddfa neu is-gwmni, i gyflenwi gwasanaethau i gwsmeriaid o'r diriogaeth honno.
- Modd 4: Symudiad Dros Dro Personau Naturiol – Mae'r modd hwn yn cyfeirio at gyflenwyr gwasanaethau yn anfon staff i diriogaeth arall i gyflenwi gwasanaeth yn bersonol – er enghraifft adeiladu, ymgynghori neu arbenigedd feddygol.

Mae data cyfresi amser o TISMOS yn dangos yn glir bod newid yn y ffordd roedd gwasanaethau'n cael eu darparu yn dilyn y pandemig Covid-19. Fe wnaeth lefel y gwasanaethau a ddarparwyd wyneb yn wyneb trwy deithio ffisegol (Modd 4) syrthio 60% yn fyd-eang rhwng 2019 a 2022. Ar yr un pryd, fe wnaeth gwasanaethau a ddarperir yn ddigidol, er enghraifft trwy ddefnyddio Microsoft Teams neu Zoom, (Modd 1) gynyddu bron i 40% dros yr un cyfnod (Cernat, L. (2024) The Big Shift in Global Trade in Services: A Tale of Five Modes of Supply).

Yn ogystal â'r pedwar modd hyn a gynhwysir yn TISMOS, mae diddordeb cynyddol mewn maes a dan-gydnabyddir, sef allforion gwasanaethau anuniongyrchol, a adnabyddir fel Modd 5. Mae'r rhain yn wasanaethau sydd wedi eu cynnwys o fewn gweithgynhyrchu, nad ydynt yn cael eu mesur mewn setiau data traddodiadol gan eu bod wedi eu cynnwys yng ngwerth nwyddau.

Mae papur ymchwil a gyhoeddwyd yn 2018 gan Ganolfan Economi Wleidyddol Ryngwladol Ewrop (European Centre for International Political Economy - ECIPE) yn amlygu y gall gwasanaethau Modd 5 fod yn destun tariffau oherwydd eu natur cynwysedig: Gellir trin gwerth gweithgareddau megis ymchwil a datblygu, dylunio, peirianneg a meddalwedd fel rhan o werth cyffredinol nwyddau gan allforir hwy. Mae ymchwil o'r OECD yn amcangyfrif y gallai rhyddhau gwasanaethau Modd 5 o dariffau alluogi enillion GDP byd-eang o €300bn erbyn 2025 a pheri cynnydd o €500bn mewn masnach fyd-eang.

**Ffigur 12: Cynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir wrth wneud cerbydau modur, y DU, 2023`**




Disgrifiad o Ffigur 12: Siart yn dangos swm amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu cerbydau modur yn y DU a gyrchwyd yn ddomestig, a'r swm a fewnforiwyd, yn 2023. Cafodd gwasanaethau masnachu cerbydau modur, gwasanaethau masnach cyfanwerthu, a gwasanaethau masnach manwerthu eu cyrchu yn ddomestig yn gyfan gwbl.

Ffynhonnell: Tablau cyflenwi a defnyddio Mewnbwn-Allbwn o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae Ffigur 12 yn dangos darlun o hyn, trwy ddefnyddio'r enghraifft o sector gweithgynhyrchu cerbydau modur y DU ar lefel y DU. O ran mewnbynnau a gyflenwir yn ddomestig, gwasanaethau masnachu cerbydau modur a gwasanaethau masnach cyfanwerthu yw'r meysydd mwyaf o wariant gan y diwydiant – sy'n sylweddol ar y blaen i haearn a dur sylfaenol, neu beiriannau ac offer.

Roedd adroddiad ECIPE yn cydnabod pwysigrwydd masnach Modd 5, ac yn crybwyll cronfeydd data TISMOS a TiVA fel rhai defnyddiol ar gyfer cyfrifo Modd 5 (trwy gyfuno gwerth nwyddau o TISMOS a'r gwerth ychwanegol cynwysedig o TIVA).

Yn fyd-eang, mae Modd 5 yn cynrychioli 29% o gyfanswm allforion gwasanaethau yn ôl gwerth a disgwylir i hyn dyfu. Mae diffyg dealltwriaeth o wasanaethau Modd 5 â'r potensial o danbrisio allforion gwasanaethau Cymru, gyda goblygiadau o ran sut yr effeithir ar y cynnyrch allforio allweddol hwn gan dollau. Mae'r adran ganlynol yn awgrymu dull o fapio'r sector a deall allforion Modd 5 o wasanaethau masnachadwy o Gymru.

### 8.1.3. Ffynonellau data cyflogaeth

Er mwyn asesu ffigurau cyflogaeth ar draws sectorau gwasanaethau yng Nghymru, defnyddiodd y dadansoddiad sawl cronfa ddata sy'n olrhain cyflogaeth. Mae pob un o'r setiau data sydd ar gael yn cynnig cryfderau a chyfyngiadau unigryw ac felly mae triongli ffynonellau lluosog yn ddefnyddiol wrth ddyfeisio darlun dibynadwy a chynhwysfawr o gyfraniad y sector gwasanaethau i'r farchnad lafur.

#### 8.1.3.1. Swyddi Gweithluoedd yn ôl Rhanbarth a Diwydiant (ONS)

Y brif ffynhonnell o ddata cyflogaeth a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yw set ddata Swyddi Gweithluoedd yn ôl Rhanbarth a Diwydiant yr ONS, sy'n darparu amcangyfrifon chwarterol ar nifer y swyddi yn ôl sector bras. Mae'r gyfres amser yn cychwyn o fis Mawrth 1996 a chaiff ei ddiweddaru'n chwarterol, gyda data diweddaraf a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn deillio o fis Rhagfyr 2024, gan alluogi dadansoddiad o dueddiadau cyflogaeth hirdymor ar draws rhanbarthau diwydiannau. Mae ei amlder chwarterol yn cefnogi olrhain amserol o amrywiadau'r farchnad lafur, gan gynnwys amrywiadau tymhorol a phatrymau cylchol.

#### 8.1.3.2. BRES (ONS)

Mae'r Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (Business Register and Employment Survey – BRES) yn gwasanaethu fel ffynhonnell eilaidd, yn casglu data trwy arolygon cyflogwyr ar y nifer o swyddi a ddelir gan weithwyr. Caiff y data hwn ei ddadgyfuno yn ôl statws llawn-amser a rhan-amser a'i adrodd ar lefel 'Dosbarth' SIC pedwar-digid, gan alluogi dadansoddiad manwl o batrymau cyflogaeth. Mae'r graddau hyn o fanylder yn arbennig o werthfawr ar gyfer asesu dosbarthiad gweithgareddau gwasanaethau masnachadwy o fewn is-sectorau ehangach.

Dylid nodi bod data BRES yn cynnwys busnesau a gofrestrir ar gyfer Talu wrth Ennill (PAYE) ond nid yw'n cynnwys y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth yn unig. O ganlyniad, mae potensial o dan-gynrychioli cwmnïau llai neu unig fasnachwyr, a all effeithio ar gywirdeb amcangyfrifon cyflogaeth ar lefel sector. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â 2023, gyda diweddariadau'n cael eu darparu'n flynyddol.

## 8.2. Atodiad 2 – Rhestr o godau SIC y bernir eu bod yn y cwmpas fel gwasanaethau masnachadwy

### Tabl 8: Rhestr codau SIC

| Disgrifiad | Dosbarth | Penawdau lefel |
|---|---|---|
| Gweithgareddau cynorthwyol ym maes cynhyrchu cnydau | 0161 | Dosbarth |
| Gweithgareddau cynorthwyol ym maes magu anifeiliaid | 0162 | Dosbarth |
| Gwasanaethau cynorthwyol ym maes coedwigaeth | 0240 | Dosbarth |
| Gweithgareddau cynorthwyol ym maes echdynnu petrolewm a nwy naturiol | 0910 | Dosbarth |
| Gweithgareddau cynorthwyol mwyngloddio a chwarela arall | 0990 | Dosbarth |
| **Atgyweirio cynhyrchion metel gwneuthuredig, peirianwaith ac offer** | | Grŵp |
| Atgyweirio cynhyrchion metel gwneuthuredig | 3311 | Dosbarth |
| Atgyweirion peiriannau | 3312 | Dosbarth |
| Atgyweirio cynhyrchion metel gwneuthuredig | 3313 | Dosbarth |
| Atgyweirio offer trydanol | 3314 | Dosbarth |
| Atgyweirio a chynnal llongau a chychod | 3315 | Dosbarth |
| Atgyweirio a chynnal awyrennau a llongau awyr | 3316 | Dosbarth |
| Atgyweirio a chynnal of cyfarpar arall ar gyfer trafnidiaeth | 3317 | Dosbarth |
| Atgyweirio mathau eraill o gyfarpar | 3319 | Dosbarth |
| **Gosod peirianwaith ac offer diwydiannol** | | Grŵp |
| Gosod peirianwaith ac offer diwydiannol | 3320 | Dosbarth |
| Masnachu trydan | 3514 | Dosbarth |
| Datgymalu drylliadau | 3831 | Dosbarth |
| Gweithgareddau adfer a gwasanaethau rheoli gwastraff eraill | 3900 | Dosbarth |
| Datblygu prosiectau adeiladu | 4110 | Dosbarth |
| **Adeiladu adeiladau preswyl ac amhreswyl** | | Grŵp |
| Adeiladu adeiladau preswyl ac amhreswyl | 4120 | Dosbarth |
| **Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd** | | Grŵp |
| Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd | 4211 | Dosbarth |
| Adeiladu rheilffyrdd a rheilffyrdd tanddaearol | 4212 | Dosbarth |
| Adeiladu pontydd a thwneli | 4213 | Dosbarth |
| **Adeiladu prosiectau cyfleustodau** | | Grŵp |
| Adeiladu prosiectau cyfleustodau hylifau | 4221 | Dosbarth |
| Adeiladu prosiectau cyfleustodau trydan a thelathrebu | 4222 | Dosbarth |
| **Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill** | | Grŵp |
| Adeiladu prosiectau dŵr | 4291 | Dosbarth |
| Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill n.dd.b. | 4299 | Dosbarth |
| **Dymchwel a pharatoi safleoedd** | | Grŵp |
| Dymchwerl | 4311 | Dosbarth |
| Paratoi safleoedd | 4312 | Dosbarth |
| Drilio a thorri tyllau profi | 4313 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau trydanol, plymio a mathau eraill o osod at ddibenion adeiladu** | | Grŵp |
| Gosod offer trydanol | 4321 | Dosbarth |
| Gosod systemau plymio, gwres a thymheru'r aer | 4322 | Dosbarth |
| Mathau eraill osod at ddibenion adeiladu | 4329 | Dosbarth |
| **Gwaith cwblhau a gorffen adeiladu** | | Grŵp |
| Plastro | 4331 | Dosbarth |
| Gosod gwaith coed | 4332 | Dosbarth |
| Gorchuddio lloriau a waliau | 4333 | Dosbarth |
| Peintio a gwydro | 4334 | Dosbarth |
| Gwaith cwblhau a gorffen adeiladu arall | 4339 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau adeiladu arbenigol eraill** | | Grŵp |
| Gweithgareddau gosod to | 4391 | Dosbarth |
| Gweithgareddau adeiladu arbenigol eraill n.dd.b. | 4399 | Dosbarth |
| **Cynnal ac atgyweirio cerbydau modur** | | Grŵp |
| Cynnal ac atgyweirio cerbydau modur | 4520 | Dosbarth |
| **Gwerthu darnau ac ategolion cerbydau modur** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu darnau ac ategolion cerbydau modur | 4531 | Dosbarth |
| Manwerthu darnau ac ategolion cerbydau modur | 4532 | Dosbarth |
| **Gwerthu, cynnal ac atgyweirio beiciau modur a darnau ac ategolion cysylltiedig** | | Grŵp |
| Gwerthu, cynnal ac atgyweirio beiciau modur a darnau ac ategolion cysylltiedig | 4540 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu ar sail ffi neu gontract** | | Grŵp |
| Asiantau sy'n gwerthu deunydd crai amaethyddol, da byw, deunyddiau crai tecstilau a nwyddau lled-barod | 4611 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu tanwydd, mwynau, metelau a chemegion diwydiannol | 4612 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu pren a deunyddiau adeiladu | 4613 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu peiriannau, offer diwydiannol, llongau ac awyrennau | 4614 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu celfi, nwyddau cartref, caledwedd a nwyddau haearn | 4615 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu tecstilau, dillad, ffwr, esgidiau a nwyddau lledr | 4616 | Dosbarth |
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu bwydydd, diodydd a thybaco | 4617 | Dosbarth |
| Asiantau sy'n arbenigo mewn gwerthu cynhyrchion penodol eraill | 4618 | Dosbarth |

| Disgrifiad | Dosbarth | Penawdau lefel |
|---|---|---|
| Asiantau sydd ynghlwm wrth werthu amrywiaeth o nwyddau | 4619 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu deunyddiau crai amaethyddol ac anifeiliaid byw** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu grawn, tybaco crai, hadau a bwydydd anifeiliaid | 4621 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu blodau a phlanhigion | 4622 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu anifeiliaid byw | 4623 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu crwyn a lledr | 4624 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu bwydydd, diodydd a thybaco** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu ffrwythau a llysiau | 4631 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cig a chynhyrchion cig | 4632 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cynhyrchion llaeth, wyau ac olewau a brasterau bwytadwy | 4633 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu diodydd | 4634 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cynhyrchion tybaco | 4635 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu siwgr a siocled a melysion siwgr | 4636 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu coffi, te, coco a sbeis | 4637 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu bwydydd eraill, gan gynnwys pysgod, cramenogion a molysgiaid | 4638 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu bwydydd, diodydd a thybaco cyffredinol | 4639 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu nwyddau cartref** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu tecstilau | 4641 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu dillad ac esgidiau | 4642 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu offer trydanol i'r cartref | 4643 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu llestri gwydr a tsieina a deunyddiau glanhau | 4644 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu persawr a chosmetigau | 4645 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu nwyddau fferyllol | 4646 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu celfi, carpedi ac offer goleuo | 4647 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu watsys a gemwaith | 4648 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu nwyddau cartref eraill | 4649 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu offer gwybodaeth a chyfathrebu** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu cyfrifiaduron, perifferolion cyfrifiadurol a meddalwedd | 4651 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cyfarpar electronig a thelathrebu a'r darnau cysylltiedig | 4652 | Dosbarth |
| **Cyfanwerthu peiriannau, offer a chyflenwadau eraill** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu peiriannau, cyfarpar a chyflenwadau amaethyddol | 4661 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu offer peiriannol | 4662 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu peiriannau mwyngloddio, adeiladu a pheirianneg sifil | 4663 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu peiriannau ar gyfer y diwydiant tecstilau a pheiriannau gwnïo a gwau | 4664 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu celfi swyddfa | 4665 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu peiriannau a chyfarpar swyddfa eraill | 4666 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu peiriannau a chyfarpar eraill | 4669 | Dosbarth |
| **Mathau eraill o gyfanwerthu arbenigol** | | Grŵp |
| Cyfanwerthu tanwyddau soled, hylifol a nwylol a chynhyrchion cysylltiedig | 4671 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu metelau a mwynau metel | 4672 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu pren, deunyddiau adeiladu ac offer iechydol | 4673 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cyfarpar a nwyddau metel, plymio a gwresogi | 4674 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cynhyrchion cemegol | 4675 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu cynhyrchion rhyngol eraill | 4676 | Dosbarth |
| Cyfanwerthu gwastraff a sgrap | 4677 | Dosbarth |
| **Masnach cyfanwerthu cyffredinol** | | Grŵp |
| Masnach cyfanwerthu cyffredinol | 4690 | Dosbarth |
| **Masnach manwerthu nad yw mewn siopau, stondinau na marchnadoedd** | | Grŵp |
| Gwerthiant manwerthu trwy leoedd archebu drwy'r post neu drwy'r rhyngrwyd | 4791 | Dosbarth |
| Mathau eraill o werthiant manwerthu nad yw mewn siopau, stondinau na marchnadoedd | 4799 | Dosbarth |
| **Cludo nwyddau ar y ffordd a gwasanaethau mudo** | | Grŵp |
| Cludo nwyddau ar y ffordd | 4941 | Dosbarth |
| Gwasanaethau mudo | 4942 | Dosbarth |
| **Trafnidiaeth trwy lein beipiau** | | Grŵp |
| Trafnidiaeth trwy lein beipiau | 4950 | Dosbarth |
| **Cludo teithwyr ar ddyfroedd morol ac arfordirol** | | Grŵp |
| Cludo teithwyr ar ddyfroedd morol ac arfordirol | 5010 | Dosbarth |
| **Cludo nwyddau ar ddyfroedd morol ac arfordirol** | | Grŵp |
| Cludo nwyddau ar ddyfroedd morol ac arfordirol | 5020 | Dosbarth |
| **Trafnidiaeth awyr ar gyfer nwyddau a thrafnidiaeth y gofod** | | Grŵp |
| Trafnidiaeth awyr ar gyfer nwyddau | 5121 | Dosbarth |
| Trafnidiaeth y gofod | 5122 | Dosbarth |
| **Cyhoeddi meddalwedd** | | Grŵp |
| Cyhoeddi gemau cyfrifiadur | 5821 | Dosbarth |
| Cyhoeddi meddalwedd arall | 5829 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau ffilmiau, fideo a rhaglenni teledu** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cynhyrchu ar gyfer ffilmiau, fideo a rhaglenni teledu | 5911 | Dosbarth |
| Gweithgareddau ôl-gynhyrchu ar gyfer ffilmiau, fideo a rhaglenni teledu | 5912 | Dosbarth |
| Gweithgareddau dosbarthu ffilmiau, fideo a rhaglenni teledu | 5913 | Dosbarth |
| Gweithgareddau taflunio ffilmiau | 5914 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth** | | Grŵp |
| Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth | 5920 | Dosbarth |
| **Darlledu ar y radio** | | Grŵp |
| Darlledu ar y radio | 6010 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau rhaglennu a darlledu ar y teledu** | | Grŵp |
| Gweithgareddau rhaglennu a darlledu ar y teledu | 6020 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau telathrebu â gwifrau** | | Grŵp |

| Disgrifiad | Dosbarth | Penawdau lefel |
|---|---|---|
| Gweithgareddau telathrebu â gwifrau | 6110 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau telathrebu diwifr** | | Grŵp |
| Gweithgareddau telathrebu diwifr | 6120 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau telathrebu drwy loeren** | | Grŵp |
| Gweithgareddau telathrebu drwy loeren | 6130 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau telathrebu eraill** | | Grŵp |
| Gweithgareddau telathrebu eraill | 6190 | Dosbarth |
| **Rhaglennu cyfrifiaduron, ymgynghori a gweithgareddau cysylltiedig** | | Grŵp |
| Gweithgareddau rhaglenni cyfrifiaduron | 6201 | Dosbarth |
| Gweithgareddau ymgynghori ym maes cyfrifiaduron | 6202 | Dosbarth |
| Gweithgareddau rheoli cyfleusterau cyfrifiadurol | 6203 | Dosbarth |
| Gweithgareddau gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfrifiaduron eraill | 6209 | Dosbarth |
| **Prosesu a lletya data a gweithgareddau cysylltiedig; pyrth ar y we** | | Grŵp |
| Prosesu a lletya data a gweithgareddau cysylltiedig | 6311 | Dosbarth |
| Pyrth ar y we | 6312 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gwasanaethau gwybodaeth eraill** | | Grŵp |
| Gweithgareddau asiantaethau newyddion | 6391 | Dosbarth |
| Gweithgareddau gwasanaethau gwybodaeth eraill n.dd.b. | 6399 | Dosbarth |
| **Cyfryngu ariannol** | | Grŵp |
| Bancio canolog | 6411 | Dosbarth |
| Cyfryngu ariannol arall | 6419 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau cwmnïau daliannol** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cwmnïau daliannol | 6420 | Dosbarth |
| **Ymddiriedolaethau, cronfeydd ac endidau ariannol tebyg** | | Grŵp |
| Ymddiriedolaethau, cronfeydd ac endidau ariannol tebyg | 6430 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gwasanaethau ariannol eraill, ac eithrio yswiriant ac ariannu pensiynau** | | Grŵp |
| Prydlesu ariannol | 6491 | Dosbarth |
| Darparwyr credyd eraill | 6492 | Dosbarth |
| Gweithgareddau gwasanaethau ariannol eraill, ac eithrio yswiriant ac ariannu pensiynau n.dd.b. | 6499 | Dosbarth |
| **Yswiriant** | | Grŵp |
| Yswiriant bywyd | 6511 | Dosbarth |
| Yswiriant nad yw'n yswiriant bywyd | 6512 | Dosbarth |
| **Ailyswirio** | | Grŵp |
| Ailyswirio | 6520 | Dosbarth |
| **Ariannu pensiynau** | | Grŵp |
| Ariannu pensiynau | 6530 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau atodol i wasanaethau ariannol, ac eithrio ariannu yswiriant a phensiynau** | | Grŵp |
| Gweinyddu marchnadoedd ariannol | 6611 | Dosbarth |
| Gweithgareddau masnachu contractau nwyddau a gwarannau | 6612 | Dosbarth |
| Gweithgareddau atodol i wasanaethau ariannol, ac eithrio ariannu yswiriant a phensiynau | 6619 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau atodol ym maes ariannu yswiriant a phensiynau** | | Grŵp |
| Gwerthuso risg a difrod | 6621 | Dosbarth |
| Gweithgareddau asiantau a broceriaid yswiriant | 6622 | Dosbarth |
| Gweithgareddau atodol eraill ym maes ariannu yswiriant a phensiynau | 6629 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau rheoli cronfeydd** | | Grŵp |
| Gweithgareddau rheoli cronfeydd | 6630 | Dosbarth |
| **Prynu a gwerthu eich eiddo diriaethol eich hun** | | Grŵp |
| Prynu a gwerthu eich eiddo diriaethol eich hun | 6810 | Dosbarth |
| **Gosod a rheoli eich eiddo diriaethol arall eich hun neu ar brydles** | | Grŵp |
| Gosod a rheoli eich eiddo diriaethol arall eich hun neu ar brydles | 6820 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau rheoli eiddo diriaethol am ffi neu ar gontract** | | Grŵp |
| Asiantaethau eiddo diriaethol | 6831 | Dosbarth |
| Rheoli eiddo diriaethol am ffi neu ar gontract | 6832 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau cyfreithiol** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cyfreithiol | 6910 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau cyfrifyddu, cadw llyfrau ac archwilio; ymgynghoriadeth ar drethi** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cyfrifyddu, cadw llyfrau ac archwilio; ymgynghoriadeth ar drethi | 6920 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau pencadlysoedd** | | Grŵp |
| Gweithgareddau pencadlysoedd | 7010 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau ymgynghori ar faterion rheoli** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu | 7021 | Dosbarth |
| Gweithgareddau ymgynghori busnesa ac ar faterion rheoli eraill | 7022 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig** | | Grŵp |
| Gweithgareddau pensaernïol | 7111 | Dosbarth |
| Gweithgareddau peirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig | 7112 | Dosbarth |
| **Profi a dadansoddi technegol** | | Grŵp |
| Profi a dadansoddi technegol | 7120 | Dosbarth |
| **Gwaith ymchwil a datblygu arbrofol mewn gwyddorau naturiol a pheirianneg** | | Grŵp |
| Gwaith ymchwil a datblygu arbrofol ym maes biodechnoleg | 7211 | Dosbarth |
| Gwaith ymchwil a datblygu arbrofol arall ym maes peirianneg a'r gwyddorau natur | 7219 | Dosbarth |
| **Gwaith ymchwil a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau** | | Grŵp |
| Gwaith ymchwil a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau | 7220 | Dosbarth |
| **Hysbysebu** | | Grŵp |
| Asiantaethau hysbysebu | 7311 | Dosbarth |
| Gwasanaethau cynrychiolaeth ym maes y cyfryngau | 7312 | Dosbarth |
| **Ymchwil i'r farchnad ac arolygon barn** | | Grŵp |
| Ymchwil i'r farchnad ac arolygon barn | 7320 | Dosbarth |

| Disgrifiad | Dosbarth | Penawdau lefel |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau dylunio arbenigol** | | Grŵp |
| Gweithgareddau dylunio arbenigol | 7410 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau ffotograffig** | | Grŵp |
| Gweithgareddau ffotograffig | 7420 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau cyfieithu a dehongli** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cyfieithu a dehongli | 7430 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill n.dd.b.** | | Grŵp |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol eraill n.dd.b. | 7490 | Dosbarth |
| **Rhentu a phrydlesu cerbydau modur** | | Grŵp |
| Rhentu a phrydlesu ceior a cherbydau modur ysgafn | 7711 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu tryciau | 7712 | Dosbarth |
| **Rhentu a phrydlesu nwyddau personol a chartref** | | Grŵp |
| Rhentu a phrydlesu nwyddau hamdden a chwaraeon | 7721 | Dosbarth |
| Rhentu tapiau a disgiau fideo | 7722 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu nwyddau personol a chartref eraill | 7729 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu peiriannau, cyfarpar a nwyddau diriaethol eraill | | Grŵp |
| Rhentu a phrydlesu peiriannau a chyfarpar amaethyddol | 7731 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu peiriannau a chyfarpar adeiladu a pheirianneg sifil | 7732 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu peiriannau a chyfarpar swyddfa (gan gynnwys cyfrifiaduron) | 7733 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu cyfarpar i gludo teithwyr ar y dŵr | 7734 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu cyfarpar i gludo teithwyr yn yr awyr | 7735 | Dosbarth |
| Rhentu a phrydlesu peiriannau, cyfarpar a nwyddau diriaethol eraill n.dd.b. | 7739 | Dosbarth |
| **Prydlesu eiddo deallusol a chynnyrch tebyg, ac eithrio gwaith hawlfraint** | | Grŵp |
| Prydlesu eiddo deallusol a chynnyrch tebyg, ac eithrio gwaith hawlfraint | 7740 | Dosbarth |
| Gweithgareddau asiantaethau canfod cyflogaeth | | Grŵp |
| Gweithgareddau asiantaethau canfod cyflogaeth | 7810 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau asiantaethau canfod cyflogaeth dros dro** | | Grŵp |
| Gweithgareddau asiantaethau canfod cyflogaeth dros dro | 7820 | Dosbarth |
| **Darpariaeth adnoddau dynol arall** | | Grŵp |
| Darpariaeth adnoddau dynol arall | 7830 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau asiantaethau teithio a threfnwyr teithiiau** | | Grŵp |
| Gweithgareddau asiantaethau teithio | 7911 | Dosbarth |
| Gweithgareddau trefnwyr teithiau | 7912 | Dosbarth |
| **Gwasanaethau cadw a gweithgareddau cysylltiedig eraill** | | Grŵp |
| Gwasanaethau cadw a gweithgareddau cysylltiedig eraill | 7990 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau diogelwch preifat** | | Grŵp |
| Gweithgareddau diogelwch preifat | 8010 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gwasanaethau systemau diogelwch** | | Grŵp |
| Gweithgareddau gwasanaethau systemau diogelwch | 8020 | Dosbarth |
| **Gwasanaethau ymholi** | | Grŵp |
| Gwasanaethau ymholi | 8030 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau cynnal cyfleusterau cyfunol** | | Grŵp |
| Gweithgareddau cynnal cyfleusterau cyfunol | 8110 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gwasanaethau'r dirwedd** | | Grŵp |
| Gweithgareddau gwasanaethau'r dirwedd | 8130 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gweinyddiol a chymorth mewn swyddfeydd** | | Grŵp |
| Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol cyfunol mewn swyddfeydd | 8211 | Dosbarth |
| Llungopïo, paratoi dogfennau a gweithgareddau cymorth arbenigol eraill ar gyfer swyddfeydd | 8219 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau canolfannau galwadau** | | Grŵp |
| Gweithgareddau canolfannau galwadau | 8220 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau trefnu arddangosfeydd a ffeiriau masnach** | | Grŵp |
| Gweithgareddau trefnu arddangosfeydd a ffeiriau masnach | 8230 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gwasanaethau cymorth busnes n.dd.b.** | | Grŵp |
| Gweithgareddau asiantaethau casglu a chanolfannau credyd | 8291 | Dosbarth |
| Gweithgareddau pecynnu | 8292 | Dosbarth |
| Gweithgareddau gwasanaethau cymorth busnes eraill n.dd.b. | 8299 | Dosbarth |
| **Addysg uwch** | | Grŵp |
| Addysg ôl-uwchradd nad yw’n drydyddol | 8541 | Dosbarth |
| Addysg drydyddol | 8542 | Dosbarth |
| **Gwasanaethau cymorth addysg** | | Grŵp |
| Gwasanaethau cymorth addysg | 8560 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau creadigol, y celfyddydau ac adloniant** | | Grŵp |
| Celfyddydau perfformio | 9001 | Dosbarth |
| Gweithgareddau cymorth ym maes y celfyddydau perfformio | 9002 | Dosbarth |
| Creu artistig | 9003 | Dosbarth |
| Rheoli cyfleusterau ar gyfer y celfyddydau | 9004 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a diwylliannol eraill** | | Grŵp |
| Gweithgareddau llyfrgelloedd ac archifau | 9101 | Dosbarth |
| Gweithgareddau amgueddfeydd | 9102 | Dosbarth |
| Gweithredu safleoedd ac adeiladau hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr | 9103 | Dosbarth |
| Gweithgareddau gerddi botanegol a sŵolegol a gwarchodfeydd natur | 9104 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau gamblo a betio** | | Grŵp |
| Gweithgareddau gamblo a betio | 9200 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau chwaraeon** | | Grŵp |
| Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | 9311 | Dosbarth |
| Cyfleusterau ffitrwydd | 9313 | Dosbarth |
| Gweithgareddau chwaraeon eraill | 9319 | Dosbarth |

| Disgrifiad | Dosbarth | Penawdau lefel |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau sefydliadau aelodaeth busnesau, cyflogwyr a phroffesiynol** | | Grŵp |
| Gweithgareddau sefydliadau i aelodau ym myd busnes a chyflogwyr | 9411 | Dosbarth |
| Gweithgareddau sefydliadau proffesiynol i aelodau | 9412 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau undebau llafur** | | Grŵp |
| Gweithgareddau undebau llafur | 9420 | Dosbarth |
| **Gweithgareddau sefydliadau aelodaeth eraill** | | Grŵp |
| Gweithgareddau sefydliadau crefyddol | 9491 | Dosbarth |
| Gweithgareddau sefydliadau gwleidyddol | 9492 | Dosbarth |
| Gweithgareddau sefydliadau aelodaeth eraill n.dd.b. | 9499 | Dosbarth |

Ffynhonnell: Miller Research